# Agenda - Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 20 Ionawr 2022

Amser: 09.15

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Marc Wyn Jones**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddHinsawdd@senedd.cymru

## Rhag-gyfarfod preifat (09.00-09.15)

Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, mae'r Cadeirydd wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor at ddibenion diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar senedd.tv.

## Cyfarfod cyhoeddus (09.15-11.25)

### 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.15)

### 2 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2022-23 - sesiwn 1

(09.15-10.15) (Tudalennau 1 - 77)

Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd

Lee Waters AS, y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd

Dean Medcraft, Cyfarwyddwr Cyllid a Gweithrediadau

Gian Marco Currado, Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a'r Môr

John Howells, Cyfarwyddwr Newid Hinsawdd, Ynni a Chynllunio

Steve Vincent, Cyfarwyddwr Seilwaith Economaidd

Dogfennau atodol:

Briff ymchwil - Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23

Papur - Cynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23

**Egwyl (10.15-10.25)**

**3 Craffu ar Gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2022-23 - sesiwn 2**

(10.25-11.25)

Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd

Lee Waters AS, y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd

Dean Medcraft, Cyfarwyddwr Cyllid a Gweithrediadau

Gian Marco Currado, Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a'r Môr

John Howells, Cyfarwyddwr Newid Hinsawdd, Ynni a Chynllunio

Steve Vincent, Cyfarwyddwr Seilwaith Economaidd

**Egwyl Ginio (11.25-12.20)**

**Rhag-gyfarfod preifat (12.20-12.30)**

**Cyfarfod cyhoeddus (12.30-14.00)**

**4 Gwaith craffu blynyddol ar Gyfoeth Naturiol Cymru**

(12.30-14.00) (Tudalennau 78 - 99)

Syr David Henshaw, Cadeirydd - Cyfoeth Naturiol Cymru

Clare Pillman, Prif Weithredwr - Cyfoeth Naturiol Cymru

Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol dros Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu - Cyfoeth Naturiol Cymru

Dogfennau atodol:

Briff ymchwil - Gwaith craffu blynyddol ar Gyfoeth Naturiol Cymru

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2020-21 - Cyfoeth Naturiol Cymru

Papur - Cyfoeth Naturiol Cymru

**5 Papurau i'w nodi**

(14.00)

**5.1 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2022-23**

(Tudalennau 100 - 102)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, at y Cadeirydd, mewn perthynas â Chyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2022-23

**5.2 Cyllid ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru yn y dyfodol**

(Tudalennau 103 - 105)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan y Cadeirydd at y Gweinidog Newid Hinsawdd ynghylch cyllid ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru yn y dyfodol

Ymateb gan y Gweinidog Newid Hinsawdd i'r llythyr gan y Cadeirydd ynghylch cyllid ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru yn y dyfodol

**5.3 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2022-23 a chraffu blynyddol ar Gyfoeth Naturiol Cymru**

(Tudalennau 106 - 110)

Dogfennau atodol:

Papur gan RSPB Cymru ynghylch cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2022-23 a chraffu blynyddol ar Gyfoeth Naturiol Cymru (Saesneg yn unig)

Papur gan Y Cerddwyr ynghylch cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2022-23 (Saesneg yn unig)

**5.4 Eitemau plastig untro**

(Tudalennau 111 - 113)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan y Cadeirydd at y Gweinidog Newid Hinsawdd ynghylch y wybodaeth ddiweddaraf am gynigion i wahardd eitemau plastig untro

Ymateb gan y Gweinidog Newid Hinsawdd i'r llythyr gan y Cadeirydd ynghylch y wybodaeth ddiweddaraf am gynigion i wahardd eitemau plastig untro

**5.5 Rheoli'r amgylchedd morol**

(Tudalennau 114 - 116)

Dogfennau atodol:

Gwybodaeth ddilynol gan Gyfoeth Naturiol Cymru yn dilyn eu sesiwn dystiolaeth ar reoli amgylchedd morol yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 9 Rhagfyr 2021

**5.6 Gollyngiadau carthion**

(Tudalennau 117 - 118)

Dogfennau atodol:

Ymateb gan Gadeirydd Cyfoeth Naturiol Cymru i lythyr y Cadeirydd dyddiedig 22 Tachwedd ynghylch gollyngiadau carthion nas caniateir (Saesneg yn unig)

**5.7 Fframweithiau Cyffredin - Sylweddau Ymbelydrol**

(Tudalen 119)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd at y Cadeirydd ynghylch y Cytundeb Fframwaith Amlinellol a'r Concordat ar gyfer y Fframwaith Cyffredin Sylweddau Ymbelydrol

**5.8 Cytundeb Cysylltiadau Rhyng-sefydliadol rhwng Senedd Cymru a Llywodraeth Cymru**

(Tudalennau 120 - 121)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad mewn perthynas â'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyng-Sefydliadol rhwng Senedd Cymru a Llywodraeth Cymru

**5.9 Y Grŵp Rhyngweinidogol ar yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig**

(Tudalennau 122 - 123)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd a'r Gweinidog Newid Hinsawdd ynghylch y Grŵp Rhyngweinidogol ar yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig

**5.10 Grŵp Rhyngweinidogol ar Sero Net, Ynni a Newid Hinsawdd**

(Tudalen 124)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd at y Cadeirydd ynghylch y Grŵp Rhyngweinidogol ar Sero Net, Ynni a Newid Hinsawdd

**5.11 Cymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040**

(Tudalennau 125 - 128)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan y Cadeirydd at y Gweinidog Newid Hinsawdd ynghylch Cymru'r Dyfodol:y cynllun cenedlaethol 2040

Ymateb gan y Gweinidog Newid Hinsawdd i'r llythyr gan y Cadeirydd ynghylch Cymru'r Dyfodol:y cynllun cenedlaethol 2040

**5.12 Rheoliadau Plaladdwyr (Dirymu) (Ymadael â'r UE) 2022**

(Tudalennau 129 - 130)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ynghylch Rheoliadau Plaladdwyr (Dirymu) (Ymadael â'r UE) 2022

**5.13 Rheoliadau Rhestrau Gwledig Cymeradwy (Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid) (Diwygio) (Rhif 2) 2021**

(Tudalennau 131 - 132)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd at y Cadeirydd ynghylch Rheoliadau Rhestrau Gwledydd Cymeradwy (Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid) (Diwygio) (Rhif 2) 2021

**5.14 Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Estyn Cyfnodau Trosiannol) (Diwygio) (Rhif 2) 2021**

(Tudalennau 133 - 134)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ynghylch Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Estyn Cyfnodau Trosiannol) (Diwygio) (Rhif 2) 2021

**5.15 Prosiect Morlais**

(Tudalennau 135 - 138)

Dogfennau atodol:

Papur gan Gyfoeth Naturiol Cymru ynghylch prosiect arddangos ffrwd lanwol Morlais

**5.16 Defnydd o'r term BAME (Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig)**

(Tudalennau 139 - 140)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus at Brif Weithredwr a Chlerc Comisiwn y Senedd ynghylch y defnydd o'r term BAME

**5.17 Amserlen ar gyfer Busnes Pwyllgorau'r Senedd**

(Tudalennau 141 - 148)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan y Llywydd at Gadeiryddion Pwyllgorau'r Senedd ynghylch amserlen Busnes Pwyllgorau'r Senedd

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) a (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(14.00)

## Cyfarfod preifat (14.00-15.00)

## 7 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2022-23: trafod y dystiolaeth a glywyd o dan eitemau 2 a 3

## 8 Gwaith craffu blynyddol ar Gyfoeth Naturiol Cymru - ystyried y dystiolaeth a glywyd o dan eitem 4

## 9 Trafod blaenraglen waith y Pwyllgor

(Tudalennau 149 - 194)

Dogfennau atodol:

Papur - Blaenraglen waith (Saesneg yn unig)

## 10 Trafod y Llythyr gan y Llywydd ynghylch amserlen Busnes Pwyllgorau'r Senedd

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

## Memorandwm ar Gynigion y Gyllideb Ddrafft ar y Newid yn yr Hinsawdd ar gyfer 2022-23

**Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith – 20 Ionawr 2022**

### 1.0 Cyd-destun Strategol

**Strategaethau ac Ystyriaethau Polisi**

Mae ystyriaethau yn ymwneud â Newid Hinsawdd yn allweddol i Lywodraeth Cymru ar draws pob maes polisi i ymateb i'r argyfwng hinsawdd ac addasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd. Mae'r Prif Weinidog wedi bod yn glir bod Newid Hinsawdd wrth wraidd agenda'r Llywodraeth.

Ar 28 Hydref, lansiodd Llywodraeth Cymru ei chynllun Cymru Sero Net, sy'n nodi'r cam nesaf ar ein llwybr (2021 i 2025) tuag at sero net erbyn 2050. Mae'r cynllun yn cynnwys mwy na 120 o bolisïau a chynigion y llywodraeth, sy'n cwmpasu pob maes o adfer mawndiroedd i deithio llesol, o sgiliau gwyrdd i ynni adnewyddadwy.

Nod y portffolio yw cyflawni sero net a rheoli'r risg hinsawdd i Gymru. Mae ein cynghorwyr statudol, y Pwyllgor Newid Hinsawdd (CCC), yn awgrymu y bydd y costau i Gymru o bontio i Sero Net yn sylweddol (tua £1.4 biliwn yn 2025) a bod angen i fuddsoddiad mewn technolegau carbon isel gynyddu'n sylweddol dros gyllideb garbon 2, sy'n cyd-fynd â thymor y Llywodraeth hon.

Mae Llwybr Newydd - Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn nodi gweledigaeth hirdymor ar gyfer system drafnidiaeth hygyrch a chynaliadwy. Mae'n cynnwys pedwar uchelgais 20 mlynedd trawsbynciol lefel uchel a all sicrhau manteision ehangach i bobl a chymunedau, i'r amgylchedd, i'r economi a lleoedd ac i ddiwylliant ac iaith. Cyflawnir yr uchelgeisiau hyn drwy gyfres o flaenoriaethau pum mlynedd, gan dargedu ffyrdd o leihau'r angen i deithio ac annog newid dulliau teithio.

Mae'n newid ein dull o wneud penderfyniadau a buddsoddiadau. Mae'r hierarchaeth trafnidiaeth gynaliadwy yn rhoi blaenoriaeth i ateb y galw am deithio drwy gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus cyn cerbydau modur preifat. Mae'r hierarchaeth fuddsoddi yn canolbwyntio ar fesurau i reoli'r galw, gwneud gwell defnydd o'r seilwaith presennol (gan gynnwys cynllunio cydgysylltiedig rhwng trafnidiaeth a defnydd tir) ac ehangu a hyrwyddo dewisiadau teithio cynaliadwy.

**Gwariant Ataliol**

Mae ein hymyriadau ar draws y portffolio yn gweithredu ymyrraeth sylfaenol, yn meithrin cydnerthedd ac yn creu'r amodau i atal problemau yn y dyfodol.

Mae amryw o fesurau'n cael eu cyflwyno ar draws y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol (SRN) mewn perthynas ag ystyriaethau cynnal a chadw a diogelwch. Disgrifir y rhain yn fwy manwl yn y Seilwaith Economaidd yn adran 3.

Hanfod Rheoli Perygl Llifogydd ac Arfordiroedd yw lleihau'r perygl i fywyd. Mae'n gwneud hyn trwy atal digwyddiadau llifogydd ac erydu a fyddai, fel arall, yn achosi difrod i gartrefi a busnesau. Rydym wedi gwella'r ffordd yr awn ati i flaenoriaethu cynlluniau lliniaru er mwyn helpu i dargedu cyllid tuag at brosiectau a leolir yn yr ardaloedd â'r risg uchaf, lle dangosir y gwariant ataliol mwyaf effeithiol.

Trwy fuddsoddi yn y gwaith o fynd i'r afael â thlodi tanwydd, rydym yn cyfrannu at fynd i'r afael ag ystod o effeithiau negyddol, yn cynnwys cyflyrau iechyd sy'n gysylltiedig â thywydd oer, marwolaethau gormodol yn y gaeaf, cyrhaeddiad addysgol plant, ac absenoldeb o'r ysgol a'r gwaith oherwydd salwch. Dengys canfyddiadau gwaith ymchwil fod cynllun Nyth Cartrefi Clyd yn cael effaith gadarnhaol bendant ar iechyd y rhai sy'n rhan o'r cynllun, a bod y rhai sy'n elwa ar fesurau effeithlonrwydd ynni trwy gyfrwng y cynllun yn defnyddio llai ar y GIG.

**Llunio polisïau sy'n seiliedig ar dystiolaeth**

Mae tystiolaeth o ystod eang o ffynonellau yn sail i'n penderfyniadau ariannol megis ymchwil a gyhoeddwyd, ymgysylltu â rhanddeiliaid, gwerthusiadau polisi ac ystadegau blaenorol.

Asesir tystiolaeth a chwmpas yr arfarniad a gynhaliwyd wrth ddatblygu polisi a rhaglenni ar sail risg, maint a graddfa, sylfaen dystiolaeth bresennol a ffactorau eraill. Cynhelir astudiaethau dichonoldeb cyn cychwyn ar brosiectau allweddol i asesu addasrwydd wrth gyflawni yn erbyn ein nodau, tra bod adolygiadau porth ar gyfer prosiectau mawr yn cael eu cwblhau i herio pob agwedd ar achos busnes, gan gynnwys yr asesiad gwerth am arian hanfodol. Er bod yr adolygiadau'n benodol i brosiect, maent yn helpu i greu ffynhonnell ddefnyddiol o wybodaeth ar gyfer ystyried prosiectau eraill. Gall adroddiadau archwilio mewnol ac allanol fod o gymorth mewn ffordd debyg.

Gwnaethom hefyd fodelu gwerth carbon (£/tCO2e) amrywiaeth o bolisïau trafnidiaeth unigol fel rhan o ddatblygiad Sero Net Cymru - Cyllideb Garbon 2, yn ogystal â manteision ehangach eraill gan ddefnyddio Dangosydd Cost-Effeithiolrwydd.

Rydym yn datblygu fframwaith monitro a gwerthuso ar gyfer Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a fydd yn cael ei ddefnyddio i olrhain cynnydd yn erbyn cyflawni'r blaenoriaethau a'r uchelgeisiau a nodi unrhyw feysydd lle gallai fod angen ymyriadau pellach i gyrraedd ein targedau.

Mae ein dull o fynd i'r afael â Newid Hinsawdd yn parhau i gael ei arwain gan dystiolaeth. Cawn ein harwain gan y wyddoniaeth drwy waith y Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd (IPCC) a'n cynghori gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd (CCC). Cafodd yr uchelgais a nodwyd yng Nghynllun Sero Net Cymru ei lywio gan ein cyfrifiannell allyriadau ein hunain ac rydym yn gwella ein dulliau o werthuso effaith carbon wrth ddatblygu ein polisi. Ynghyd â chynllun Sero Net Cymru, cafwyd Arfarniad Cynaliadwyedd ac mae'r holl bolisïau presennol a gipiwyd yn y ddogfen wedi bod yn destun ymgysylltu trylwyr, yn ogystal â'n Harfarniadau Effaith Integredig cynhwysfawr.

Mae'r dulliau cyfunol hyn yn ein galluogi i dargedu ein cyllidebau'n well, nid yn unig i leihau allyriadau carbon, ond hefyd i gyflawni'r ystod o nodau llesiant. Fodd bynnag, rhaid i ni wella ein dulliau gweithredu yn barhaus.

Mae nifer sylweddol o eitemau untro, a wnaed o blastig fel arfer, yn cael eu darparu i ddefnyddwyr am bris isel neu am ddim, gyda bwyd neu ddiod a brynir. Mae'r eitemau hyn yn fach iawn ac o werth unigol isel iawn, i'r defnyddiwr terfynol ac i'r manwerthwr. Felly, bernir nad yw'r gost a'r ymdrech o'u didoli, eu glanhau a'u prosesu ar gyfer ailgylchu yn werth chweil. O ganlyniad, mae llawer iawn o'r cynhyrchion hyn yn cael eu taflu i ganol gwastraff cyffredinol, naill ai gan y defnyddiwr terfynol neu'r manwerthwr, neu'n cael eu lluchio fel sbwriel. Yn ei Rhaglen Lywodraethu, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddeddfu i ddiddymu eitemau plastig untro sy'n cael eu taflu'n aml. Y bwriad yw dylanwadu ar ddefnyddwyr fel eu bod yn dechrau mabwysiadu ymddygiadau mwy cynaliadwy (er enghraifft, yn defnyddio cynhyrchion y gellir eu hailddefnyddio) ac atal yr effeithiau amgylcheddol dilynol sy'n gysylltiedig ag eitemau untro.

Mae'r Is-adran Effeithlonrwydd Adnoddau a'r Economi Gylchol yn diweddaru elfennau allweddol o'i sylfaen dystiolaeth ar gyfer yr 18 mis nesaf, gan gynnwys:

- Dadansoddiad cyfansoddiadol newydd o wastraff cartref
- Adolygiadau Perfformiad ac Effeithlonrwydd o holl Weithrediadau Gwastraff ac Ailgylchu Awdurdodau Lleol
- Treialu gweithrediadau DRS mewn amryw o awdurdodau lleol.

**Ymgynghori â rhanddeiliaid**

Datblygwyd Strategaeth Drafnidiaeth Cymru (WTS) drwy ymgynghori a chyd-greu helaeth gydag ystod eang o randdeiliaid a chynhaliwyd dros 100 o gyfarfodydd yn ystod y cyfnod datblygu, felly mae'r strategaeth ei hun yn adlewyrchu eu barn yn gryf. Bydd y gyllideb ddrafft yn ein helpu i weithio tuag at gyflawni'r polisïau a'r camau gweithredu sydd wedi'u cynnwys ynddynt. Byddwn yn rhoi pobl a newid hinsawdd wrth wraidd ein system drafnidiaeth a byddwn yn helpu Cymru i gyrraedd sero net, gan sbarduno manteision ehangach ar draws meysydd iechyd, ansawdd aer, hygyrchedd a'r economi.

Mae effaith amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol eitemau plastig untro sy'n cael eu taflu wedi'i hasesu ar lefel Ewropeaidd (drwy ymchwil a wnaed gan y Comisiwn Ewropeaidd) ac ar lefel genedlaethol (drwy ymchwil a gomisiynir gan Lywodraeth Cymru). Rydym hefyd wedi cynnal ymgynghoriad cyhoeddus llawn ar y dull rheoleiddio arfaethedig ac wedi ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid i ategu ein proses o gasglu tystiolaeth. Caiff llwyddiant y ddeddfwriaeth ei fonitro drwy gydymffurfiaeth ac arolygon blynyddol o lefelau taflu sbwriel ledled Cymru.

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**

Mae fy mharatoadau ar gyfer y gyllideb drafft yn dangos sut rwyf wedi ceisio adlewyrchu fframwaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wrth bennu ein blaenoriaethau gwario. Adolygwyd y tueddiadau cyfredol ac amcanestyniadau'r dyfodol a'u heffeithiau posibl yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hwy. Gwnaethom hyn er mwyn sicrhau,

cyn belled ag y bo modd, nad yw ymatebion tymor byr yn arwain at effeithiau niweidiol yn y tymor hwy.

Er enghraifft, mae ein Rhaglen Cartrefi Clyd yn cyfrannu'n helaeth ar draws llawer o amcanion llesiant Llywodraeth Cymru dan ein Strategaeth Genedlaethol "ffyniant i bawb", gan gynnwys hybu iechyd a llesiant da. Cyflawnir hyn trwy greu swyddi a chyfleoedd busnes, gwella'r stoc dai yn yr hirdymor, lleihau allyriadau carbon, a mynd i'r afael â thlodi tanwydd a'r holl effeithiau negyddol cysylltiedig a gaiff ar iechyd, llesiant a chyrhaeddiad addysgol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddiogelu ein hamgylchedd morol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol trwy reoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy. Un ffordd hollbwysig o gyrraedd yr amcan hwn yw ein rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig (MPAs) sy'n cwmpasu 69% o ddyfroedd mewndirol Cymru a 50% o holl ddyfroedd môr mawr Cymru.

Bydd y Goedwig Genedlaethol yn cael ei thyfu dros ddegawdau lawer, gan helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, gwella adferiad natur, darparu manteision llesiant a chreu budd economaidd i Gymru. Bydd yn waddol parhaol i genedlaethau'r dyfodol yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015).

Mae LPfN yn ariannu Awdurdodau Lleol a Pharciau Cenedlaethol i greu lleoedd ar gyfer natur lle mae pobl yn byw, yn gweithio ac yn cael mynediad at wasanaethau cyhoeddus. Mae hyn yn cyfrannu at y nod o Gymru Gydnerth a Chymru Iachach. Mae camau i atal a gwrthdroi'r dirywiad ym myd natur yn cyfrannu at Gymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang. Drwy ei brosiectau a arweinir gan y gymuned, mae LPfN yn bwriadu cynnwys pobl a chymunedau yn y gwaith i adfer a gwella bioamrywiaeth. Mae'r gronfa Chwalu Rhwystrau yn ceisio galluogi ystod fwy amrywiol o gymunedau i ymgysylltu â natur.

Mae Strategaeth Drafnidiaeth Cymru wedi'i seilio'n sylfaenol ar y pum ffordd o weithio a nodir yn y Ddeddf ac mae'n cyfrannu at yr holl nodau, felly mae'r holl amcanion, prosiectau a rhaglenni sydd i'w cyflawni o ganlyniad i'r strategaeth yn cael eu dylanwadu gan Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol, ac yn ei hadlewyrchu.

Bydd cyllideb Effeithlonrwydd Adnoddau a'r Economi Gylchol yn cynyddu y flwyddyn nesaf i gefnogi cyfnod pontio Cymru i economi fwy cylchol sy'n sicrhau bod adnoddau'n parhau i gael eu defnyddio ac yn cyflawni'r Strategaeth Mwy nag Ailgylchu.

Datblygwyd y Strategaeth gan ddefnyddio'r pum ffordd o weithio a chyhoeddwyd Asesiad Nodau ar wahân ochr yn ochr â'r ddogfen derfynol i ddangos cyfraniad y gwaith hwn at bob un o'r saith nod.

Mae'r pontio i economi fwy cylchol yn allweddol i gyflawni canlyniadau amgylcheddol allweddol – oherwydd gall leihau ein hallyriadau carbon yn sylweddol a'n gorfanteisio ar adnoddau naturiol, a helpu i wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth. Ond yn hollbwysig, gall hefyd wella canlyniadau economaidd a chymdeithasol. Yn economaidd, drwy fabwysiadu dull cylchol sy'n byrhau cadwyni cyflenwi, gall wella effeithlonrwydd, creu cyflogaeth a chynyddu cystadleurwydd. O ran manteision cymdeithasol, bydd byrhau cadwyni cyflenwi a lleihau allyriadau yn lleihau'r effeithiau ar iechyd a achosir gan lygredd ac yn helpu i ddosbarthu adnoddau'n fwy teg. Bydd hyn hefyd yn rhoi mwy

o gyfleoedd i gymunedau ddod at ei gilydd i rannu adnoddau ac adfywio lle rydym yn byw.

**Asesiad o Gydraddoldeb, y Gymraeg a hawliau plant**

Cafodd effaith Strategaeth Drafnidiaeth Cymru ei hasesu'n llawn drwy'r broses asesu effaith integredig ac roedd cynrychiolwyr yr holl grwpiau hynny sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig yn rhan o'r broses yn ystod y cam drafftio ac ymgynghori. Roedd hyn yn cynnwys plant, pobl hŷn a'r holl gomisiynwyr, gan gynnwys Comisiynydd y Gymraeg. Felly, mae Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn adlewyrchu eu barn a'u cyfranogiad ac mae'r gyllideb yn cyflawni'n fras y nodau a'r amcanion yn y strategaeth.

Ar ôl adolygu'r newidiadau allweddol uchod i ddyraniadau'r gyllideb, bu amryw o raglenni allweddol yn destun Asesiadau Effaith Integredig yn cwmpasu cydraddoldeb, y Gymraeg a Hawliau Plant. Mae asesiadau effaith integredig wedi'u prif ffrydio'n rhan o'r broses llunio polisïau, yn ogystal â phenderfyniadau cyllidebol. Dyma rai enghreifftiau;

Bydd y Rhaglen Cartrefi Clyd yn cefnogi gwelliannau mewn llesiant wrth i gartrefi sydd wedi'u hinswleiddio'n well wella deilliannau addysgol i blant, lleihau nifer y marwolaethau yn sgil afiechydon anadlol a rhoi ansawdd bywyd gwell i bobl. Drwy dargedu'r cartrefi sydd â'r angen mwyaf, bydd y rhaglen yn helpu pobl o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is a phobl â nodweddion gwarchodedig.

Cymru yw'r wlad gyntaf yn y DU, ac un o'r ychydig wledydd trwy'r byd, i ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn mewn cyfraith ddomestig trwy gyfrwng Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011.

Caiff dyletswyddau'r Mesur eu gweithredu mewn dau gam ac maent yn rhoi dyletswyddau ar Weinidogion Cymru i wneud y canlynol:

- rhoi ystyriaeth gytbwys i'r hawliau yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'i brotocolau dewisol wrth lunio neu adolygu polisi a deddfwriaeth;
- rhoi ystyriaeth gytbwys i'r hawliau yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn pan fyddant yn arfer eu holl bwerau neu eu holl ddyletswyddau cyfreithiol.

Ar draws fy mhortffolio, mae'n ofynnol i bob aelod o staff ystyried sut mae ei waith yn effeithio ar hawliau plant, ac mae'r broses hon wedi llywio'r Asesiad Effaith Integredig. Ni nodwyd unrhyw effeithiau sylweddol ar hawliau plant wrth bennu'r gyllideb hon.

**Ail-greu ar ôl COVID-19: Yr Heriau a'r Blaenoriaethau**

Mae cyllideb refeniw y Seilwaith Economaidd wedi cael cynnydd yn erbyn y 'gwaelodlin' blaenorol o tua £137 miliwn. Prif ddefnydd y cyllid hwn fydd parhau i gefnogi gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus i wrthbwyso effaith barhaus y Coronafeirws ar batrymau teithio a gostyngiadau sylweddol yn yr incwm a ddaw o werthiant tocynnau

teithwyr.  Rydym yn parhau i gefnogi'r meysydd hyn fel rhan o'n huchelgais hirdymor i sicrhau newid dulliau teithio a datgarboneiddio'r sector Trafnidiaeth.

Caiff y cyllid ei rannu'n 3 maes allweddol

Gwasanaethau rheilffyrdd (£72 miliwn) – Bydd hyn yn cynorthwyo Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig i dalu ei gostau rhedeg tra bod y coronafeirws yn parhau i effeithio ar deithiau ac ar yr incwm a ddaw o werthiant tocynnau teithwyr.

Gwasanaethau bws BES (£28 miliwn) – Fel gyda'r rheilffyrdd, bydd hyn yn cael ei ddefnyddio i gefnogi'r diwydiant bysiau tra bod y coronafeirws yn parhau i effeithio ar ei niferoedd teithwyr a'i wasanaethau.

Tocynnau Teithio Rhatach (£37 miliwn) – Mae hyn er mwyn gwrthbwyso gostyngiad yn y cyllid sydd ar gael drwy gyllidebau cyfalaf ar gyfer cefnogi teithio rhatach. Nid yw hyn yn cyfateb i gynnydd cyffredinol i'r gyllideb Tocynnau Teithio Rhatach ond mae'n sicrhau bod yr amlen gyllidebol gyffredinol (sy'n cael ei hariannu o ffynonellau refeniw a chyfalaf) yn parhau i fod yn gyson â blynyddoedd blaenorol.

Mae *Ail-greu ar ôl COVID-19: yr heriau a'r blaenoriaethau* Llywodraeth Cymru yn rhoi'r economi gylchol wrth wraidd ein dull o ail-greu ac mae hyn hefyd wedi'i adlewyrchu yn ein Rhaglen Lywodraethu ac, yn fwy diweddar, yng Nghynllun Sero Net Cymru. Dyrannwyd cyllid ychwanegol i waith yr economi gylchol o fewn cyllideb y llynedd ac mae'r cyllid hwn wedi'i gadw, ynghyd â chynnydd ychwanegol. Mae'r cyllid eisoes yn cefnogi camau gweithredu ledled Cymru ac, yn y dyfodol, bydd yn cynnwys ariannu ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu i atgyweirio ac ailddefnyddio cyfleusterau a chanolfannau ailgylchu cymunedol.

Mae tua 60 o gaffis atgyweirio wedi'u sefydlu mewn cymunedau ledled Cymru dros y tair blynedd diwethaf ac mae 11 o safleoedd Benthyg Cymru – llyfrgelloedd pethau – bellach yn weithredol lle gall pobl gael benthyg eitemau rydym ond yn tueddu i'w defnyddio o bryd i'w gilydd am gost enwol. Mae canolfannau atgyweirio ac ailddefnyddio wedi cael eu cefnogi mewn sawl canol tref, gan gynnwys y Repair and Reuse Centre ym Mwcle, The Hive yn Llandrindod a'r ganolfan Waste Not a agorwyd yn y Drenewydd yn ddiweddar. Rydym hefyd wedi bod yn gweithio gyda phartneriaid academaidd, gan gynnwys cefnogi datblygiad y Remakerspace ym Mhrifysgol Caerdydd, sy'n edrych ar ddyluniad cynnyrch arloesol a'r defnydd o ddeunyddiau, i ddefnyddio'r offer a ariennir gan Lywodraeth Cymru i gynhyrchu PPE ar gyfer gweithwyr rheng flaen. Mae Cymunedau Arloesi'r Economi Gylchol (CEIC) ym Mhrifysgol Abertawe hefyd wedi cael cymorth i weithio gyda'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector yng Nghymru i'w cefnogi i gyflwyno mwy o arferion cylchol yn eu gwaith, fel bod yn fwy effeithlon o ran adnoddau.

Bydd cyllid yr Economi Gylchol hefyd yn parhau i gefnogi gwell cadernid economaidd drwy fyrhau cadwyni cyflenwi, er enghraifft, drwy fanteisio ar ein prosesau ailgylchu heb eu hail a chefnogi busnesau i ddefnyddio'r deunyddiau a ailgylchir. Mae'r Gronfa Economi Gylchol ar gyfer busnes wedi'i hehangu i £10 miliwn dros y tair blynedd nesaf i gynyddu'r gefnogaeth i'r cyfleoedd hyn ac mae'n enghraifft o sut y gall camau gweithredu'r economi gylchol sicrhau manteision economaidd a chyfleoedd sgiliau mewn meysydd fel effeithlonrwydd adnoddau, a sicrhau manteision amgylcheddol sy'n hanfodol i fynd i'r afael ag argyfyngau hinsawdd a natur. Mae astudiaethau achos gan

fusnesau sydd eisoes wedi'u hariannu yn cynnwys busnesau fel Capital Valley Plastics, sy'n cynhyrchu croen atal lleithder o ffilm blastig, a Heathpak, sy'n cynhyrchu pecynnau bwyd o gynnwys wedi'i ailgylchu, ac arloesi, gan gynnwys partneriaeth rhwng Ecodek a Nextek yn Wrecsam i ddod o hyd i ddefnydd newydd ar gyfer cwpanau coffi untro sy'n cael eu troi'n ddeunyddiau adeiladu sy'n gallu amddiffyn rhag dŵr – gan ddod o hyd i werth mewn deunyddiau a fyddai fel arall yn cael eu hystyried yn wastraff.

**Deddfwriaeth**

**Plastigau Untro**
Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn ymrwymo i ddeddfu i ddiddymu eitemau plastig untro sy'n cael eu taflu'n aml. Mae cyllid penodol wedi'i ddynodi i gefnogi datblygu a gweithredu deddfwriaethol. Mae hyn yn cynnwys cyllid ar gyfer casglu tystiolaeth, cyfathrebu a chodi ymwybyddiaeth. Bydd deddfwriaeth yn cynnwys gwahardd neu gyfyngu ar werthu amryw o eitemau plastig untro sy'n cael eu taflu'n aml a thaliadau posibl am eitemau untro diangen o unrhyw ddeunydd.

Bydd ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i gyflwyno diwygiadau estynedig o ran cyfrifoldeb cynhyrchwyr yn canolbwyntio i gychwyn ar fesurau i fynd i'r afael â gwastraff pecynnu a chynllun dychwelyd blaendal ar gyfer cynwysyddion diodydd. Bydd hyn yn cynnwys cyflwyno deddfwriaeth yn ystod 2022 gan ddefnyddio pwerau o Ddeddf Amgylchedd y DU 2021 i weithredu'r mesurau hyn.

**Rhaglen Lywodraethu**

Y gyfarwyddiaeth Seilwaith Economaidd sy'n uniongyrchol gyfrifol am gyflawni 36 o ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu, ac maent yn cyfrannu at amrywiaeth o ymrwymiadau ar draws y Llywodraeth. Yn greiddiol i'n cyflawniadau ym maes trafnidiaeth mae gweithredu Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a'r newid dulliau teithio cysylltiedig a thargedau Sero Net. Aethom ati i ymdrin â'r gyllideb drwy flaenoriaethu camau sy'n sicrhau bod y ddau uchelgais hyn yn cael eu cyflawni i'r graddau mwyaf posibl, gan gyflawni yn erbyn y Rhaglen Lywodraethu ar yr un pryd.

Mae Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd yn uniongyrchol gyfrifol am gyflawni 20 o ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu, ac maent yn cyfrannu at amrywiaeth o ymrwymiadau ar draws y Llywodraeth. Yn greiddiol i amcanion y Gyfarwyddiaeth mae sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â'r Argyfyngau Natur a Hinsawdd ac yn symud tuag at Economi fwy Cylchol. Rwyf wedi ymdrin â'r gyllideb hon mewn ffordd a fydd yn sicrhau fy mod yn dyrannu cyllidebau i flaenoriaethu'r Ymrwymiadau hyn yn y Rhaglen Lywodraethu.

Mae'r Gyfarwyddiaeth Ynni a Chynllunio yn uniongyrchol gyfrifol am gyflawni 4 o ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu, ond mae'n cyfrannu at amrywiaeth o ymrwymiadau ar draws y Llywodraeth, gan gynnwys Tai. Yn greiddiol i amcanion y Gyfarwyddiaeth mae lleihau allyriadau carbon er mwyn cyflawni'r ymrwymiad sero net erbyn 2050. Rwyf wedi ymdrin â'r gyllideb hon i sicrhau fy mod yn dyrannu cyllidebau i flaenoriaethu'r Ymrwymiadau hyn yn y Rhaglen Lywodraethu, a hefyd ein dyletswyddau

statudol ac i sicrhau'r gwerth economaidd a chymdeithasol mwyaf posibl o fuddsoddiad ynni adnewyddadwy yng Nghymru.

**Bioamrywiaeth a mannau gwyrdd**
Bydd y buddsoddiad hwn yn helpu'n uniongyrchol i ymateb i uchelgais y Rhaglen Lywodraethu i fynd i'r afael â'r argyfyngau natur a hinsawdd, gwella mannau gwyrdd o bob maint a sicrhau hefyd ein bod yn cyflawni ein hymrwymiadau rhyngwladol presennol a rhai sy'n datblygu ar gyfer bioamrywiaeth.
Bydd mentrau ariannu dros y tair blynedd nesaf, megis y rhaglen Rhwydweithiau Natur, Lleoedd Lleol ar gyfer Natur, y rhaglen Gweithredu Mawndiroedd Cenedlaethol a Natur am Byth, nid yn unig yn sicrhau bod ein cynefinoedd a'n rhywogaethau mwyaf gwerthfawr yn gallu ffynnu, ond hefyd yn helpu i gyflwyno natur i ble bynnag mae pobl yn byw drwy ymgysylltu â chymunedau lleol.
Bydd yr arian hwn hefyd yn helpu i feithrin gallu o fewn y sector i helpu i weithredu ar lawr gwlad, gan sicrhau budd nid yn unig i'n hamgylchedd ond hefyd i'n hiechyd a'n llesiant.

**Ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur, a gweithio gyda chydweithwyr yn y Cabinet**

Mae newid hinsawdd a'r amgylchedd wrth wraidd y llywodraeth hon, a dyna pam y crëwyd y Weinyddiaeth Newid Hinsawdd, gan ddwyn ynghyd y meysydd polisi mawr i helpu Cymru i gyrraedd ei tharged cyfreithiol rwymol o gyrraedd Sero Net erbyn 2050.

Mae pennod Trafnidiaeth Sero Net Cymru yn nodi ystod o bolisïau a ddatblygwyd yng nghyd-destun Strategaeth Drafnidiaeth Cymru; fel rhan o'r gwaith hwnnw, cymerwyd camau i amcangyfrif effaith carbon polisïau. Defnyddiwyd y dystiolaeth hon i lywio gwariant mewn trafnidiaeth i gysoni ein gwariant â thargedau Sero Net.

Mae'r Cynllun Cyllid Seilwaith 3 blynedd newydd yn cynnwys buddsoddiad wedi'i dargedu gwerth £1.8 biliwn yn ein hymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur, gan gynnwys y goedwig genedlaethol, bioamrywiaeth, teithio llesol, datgarboneiddio tai, yr economi gylchol, ynni adnewyddadwy a llifogydd.

Bydd y broses o gyflawni Cynllun Sero Net Cymru yn cael ei goruchwylio gennyf fi a Gweinidogion eraill, gan gynnwys yn y Cabinet. Mae llawer o agweddau'n cael eu cipio fel rhan o'n Rhaglen Lywodraethu. Caiff y ddarpariaeth ei holrhain gan Offeryn Adrodd Gwybodaeth Busnes a'i monitro gan is-grŵp y Cabinet.

Gan gefnogi'r trafodaethau hyn, mae Bwrdd y Portffolio Newid Hinsawdd a arweinir gan uwch swyddog yn darparu llywodraethu strategol ar gyfer datblygu a chyflawni polisi hinsawdd, gan gymryd golwg wybodus a chydgysylltiedig. Mae'n cael ei gadeirio gan yr Uwch Swyddog Cyfrifol, Andrew Slade. Mae'r Bwrdd yn cynnwys pob rhan o Lywodraeth Cymru a all gyfrannu at fynd i'r afael â newid hinsawdd, neu sy'n cael ei effeithio ganddo, ac sy'n cynnig cyfle i greu synergeddau. Mae hyn, wrth gwrs, yn

galluogi cyfleoedd i sicrhau bod cyllidebau'n cyd-fynd i sbarduno'r newid sydd ei angen arnom, pan fydd ei angen arnom.

**Datgarboneiddio**

Ni fydd y rhan fwyaf o'r costau o ran cyflawni ein targedau hinsawdd dros gyfnod yr ail gyllideb garbon (2021-25) yn dod yn uniongyrchol i'r Llywodraeth. Fodd bynnag, rydym yn derbyn yn llawn fod angen i ni ganolbwyntio ein hadnoddau ariannol i ysgogi buddsoddiad gan eraill.

Disgwylir i bron i 40% o gyfanswm y buddsoddiad cyfalaf ychwanegol dros y cyfnod hwn fod yn y sector trafnidiaeth wyneb. Bydd y buddsoddiad hwn yn cael ei ddarparu'n bennaf gan ddefnyddwyr, y sector preifat a Llywodraeth y DU. Mae elfen Drafnidiaeth y ddogfen hon yn adran x isod yn rhoi rhagor o fanylion am fuddsoddiad Llywodraeth Cymru.

Disgwylir i ychydig o dan 30% o gyfanswm y buddsoddiad ychwanegol fod mewn adeiladau, gyda'r rhan fwyaf o'r buddsoddiad hwn yn mynd tuag at wella effeithlonrwydd ynni drwy ôl-osod a gosod gwres carbon isel mewn cartrefi preswyl ac adeiladau dibreswyl sy'n bodoli eisoes. Mae gennym ymrwymiad hirsefydlog i wella cartrefi yng Nghymru drwy ein Safonau Ansawdd Tai Cymru a'n Rhaglenni Cartrefi Clyd, Tai Arloesol ac Ôl-osod er mwyn Optimeiddio. Mae'r dull hwn yn parhau ac yn cael ei gryfhau. Bydd y Rhaglen Cartrefi Clyd yn derbyn cyfalaf o £100 miliwn dros 3 blynedd. Byddwn yn ymgynghori cyn bo hir i dargedu'r buddsoddiad hwn yn well.

Rydym yn buddsoddi £108 miliwn y flwyddyn drwy Safon Ansawdd Tai Cymru i gefnogi landlordiaid cymdeithasol i ddarparu cartrefi cymdeithasol cynnes o safon uchel i rai o aelwydydd mwyaf agored i niwed Cymru. Bydd SATC2 yn cynnwys ffocws ar ddatgarboneiddio tai cymdeithasol tra bydd rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio Llywodraeth Cymru yn parhau i hwyluso profi a dysgu i lywio ôl-osod pob cartref yn ehangach yn yr hirdymor, ar draws pob deiliadaeth yng Nghymru. Bydd buddsoddiad SATC 2 parhaus o 2022, ynghyd â chyllid y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio, yn parhau i hybu ffyniant lleol drwy dwf BBaChau a thrwy ddatblygu'r gadwyn gyflenwi.

Mae'r 1.4 miliwn o gartrefi yng Nghymru yn gyfrifol am 27% o'r holl ynni a ddefnyddir yng Nghymru a 15% o'n holl allyriadau nwyon tŷ gwydr ar ochr y galw. Mae ôl-osod y cartrefi hyn yn fesur ataliol sylfaenol gan ei fod yn ceisio gwella effeithlonrwydd ynni cartrefi i leihau eu hallyriadau carbon er mwyn helpu Gweinidogion Cymru i gyrraedd targedau carbon sy'n gyfreithiol rwymol, yn ogystal ag ymrwymiad PFG i ddatgarboneiddio cartrefi preswyl drwy ôl-osod. Tua £15 biliwn yw cyfanswm cost datgarboneiddio'r stoc dai yn seiliedig ar amcangyfrifon WSA, ac mae mwy na £10 biliwn ohono ar gyfer y stoc tai cymdeithasol ac ar gyfer cartrefi mewn tlodi tanwydd.

Bydd cyllid cyfalaf o £72 miliwn yn 2022-23 yn codi i £92 miliwn yn 2023-24 a 2024-25 drwy Linell Wariant yn y Gyllideb (BEL) Datgarboneiddio Preswyl a bydd yn cael ei ddefnyddio'n bennaf i gefnogi'r sector tai cymdeithasol, drwy'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio, a fydd yn hwyluso profi a dysgu i lywio ôl-osod pob cartref yn ehangach yn yr hirdymor, ar draws pob deiliadaeth yng Nghymru, gan gynnwys datblygu arolwg sy'n mapio, fesul cartref, y ffordd orau i ôl-osod, ac yna ymgymryd â'r mesurau sydd eu hangen i alluogi datgarboneiddio cartrefi ledled Cymru. Ein huchelgais yw sicrhau bod pob landlord tai cymdeithasol yn cymryd rhan yn y cynllun hwn dros y

tair blynedd nesaf fel y gallant integreiddio'r agenda datgarboneiddio yn eu rhaglenni cynnal a chadw arfaethedig.

Yn olaf, disgwylir i tua 20% o gyfanswm y buddsoddiad ychwanegol fod yn y cyflenwad trydan, gan osod dulliau cynhyrchu carbon isel, yn bennaf mewn ynni adnewyddadwy amrywiol fel systemau gwynt a solar ffotofoltäig. Rydym yn parhau i fuddsoddi drwy Wasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru i ysgogi prosiectau ynni adnewyddadwy cymunedol ac sy'n eiddo i'r cyhoedd. Byddwn yn buddsoddi £65 miliwn arall o gyfalaf drwy Wasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru. Ar hyn o bryd, rydym yn adolygu'r gwasanaeth i sicrhau ein bod yn targedu'r cyllid yn y meysydd lle mae'r angen mwyaf.

Mae'r pontio i Economi Gylchol yn ganolog i Gynllun Sero Net Cymru, gyda chamau gweithredu ar gyfer Cymru sy'n fwy effeithlon o ran adnoddau ar draws pob rhan o'r Cynllun o ddatgarboneiddio'r fflyd cerbydau sbwriel i gefnogi busnesau i gael cyngor ar fod yn fwy effeithlon o ran adnoddau. Mae hyn yn cydnabod y cysylltiad hollbwysig rhwng defnydd anghynaliadwy a'r argyfyngau hinsawdd a natur.

Rydym wedi bod yn gwneud mwy o waith i ddatgarboneiddio'r sector gwastraff. Yn 2020-21, cyflawnodd Cymru ei chyfradd ailgylchu uchaf erioed - 65.4% - gan osgoi dros 400,000 o dunelli o allyriadau CO2 yn y flwyddyn honno. Rydym hefyd wedi bod yn gweithio gyda'n partneriaid cyflenwi yn Wrap Cymru i ddatblygu'r sylfaen dystiolaeth sy'n tynnu sylw at y cyfleoedd amgylcheddol ac economaidd sy'n deillio o wlad sy'n fwy effeithlon o ran adnoddau.

Bydd y gyllideb yn cefnogi'r gwaith parhaus o gyflawni'r Strategaeth Mwy nag Ailgylchu a fydd yn gweithio i adeiladu ar ein llwyddiant sylfaenol heb ei ail o ran ailgylchu i bontio i economi fwy cylchol sy'n sicrhau bod adnoddau'n parhau i gael eu defnyddio.

**Targedau lleihau allyriadau dros dro uwch ar gyfer 2030 a 2040, a tharged sero net ar gyfer 2050 a dyraniadau cyllideb.**

Mae Cynllun Sero Net Cymru yn canolbwyntio ar 2021-25, ond mae'n edrych ymlaen at sut y byddwn yn cyflawni targedau tymor hwy, ac mae ein buddsoddiad yn adlewyrchu hynny. Rydym yn targedu buddsoddiad mewn meysydd lle mae technoleg a chadwyni cyflenwi yn bodoli heddiw, megis drwy ein buddsoddiadau trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol neu lle mae angen tystiolaeth i lywio buddsoddiad yn y dyfodol, er enghraifft, drwy ein buddsoddiad mewn Cynllunio Ynni Ardal Leol a'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio.

**Gwaith a wnaed i amcangyfrif effaith carbon penderfyniadau gwario a sut mae hyn wedi dylanwadu ar y dull dyrannu**

Drwy'r broses o bennu'r gyllideb, buom yn ceisio deall ymhellach yr allyriadau uniongyrchol oes gyfan o adeiladu, gweithredu a datgomisiynu ein maes buddsoddi cyfalaf, yn ogystal â newidiadau anuniongyrchol a ragwelir mewn allyriadau carbon yn sgil newidiadau mewn ymddygiad ac effeithiau cadwyni cyflenwi o'r buddsoddiad. Mae'r asesiadau hyn yn anodd ac mae ein gallu yn gwella. Fodd bynnag, nid oes un fethodoleg ar gyfer asesu wedi'i sefydlu. Felly, buom yn asesu cyllidebau yn erbyn ystod

o fethodolegau, er mwyn sicrhau ein bod yn gallu defnyddio’r data gorau sydd ar gael, yn hytrach na dilyn un fethodoleg yn slafaidd:

1. Gwnaethom annog dadansoddiad penodol o’r gostyngiadau carbon sy’n gysylltiedig â’r maes buddsoddi arfaethedig, gan ddefnyddio’r dystiolaeth sydd ar gael o Gymru, gweddill y DU a thu hwnt.
2. Lle’r oedd hynny’n bosibl, gwnaethom gymryd data o brosiectau tebyg lle’r oedd data perthnasol yn bodoli a’i addasu’n gymesur i roi gwerth dangosol ar gyfer y maes buddsoddi yn ei gyfanrwydd
3. Fel arall, lle’r oedd prinder gwybodaeth prosiect-benodol neu os nad oedd modd gwarantu ei dibynadwyedd, defnyddiwyd tystiolaeth a gasglwyd gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd (CCC) ar gostau lleihau ymylol yn ôl y math o ymyriad er mwyn helpu i ddarparu amcangyfrifon dangosol o gost-effeithiolrwydd a rhoi rhywfaint o sicrwydd ar drefn maint yr arbedion a’r costau carbon.

**Gwaith i alinio’r cyllidebau cyllidol a charbon**

- Mae ein buddsoddiadau’n parhau i gael eu harwain gan ble mae tystiolaeth yn amlinellu’r meysydd lle gall buddsoddiad Llywodraeth Cymru gael yr effaith fwyaf.

- Cydnabod mai’r Cynllun Cyflawni Sero Net 2021-25 sy’n cynnwys yr asesiad o effeithiau carbon a’r camau gweithredu rydym yn eu cymryd gan ddefnyddio’r holl ysgogiadau sydd ar gael i ni, ac mai rôl y gyllideb wedyn yw ystyried ariannu’r camau hynny lle mae tystiolaeth yn cefnogi’r angen i fuddsoddi.

- Rhaid i ni gofio hefyd nad yw rhai o’r ysgogiadau mwyaf a fydd yn sbarduno datgarboneiddio – ar gyfer newid rheoleiddiol ar gyfer cerbydau ffordd – wedi’u datganoli i Gymru, ac mai Llywodraeth y DU sy’n parhau i fod yn gyfrifol amdanynt.

- Rydym wedi adeiladu ar y gwaith a gomisiynwyd ac a gyhoeddwyd gennym fel rhan o Adroddiad y Prif Economegydd ym mhecyn Cyllideb Ddrafft 2021-22. Drwy ddull seiliedig ar sero cyllidebau cyfalaf cyffredinol i sefydlu Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru 10 mlynedd newydd, gwnaethom ganolbwyntio ar ddeall yn well effeithiau ein buddsoddiadau ar Sero Net.

- Mae amrywiaeth o asesiadau a gynhelir ym mhob maes asesu cyfalaf wedi’u cyhoeddi yn ein Cynllun Cyllid Seilwaith newydd. Mae hyn yn cyd-fynd â’r Cynllun Cyflawni Sero Net sy’n cynnwys dadansoddiad pellach o effaith polisïau a chamau gweithredu Llywodraeth Cymru a’n partneriaid ar allyriadau nwyon tŷ gwydr.

## 2.0 Strwythur y Gyllideb

### 2.1 Crynodeb o Ddyraniadau a Newidiadau i'r Gyllideb

Mae Cyllideb Ddrafft 2022-23 yn darparu cynllun gwariant tair blynedd ar gyfer adnoddau a chyfalaf. Mae'r tablau isod yn rhoi trosolwg o'r newidiadau mewn cyllid adnoddau arfaethedig o gymharu â gwaelodlin y flwyddyn flaenorol, a manylion dyraniadau cyllidebau cyfalaf yn dilyn dull seiliedig ar sero o ddyrannu cyfalaf yn unol â'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru. Mae'r cyllidebau adnoddau yn cael eu cymharu â chyllidebau 2021-22 yn ôl y gofyn, gyda'r dyraniadau penodol sy'n gysylltiedig â Covid wedi'u dileu. Dangosir dyraniadau ar gyfer y blynyddoedd ariannol 2023-24 a 2024-25 hefyd.

Y gyllideb Adnoddau Cyllidol ar gyfer 2022-23 yw £703.021 miliwn (heb gynnwys Gwariant Anghyllidol a Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)). Mae hyn yn gynnydd o £174 miliwn. Mae'r gyllideb Adnoddau Anghyllidol yn parhau ar lefel y gwaelodlin diwygiedig o £239.121 miliwn. Mae'r gyllideb AME wedi cynyddu £1.6 miliwn i £96.6 miliwn, gan gwmpasu taliadau sydd y tu allan i reolaeth y portffolio, megis amhariadau ffyrdd ac ar y rhwydweithiau rheilffyrdd.

Ceir trosolwg yn nhabl 1 fel a ganlyn:

| TABL 1: Trosolwg o'r Gyllideb Adnoddau | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Cyllideb Derfynol 2021-22 £'000** | **Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2022-23 £'000** | **Newid £'000** | **% Newid** | **Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2023-24 £'000** | **Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2024-25 £'000** |
| **Adnoddau Cyllidol (Refeniw)** | | | | | | |
| Seilwaith Economaidd | 339,011 | 476,011 | 137,000 | 40% | 439,011 | 439,011 |
| Yr Amgylchedd, Ynni a Chynllunio | 185,110 | 222,110 | 37,000 | 20% | 240,610 | 256,110 |
| Cyflawni'r Strategaeth Ddigidol | 4,900 | 4,900 | 0 | 0% | 4,900 | 4,900 |
| **Is-gyfanswm** | **529,021** | **703,021** | **174,000** | **33%** | **684,521** | **700,021** |
| **Adnoddau Anghyllidol (heb fod yn arian parod)** | | | | | | |
| Seilwaith Economaidd | 191,000 | 229,000 | 38,000 | 20% | 229,000 | 229,000 |
| Yr Amgylchedd, Ynni a Chynllunio | 10,121 | 10,121 | 0 | 0% | 10,121 | 10,121 |
| Cyflawni'r Strategaeth Ddigidol | - | - | 0 | | - | - |
| **Is-gyfanswm** | **201,121** | **239,121** | **38,000** | **19%** | **239,121** | **239,121** |
| **CYFANSWM** | **730,142** | **942,142** | **212,000** | **29%** | **923,642** | **939,142** |
| **AME** | | | | | | |
| CYFANSWM AME | **94,990** | **96,637** | **1,647** | **2%** | **121,636** | **2,000** |

Yn y Gyllideb ddrafft, mae rhai buddsoddiadau wedi'u targedu yn unol ag ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu a blaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru. Disgrifir y rhain yn y tablau Camau Gweithredu perthnasol.

Cyfanswm y gyllideb gyfalaf ar gyfer 2022-23 yw £878.5 miliwn, fel y crynhoir yn Nhabl 2 isod. Dangosir y dyraniadau ar gyfer 2023-24 a 2024-25 hefyd:

| TABL 2: Trosolwg o'r Gyllideb Gyfalaf | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Cyllideb Derfynol 2021-22 £'000** | **Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2022-23 £'000** | **Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2023-24 £'000** | **Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2024-25 £'000** |
| **Cyfalaf Traddodiadol** | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Seilwaith Economaidd | 737,827 | 683,000 | 557,500 | 494,000 |
| Yr Amgylchedd, Ynni a Chynllunio | 183,286 | 195,500 | 239,550 | 237,500 |
| **CYFANSWM** | **921,113** | **878,500** | **797,050** | **731,500** |

Mae'r gyllideb ddrafft yn cynnwys dyraniadau ar gyfer cyfalaf traddodiadol yn unig, ac nid cyfalaf Trafodion Ariannol sydd i fod i gael ei ddyrannu ar gyfer y Gyllideb Derfynol.

## Adnodd

Nodir y symudiadau cronnol yn y gwaelodlin ar gyfer y cyllidebau Adnoddau Cyllidol yn Nhabl 3 isod:

| **TABL 3: Cyllideb Adnoddau - Dyraniadau Gwaelodlin Ychwanegol (Cronnol)** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **2022-23 £'000** | **2023-24 £'000** | **2024-25 £'000** | **Cyfanswm £'000** |
| ***Yr Amgylchedd ac Ynni*** | | | | |
| | | | | |
| Llifogydd | 8,000 | 8,000 | 8,000 | **24,000** |
| Y Goedwig Genedlaethol a Phren Cymru | 4,000 | 4,000 | 4,000 | **12,000** |
| Parc Cenedlaethol | 1,000 | | | **1,000** |
| Tomenni Glo | 3,000 | 1,000 | 500 | **4,500** |
| Datblygu Ynni Adnewyddadwy | 5,000 | 2,000 | 1,000 | **8,000** |
| Ansawdd Aer a Dŵr | 2,000 | 1,500 | 1,000 | **4,500** |
| Newid Ymddygiadol | 1,500 | 1,000 | 1,000 | **3,500** |
| Bioamrywiaeth a mannau gwyrdd | 7,000 | 1,000 | | **8,000** |
| Deddfu i ddiddymu plastigau untro | 500 | | | **500** |
| Ailgylchu ac ailddefnyddio gwastraff | 5,000 | | | **5,000** |
| ***Is-gyfanswm*** | **37,000** | **18,500** | **15,500** | **71,000** |
| ***Seilwaith Economaidd*** | | | | |
| Trafnidiaeth Gyhoeddus a Thocynnau teithio rhatach | 137,000 | (37,000) | | **100,000** |
| ***Is-gyfanswm*** | **137,000** | **(37,000)** | **0** | **100,000** |
| **Cyfanswm Adnoddau Cyllidol** | **174,000** | **(18,500)** | **15,500** | **171,000** |

## Cyfalaf

Dyrannwyd cyllidebau cyfalaf am gyfnod o dair blynedd yn erbyn Meysydd Buddsoddi fel y nodir yn Nhabl 4 isod:

| TABL 4: Dyraniadau'r Gyllideb Gyfalaf | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 2022-23 £'000 | 2023-24 £'000 | 2024-25 £'000 | Cyfanswm £'000 |
| **Cyfarwyddiaeth** | **Sector** | **Maes Buddsoddi** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Seilwaith Economaidd | Trafnidiaeth Gyhoeddus | Rheilffyrdd | 400,000 | 150,000 | 35,000 | 585,000 |
| Seilwaith Economaidd | Teithio Llesol a Chynaliadwy | Teithio Llesol | 60,000 | 80,000 | 80,000 | 220,000 |
| Seilwaith Economaidd | Teithio Llesol a Chynaliadwy | Seilwaith EV | 7,788 | 11,672 | 23,217 | 42,677 |
| Seilwaith Economaidd | Ffyrdd | Ffyrdd | 125,000 | 190,000 | 185,000 | 500,000 |
| Seilwaith Economaidd | Ffyrdd | Grantiau diogelwch ar y ffyrdd | 16,500 | 4,000 | 4,000 | 24,500 |
| Seilwaith Economaidd | Trafnidiaeth Gyhoeddus | Bysiau | 25,000 | 80,000 | 80,000 | 185,000 |
| Seilwaith Economaidd | Datblygu Cynaliadwy | Datblygu Gwybodaeth Strategol | 12,212 | 18,328 | 6,783 | 37,323 |
| Seilwaith Economaidd | Datblygu Cynaliadwy | Digidol/ Telathrebu | 15,000 | -26,500 | 20,000 | 8,500 |
| Seilwaith Economaidd | Teithio Llesol a Chynaliadwy | Y Gronfa Trafnidiaeth Leol | 17,500 | 40,000 | 50,000 | 107,500 |
| Seilwaith Economaidd | Datblygu Cynaliadwy | Ynni'r Môr | 4,000 | 10,000 | 10,000 | 24,000 |
| **Seilwaith Economaidd** | | **Cyfanswm** | **683,000** | **557,500** | **494,000** | **1,734,500** |
| Ynni | Datgarboneiddio | Tlodi Tanwydd | 30,000 | 35,000 | 35,000 | 100,000 |
| Ynni | Datgarboneiddio | Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru | 15,000 | 25,000 | 25,000 | 65,000 |
| Yr Amgylchedd | Economi Gylchol | Economi Gylchol | 40,000 | 60,000 | 60,000 | 160,000 |
| Yr Amgylchedd | Llifogydd | Rheoli Perygl Llifogydd ac Arfordiroedd | 34,000 | 34,000 | 34,000 | 102,000 |
| Yr Amgylchedd | Llifogydd | Diogelwch Tomenni Glo | 23,100 | 11,000 | 10,300 | 44,400 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Yr Amgylchedd | Llifogydd | Ansawdd Dŵr | 10,000 | 15,000 | 15,000 | 40,000 |
| Yr Amgylchedd | Natur a'r Amgylchedd | Y Goedwig Genedlaethol | 9,000 | 23,000 | 25,000 | 57,000 |
| Yr Amgylchedd | Natur a'r Amgylchedd | Tirweddau a Hamdden awyr Agored | 5,000 | 5,000 | 5,000 | 15,000 |
| Yr Amgylchedd | Natur a'r Amgylchedd | Grantiau Amgylcheddol | 2,000 | 2,000 | 500 | 4,500 |
| Yr Amgylchedd | Natur a'r Amgylchedd | Ansawdd Aer | 5,000 | 2,150 | 300 | 7,450 |
| Yr Amgylchedd | Natur a'r Amgylchedd | Bioamrywiaeth | 20,000 | 25,000 | 25,000 | 70,000 |
| | | CNC | 2,400 | 2,400 | 2,400 | 7,200 |
| **Cyfanswm yr Amgylchedd ac Ynni** | | | **195,500** | **239,550** | **237,500** | **672,550** |
| **Cyfanswm** | | | **878,500** | **797,050** | **731,500** | **2,407,050** |

Caiff y Llinellau Gwariant yn y Gyllideb sy'n rhoi dadansoddiad llawn o gyllidebau refeniw a chyfalaf y portffolio eu hamlinellu yn y Camau Gweithredu yn adrannau 3, 4 a 5.

## 3.0 Y SEILWAITH ECONOMAIDD – ARIANNU CAMAU GWEITHREDU

Er mwyn cefnogi'r uchelgeisiau ar gyfer seilwaith cynaliadwy, modern a chysylltiedig, cyfanswm cyllid Y Seilwaith Economaidd yw £1.39 biliwn yn 2022-23 (yn cynnwys adnodd anghyllidol).

O gymharu â chyllideb derfynol 2021-22, mae'r dyraniad Adnoddau Cyllidol wedi cynyddu o £137 miliwn i £476 miliwn, sy'n cynrychioli'r dyraniad ychwanegol hwnnw o £100 miliwn i drafnidiaeth gyhoeddus a £37 miliwn pellach i gynnal yr amlen gyllidebol ar gyfer tocynnau teithio rhatach. Mae hyn yn cynnwys dyraniad ychwanegol penodol i drafnidiaeth gyhoeddus i gefnogi'r gostyngiad yn yr incwm o werthiant tocynnau teiththwyr o dan sefyllfa barhaus pandemig Covid. Bydd hyn yn rhoi rhywfaint o sicrwydd i'r sector tra bod cyfyngiadau'n debygol o barhau ac yn helpu i roi hyder i'r sector.

Cyfanswm y dyraniadau cyfalaf seiliedig ar sero ar gyfer 2022-23, 2023-24 a 2024-25 yw £683 miliwn, £557 miliwn a £494 miliwn yn y drefn honno. Mae'r dyraniadau cyfalaf yn cefnogi parhau i gyflawni'r Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol presennol, yn ogystal â braenaru'r tir ar gyfer y ddogfen gyflawni olynol a fydd yn cael ei gosod yng nghyd-destun Strategaeth Drafnidiaeth newydd Cymru. Fodd bynnag, mae'n dal i fod yn angenrheidiol blaenoriaethu gweithgarwch a rheoli cyllidebau, er mwyn sicrhau bod y gwaith o gyflawni cynlluniau o fewn y Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol yn fforddiadwy ac yn ymarferol.

Mae'r gyllideb Adnoddau Anghyllidol wedi cynyddu £38 miliwn i £229 miliwn, o gymharu â Chyllideb Derfynol 2021-22, i gydnabod dyraniad ychwanegol ar gyfer dibrisiant ar seilwaith rheilffyrdd Llinellau Craidd y Cymoedd.

| Seilwaith Economaidd | Cyllideb Derfynol 2021-22 £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2022-23 £'000 | Newid £'000 | % Newid | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2023-24 £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2024-25 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Adnodd Cyllidol | 339,011 | 476,011 | 137,000 | 40% | 439,011 | 439,011 |
| Adnodd Anghyllidol | 191,000 | 229,000 | 38,000 | 20% | 229,000 | 229,000 |
| **Cyfanswm yr Adnodd** | **530,011** | **705,011** | **175,000** | **33%** | **668,011** | **668,011** |

| Seilwaith Economaidd | Cyllideb Derfynol 2021-22 £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2022-23 £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2023-24 £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2024-25 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Cyfalaf Traddodiadol | 737,827 | 683,000 | 557,500 | 494,000 |
| **CYFANSWM** | **737,827** | **683,000** | **557,500** | **494,000** |

Esbonnir y dadansoddiad manwl o'r Camau Gweithredu yn ôl gweithgarwch Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL) yn yr adrannau canlynol.

## Gweithrediadau Traffyrdd a Chefnffyrdd

| Llinell Wariant yn y Gyllideb | Cyllideb Derfynol 2021-22 £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2022-23 £'000 | Newid £'000 | % Newid | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2023-24 £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2024-25 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Rheoli Asedau'r Rhwydwaith | 5,686 | 4,481 | (1,205) | -21% | 4,481 | 4,481 |
| Gweithrediadau'r Rhwydwaith | 65,298 | 66,023 | 725 | 1% | 66,023 | 66,023 |
| **Is-gyfanswm** | **70,984** | **70,504** | **(480)** | **-1%** | **70,504** | **70,504** |
| **Adnodd Anghyllidol** | | | | | | |
| Gweithrediadau'r Rhwydwaith Heb Fod yn Arian Parod | 188,691 | 188,691 | 0 | 0 | 188,691 | 188,691 |
| **Cyfanswm yr Adnodd** | **259,675** | **259,195** | **(480)** | **0%** | **259,195** | **259,195** |

| Llinell Wariant yn y Gyllideb | Cyllideb Derfynol 2021-22 £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2022-23 £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2023-24 £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2024-25 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| ***Cyfalaf Traddodiadol*** | | | | |
| Gweithrediadau'r Rhwydwaith | 106,497 | 125,000 | 190,000 | 185,000 |
| **CYFANSWM** | **106,497** | **125,000** | **190,000** | **185,000** |

Mae gan Weinidogion Cymru ddyletswydd statudol i ddarparu Rhwydwaith Traffyrdd a Chefnffyrdd diogel a dibynadwy yn erbyn ased gwerth £17 biliwn. Dyrannwyd dyraniad cyfalaf o £125 miliwn i dalu am waith cynnal a chadw cyfalaf ac i wasanaethu prosiectau mawr sydd wrthi'n cael eu hadeiladu. Bydd angen monitro cyllidebau cynnal a chadw yn barhaus er mwyn sicrhau ein bod yn ymateb i waith adweithiol ac yn blaenoriaethu buddsoddiad cyfalaf lle mae ei angen fwyaf

Mae trosglwyddiad wedi'i wneud i'r llinell teithio cynaliadwy a llesol sy'n adlewyrchu aliniad gweithgarwch a ariannwyd yn flaenorol o dan y Llinell Wariant yn y Gyllideb rheoli'r rhwydwaith lle ceir gwrthbwyso.

**Camau Gweithredu Gwasanaethau Ffyrdd, Rheilffyrdd, Awyr a Môr a Buddsoddi**

| **Llinell Wariant yn y Gyllideb** | **Cyllideb Derfynol 2021-22 £'000** | **Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2022-23 £'000** | **Newid £'000** | **% Newid** | **Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2023-24 £'000** | **Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2024-25 £'000** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Hedfan | 2,763 | 5,732 | 2,969 | 107% | 4,402 | 2,422 |
| Seilwaith Trafnidiaeth Cenedlaethol | 650 | 0 | (650) | -100% | 0 | 0 |
| Rheilffyrdd: Ategol | 850 | 850 | 0 | 0% | 850 | 850 |
| Trafnidiaeth Cymru | 185,400 | 254,531 | 69,131 | 37% | 218,861 | 220,841 |
| **Is-gyfanswm** | **189,663** | **261,113** | **71,450** | **38%** | **224,113** | **224,113** |
| **Adnodd Anghyllidol** | | | | | | |
| Trafnidiaeth Cymru (heb fod yn arian parod) | 0 | 38,000 | 38,000 | #DIV/0! | 38,000 | 38,000 |
| **Cyfanswm yr Adnodd** | **189,663** | **299,113** | **109,450** | **58%** | **262,113** | **262,113** |

| **Llinell Wariant yn y Gyllideb** | **Cyllideb Derfynol 2021-22 £'000** | **Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2022-23 £'000** | **Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2023-24 £'000** | **Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2024-25 £'000** |
|---|---|---|---|---|
| ***Cyfalaf Traddodiadol*** | | | | |
| Hedfanaeth | 2,000 | 7,212 | 13,328 | 1,783 |
| Seilwaith Trafnidiaeth Cenedlaethol | 128,100 | 0 | 0 | 0 |
| Trafnidiaeth Cymru | 274,680 | 400,000 | 150,000 | 35,000 |
| Ynni'r Môr | 0 | 4,000 | 10,000 | 10,000 |
| **CYFANSWM** | **404,780** | **411,212** | **173,328** | **46,783** |

Mae'r gyllideb refeniw Hedfanaeth o £5.732 miliwn yn cynnwys gweithgareddau dros dro fel y Gwasanaeth Awyr oddi mewn i Gymru a'r pecyn achub ac adfer ar gyfer Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd.

Mae cyfanswm cyllideb Trafnidiaeth Cymru o £654.531 miliwn yn darparu gwasanaethau rheilffyrdd a rhaglenni buddsoddiad cyfalaf rheilffyrdd.

Mae'r Seilwaith Trafnidiaeth Cenedlaethol wedi'i leihau i sero gan fod yr holl wariant cyfalaf sy'n gysylltiedig â ffyrdd bellach yn cael ei ddangos o dan Gweithrediadau'r Rhwydwaith, sydd wedi'i leihau.

**Camau Gweithredu Seilwaith Strategol**

| Llinell Wariant yn y Gyllideb | 2021-22 Cyllideb Derfynol £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2022-23 £'000 | Newid £'000 | % Newid | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2023-24 £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2024-25 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus | 11,500 | 11,500 | 0 | 0% | 11,500 | 11,500 |
| Datblygu Seilwaith Strategol | 990 | 950 | (40) | -4% | 950 | 950 |
| Gweithrediadau'r Seilwaith TGCh | 1,527 | 1,527 | 0 | 0% | 1,527 | 1,527 |
| **Is-gyfanswm** | **14,017** | **13,977** | **(40)** | **0%** | **13,977** | **13,977** |
| **Adnodd Anghyllidol** | | | | | | |
| Gweithrediadau'r Seilwaith TGCh - Heb fod yn Arian Parod | 2,309 | 2,309 | 0 | 0% | 2,309 | 2,309 |
| **Cyfanswm yr Adnodd** | **16,326** | **16,286** | **(40)** | **0%** | **16,286** | **16,286** |

| Llinell Wariant yn y Gyllideb | Cyllideb Derfynol 2021-22 £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2022-23 £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2023-24 £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2024-25 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| ***Cyfalaf Traddodiadol*** | | | | |
| Datblygu Seilwaith Strategol | 0 | 5,000 | 5,000 | 5,000 |
| Gweithrediadau'r Seilwaith TGCh | 26,000 | 15,000 | (26,500) | 20,000 |
| **CYFANSWM** | **26,000** | **20,000** | **(21,500)** | **25,000** |

Mae'r Rhaglen Lywodraethu bresennol yn cydnabod pwysigrwydd seilwaith digidol a chyflawni Strategaeth Ddigidol Llywodraeth Cymru, gan nodi:

*'Rhaid wrth seilwaith sylfaenol i gyflawni'r strategaeth hon. Y seilwaith hwn yw'r sylfaen ar gyfer datblygu cysylltedd digidol o ansawdd da i gefnogi popeth a wnawn yn ddigidol.'*

Mae'r gyllideb Seilwaith TGCh yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r strategaeth hon drwy ddarparu cyllid i gysylltu safleoedd a gosod ac uwchraddio rhwydweithiau ôl-drosglwyddo data sydd eu hangen i sicrhau cysylltiadau cynaliadwy a chydnerth sy'n addas i'r dyfodol.

Dyma'r prif feysydd ariannu sy'n cefnogi hyn:

- **Band Eang Mynediad y Genhedlaeth Nesaf Cymru** – prosiect i gysylltu 39,000 o adeiladau er mwyn caniatáu ateb cysylltiad ffeibr i'r adeilad sydd wedi'i ddiogelu i'r dyfodol sy'n galluogi cyflawni cyflymder band eang gigabit
- **Cronfa Band Eang Lleol** – cynllun grant wedi'i anelu at awdurdodau lleol a mentrau cymdeithasol i helpu cymunedau lleol i gael mynediad at fand eang cyflym.
- **Allwedd Band Eang Cymru** – cynllun grant 'dewis olaf' sy'n helpu eiddo sy'n dechnoleg-agnostig i gysylltu
- **Prosiect Rhwydwaith Ffeibr Llawn Lleol ar Gefnffyrdd** - cynllun uwchraddio ac ymestyn i rwydwaith meingefn cyfathrebiadau ffeibr optig ar gefnffyrdd yn y De.

Mae cyllideb Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus o £11.5 miliwn yn darparu cyllid ar gyfer rhwydwaith darparu platfform digidol cydwasanaethau sy'n darparu cysylltedd a gwasanaethau digidol i'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r rhwydwaith yn gwasanaethu dros 120 o sefydliadau sector cyhoeddus sydd â thua 5,000 o gysylltiadau.

Mae cyllid seilwaith datblygu strategol o £0.950 miliwn yn galluogi mecanweithiau arloesol, masnachol eu pwyslais sy'n hwyluso mynediad at gyllid gan y sector preifat a phartneriaid eraill i sicrhau buddsoddiad â blaenoriaeth ar draws y portffolio ar gyfer seilwaith economaidd a thrafnidiaeth. Mae prosiectau'n cynnwys hyrwyddo Hwb Teithio Integredig yng Nghaerdydd, uwchraddio Gorsaf Wrecsam Cyffredinol a dyfodol y gwasanaethau bws a ddarperir ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd.

**Camau Gweithredu Teithio Cynaliadwy**

| Llinell Wariant yn y Gyllideb | Cyllideb Derfynol 2021-22 £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2022-23 £'000 | Newid £'000 | % Newid | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2023-24 £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2024-25 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymorth Bysiau | 32,005 | 61,005 | 29,000 | 91% | 61,005 | 61,005 |
| Cardiau Clyfar | 1,466 | 0 | (1,466) | -100% | 0 | 0 |
| Blaenoriaethau Trafnidiaeth Lleol | 0 | 0 | 0 | #DIV/0! | 0 | 0 |
| Tocynnau Teithio Rhatach | 23,482 | 60,482 | 37,000 | 158% | 60,482 | 60,482 |
| Y Cynllun Teithio Rhatach i Bobl Ifanc | 2,000 | 2,000 | 0 | 0% | 2,000 | 2,000 |
| Teithio Cynaliadwy a Llesol | 630 | 1,930 | 1,300 | 206% | 1,930 | 1,930 |
| **Cyfanswm yr Adnodd** | **59,583** | **125,417** | **65,834** | **110%** | **125,417** | **125,417** |

| Llinell Wariant yn y Gyllideb | Cyllideb Derfynol 2021-22 £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2022-23 £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2023-24 £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2024-25 £'000 |
|---|---|---|---|---|

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| ***Cyfalaf Traddodiadol*** | | | | |
| Cymorth Bysiau | 0 | 25,000 | 80,000 | 80,000 |
| Cardiau Clyfar | 1,000 | 0 | 0 | 0 |
| Blaenoriaethau Trafnidiaeth Lleol | 51,000 | 17,500 | 40,000 | 50,000 |
| Tocynnau Teithio Rhatach | 37,000 | 0 | 0 | 0 |
| Teithio Cynaliadwy a Llesol | 104,650 | 67,788 | 91,672 | 103,217 |
| **CYFANSWM** | **193,650** | **110,288** | **211,672** | **233,217** |

Mae gan fysiau gyfraniad pwysig gan gysylltu pobl a chymunedau ledled Cymru ac maent yn darparu mynediad at wasanaethau allweddol. Rydym wedi cynyddu’r cymorth bysiau i adlewyrchu heriau parhaus y pandemig COVID-19. Yn ogystal, gwnaed dyraniadau i’r llinell teithio cynaliadwy a llesol sy’n adlewyrchu aliniad gweithgarwch a ariannwyd yn flaenorol o dan y Llinell Wariant yn y Gyllideb rheoli rhwydwaith lle ceir gwrthbwyso. Mae’r dyraniad i gardiau clyfar bellach wedi’i gynnwys o dan tocynnau integredig fel rhan o’n cefnogaeth ehangach i’r diwydiant bysiau. Nid yw’r amlen tocynnau teithio rhatach ar gyfer cyllid wedi newid; nod y cynnydd mewn refeniw a ddangosir yma yw gwrthbwyso gostyngiad yn y cyllid sydd ar gael drwy gyllidebau cyfalaf ar gyfer cefnogi teithio rhatach. Nid yw hyn yn cyfateb i gynnydd cyffredinol i’r gyllideb Tocynnau Teithio Rhatach ond mae’n sicrhau bod yr amlen gyllidebol gyffredinol (sydd wedi’i hariannu o ffynonellau refeniw a chyfalaf) yn parhau i fod yn gyson â blynyddoedd blaenorol.

Yn 2021/22, roedd cyllid teithio llesol yn £76.65 miliwn. Mae gostyngiad mewn cyllid Teithio Llesol yn 22/23 i £60 miliwn. Byddwn yn defnyddio’r gostyngiad tymor byr mewn cyllid i weithio gydag Awdurdodau Lleol a Trafnidiaeth Cymru i ddatblygu cyfres o gynlluniau o ansawdd uchel, effaith uchel i sicrhau’r budd mwyaf posibl o’r cyllid uchaf erioed a roddwyd i deithio llesol yn 2023/24 a 2024/25, gyda’r cyllid yn £80 miliwn yn y ddwy flynedd. Hefyd wedi’i gynnwys yn Llinell Wariant yn y Gyllideb teithio cynaliadwy a llesol mae cyllid ar gyfer Cerbydau Allyriadau Isel Iawn (ULEV) a fydd yn cael ei fuddsoddi wrth gyflawni ein strategaeth gwefru ULEV a’n cynllun gweithredu.

Mae’r cyllid ar gyfer y cynllun trafnidiaeth lleol yn cael ei leihau yn y flwyddyn ariannol nesaf, gan adlewyrchu’n rhannol ffocws ar ostwng terfynau cyflymder i 20MYA ar ffyrdd preswyl; mae hyn bellach wedi’i adlewyrchu yn y BEL diogelwch ar y ffyrdd; mae’r elfen arall o’r gostyngiad yn adlewyrchu diwedd cyllid tymor byr ar gyfer cydnerthedd ffyrdd; bydd cynlluniau cydnerthedd pellach yn cael eu hystyried fel rhan o’r LTF. Yn unol ag ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu, byddwn yn adolygu sut rydym yn gwario’r Gronfa Trafnidiaeth Leol yn y dyfodol yn unol â’r blaenoriaethau a nodir yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.

**Camau Gweithredu Gwella Diogelwch ar y Ffyrdd**

| Llinell Wariant yn y Gyllideb | Cyllideb Derfynol 2021-22 £’000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd | Newid £’000 | % Newid | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd |
|---|---|---|---|---|---|---|

| | | 2022-23 £'000 | | | 2023-24 £'000 | 2024-25 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Diogelwch ar y Ffyrdd | 4,764 | 5,000 | 236 | 5% | 5,000 | 5,000 |
| **Cyfanswm yr Adnodd** | **4,764** | **5,000** | **236** | **5%** | **5,000** | **5,000** |

| **Llinell Wariant yn y Gyllideb** | **Cyllideb Derfynol 2021-22 £'000** | **Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2022-23 £'000** | **Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2023-24 £'000** | **Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2024-25 £'000** |
|---|---|---|---|---|
| ***Cyfalaf Traddodiadol*** | | | | |
| Diogelwch ar y Ffyrdd | 6,900 | 16,500 | 4,000 | 4,000 |
| **CYFANSWM** | **6,900** | **16,500** | **4,000** | **4,000** |

Mae'r cyllidebau diogelwch ar y ffyrdd wedi cynyddu, gan adlewyrchu'r gwaith o gyflwyno'r terfyn cyflymder 20MYA ar ffyrdd preswyl. Mae'r Fframwaith Diogelwch Ffyrdd ar gyfer Cymru yn nodi ein targedau diogelwch hyd at 2020 ac rydym yn dechrau datblygu strategaeth newydd ar gyfer y blynyddoedd i ddod yn seiliedig ar weledigaeth sero.

Mae cyllid refeniw yn cefnogi'r gwaith o gyllido ac ymgysylltu â phartneriaid allanol yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector i leihau nifer yr anafusion

## 3.1 Trafnidiaeth

Sut mae'r gyllideb ddrafft yn cefnogi blaenoriaethau trafnidiaeth Llywodraeth Cymru, yn enwedig wrth gyflawni Strategaeth Drafnidiaeth newydd Cymru a'r cynlluniau a'r strategaethau cyflawni cysylltiedig, gan gynnwys sut rydych wedi blaenoriaethu cyllid, fforddiadwyedd eich blaenoriaethau ac unrhyw feysydd sy'n peri pryder.

Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddwyd Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021. Mae'r Strategaeth yn gosod gweledigaeth ar gyfer system drafnidiaeth hygyrch, gynaliadwy ac effeithlon sy'n cael ei chefnogi gan uchelgeisiau 20 mlynedd sy'n dda i bobl a chymunedau, yn dda i'r amgylchedd, yn dda i'r economi a lleoedd ac yn cefnogi'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymreig ffyniannus. Mae'n canolbwyntio ar dair blaenoriaeth:

- *Y flaenoriaeth gyntaf yw sut rydym yn rheoli'r galw am deithio ac yn dod â gwasanaethau i bobl er mwyn lleihau'r angen i deithio*. Nid yw hyn yn ymwneud ag atal teithio yn gyfan gwbl; yn hytrach, mae'n ymwneud â chynllunio ymlaen llaw ar gyfer gwell cysylltedd ffisegol a digidol i gefnogi mynediad at wasanaethau mwy lleol a mwy o weithio o gartref ac o bell. Os gall mwy o bobl gerdded a beicio ar gyfer teithiau bob dydd, byddwn yn lleihau ein dibyniaeth ar geir.

- *Mae’r ail flaenoriaeth yn ymwneud â gwasanaethau a seilwaith mwy cynaliadwy*. Mae’r Strategaeth yn esbonio sut y byddwn yn caniatáu i bobl a nwyddau symud yn rhwydd o ddrws i ddrws drwy drafnidiaeth gynaliadwy a sut y byddwn yn buddsoddi mewn gwasanaethau trafnidiaeth dibynadwy, effeithlon a fforddiadwy y mae pobl am eu defnyddio, yn gallu eu defnyddio ac yn eu defnyddio, ac yn y seilwaith trafnidiaeth i gefnogi’r gwasanaethau hynny.
- *Mae’r drydedd flaenoriaeth, sef yr un olaf, yn ymwneud ag annog pobl i wneud y newid i drafnidiaeth fwy cynaliadwy*. Er mwyn cyrraedd ein targedau newid hinsawdd, bydd angen i bobl deithio’n wahanol. Mae hyn yn golygu ei gwneud hi’n haws gwneud y peth iawn drwy wneud trafnidiaeth gynaliadwy carbon isel yn fwy deniadol a mwy fforddiadwy, a thrwy fabwysiadu datblygiadau arloesol sy’n ei gwneud hi’n haws ei defnyddio.

Yr argyfwng hinsawdd yw un o faterion diffiniol mwyaf ein hoes. Er mwyn cyrraedd ein targed allyriadau sero net erbyn 2050, rhaid i ni weithredu nawr. Bydd peidio â gwneud hynny yn gadael mwy o broblem i genedlaethau’r dyfodol. Mae ymateb i’r newid yn yr hinsawdd yn gofyn am newid yn y ffordd rydym yn teithio. Mae angen llai o geir ar ein ffyrdd, mwy o bobl yn defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus a mwy o gerdded neu feicio. Ni fyddwn yn cyflawni’r lefel honno o newid oni bai ein bod yn mynd â phobl gyda ni, yn gwrando ar ddefnyddwyr ac yn cynnwys pobl wrth ddylunio system drafnidiaeth sy’n gweithio i bawb.

Wrth wraidd y strategaeth roedd yr Hierarchaeth Teithio Cynaliadwy, sy’n darparu fframwaith ar gyfer bodloni’r galw am deithio drwy gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus cyn cerbydau modur preifat; mae egwyddorion yr hierarchaeth hon yn hanfodol i ddyraniad ein penderfyniadau buddsoddi.

Rydym wedi cyhoeddi rhewi datblygiad pob cynllun ffordd newydd fel rhan o’n hymdrechion i gyrraedd ein targedau Sero Net mewn perthynas â’r newid yn yr hinsawdd. Nid dyma ddiwedd y gwaith o adeiladu ffyrdd yng Nghymru o reidrwydd, ond bydd yn sicr yn codi’r bar o ran yr hyn y gellir ei gyfiawnhau wrth i ni gynllunio ar gyfer dyfodol lle byddwn yn gwneud gwell defnydd o deithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus. Dim ond os defnyddir yr adnoddau ariannol cyfyngedig sydd ar gael yn effeithlon ac yn effeithiol y gellir cyflawni hyn. Felly, mae angen yr Adolygiad hwn o’n prosiectau ffyrdd presennol a sut y byddwn yn mynd ati i wneud penderfyniadau adeiladu ffyrdd yn y dyfodol.

Mae gostyngiad yn y cyllid Teithio Llesol yn 22/23. Byddwn yn defnyddio’r gostyngiad tymor byr mewn cyllid i weithio gydag Awdurdodau Lleol a Trafnidiaeth Cymru i ddatblygu cyfres o gynlluniau o ansawdd uchel, effaith uchel i sicrhau’r budd mwyaf posibl o’r cyllid uchaf erioed a roddwyd i deithio llesol yn 23/24 a 24/25. Bydd cyllid yn cael ei gynyddu hefyd ar gyfer diogelwch ar y ffyrdd i gefnogi’r gwaith o gyflwyno terfyn cyflymder o 20MYA ar ffyrdd preswyl. Bydd hyn yn cefnogi’r defnydd o deithio llesol hefyd.

Ochr yn ochr â buddsoddiad parhaus i gefnogi trafnidiaeth gyhoeddus i adfer o bandemig COVID-19, byddwn yn parhau i fuddsoddi i gwblhau’r gwaith o drawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd (CVL) a rhoi cyllid ar waith i drosglwyddo’r fflyd bysiau i gerbydau trydan.

Byddwn yn parhau i gefnogi Maes Awyr Caerdydd.

**Sut mae'r gyllideb ddrafft yn darparu ar gyfer:**

Effaith y pandemig Coronafeirws, a'r adferiad ohono, gan gynnwys cymorth i ddarparwyr trafnidiaeth.

Mae cyllideb refeniw y Seilwaith Economaidd wedi cael cynnydd yn erbyn y 'gwaelodlin' blaenorol o tua £137 miliwn. Prif ddefnydd y cyllid hwn fydd parhau i gefnogi gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus i wrthbwyso effaith barhaus y Coronafeirws ar batrymau teithio a gostyngiadau sylweddol yn y blwch tocynnau i deithwyr. Rydym yn parhau i gefnogi'r meysydd hyn fel rhan o'n huchelgais hirdymor i sicrhau newid yn eu dulliau teithio a datgarboneiddio'r sector Trafnidiaeth.

Caiff y cyllid ei rannu'n 3 maes allweddol:

Gwasanaethau rheilffyrdd (£72 miliwn) – Bydd hyn yn cefnogi Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig i dalu ei gostau rhedeg tra bod teithiau a'r blwch tocynnau i deithwyr yn parhau i gael eu heffeithio gan y coronafeirws.

Gwasanaethau bws BES (£28 miliwn) – Fel gyda'r rheilffyrdd, bydd hyn yn cael ei ddefnyddio i gefnogi'r diwydiant bysiau tra bod ei niferoedd teithwyr a'i wasanaethau yn parhau i gael eu heffeithio gan y coronafeirws.

Tocynnau Teithio Rhatach (£37 miliwn) – Mae hyn er mwyn gwrthbwyso gostyngiad yn y cyllid sydd ar gael drwy gyllidebau cyfalaf ar gyfer cefnogi teithio rhatach. Nid yw hyn yn cyfateb i gynnydd cyffredinol i'r gyllideb Tocynnau Teithio Rhatach ond mae'n sicrhau bod yr amlen gyllidebol gyffredinol (sy'n cael ei hariannu o ffynonellau refeniw a chyfalaf) yn parhau i fod yn gyson â blynyddoedd blaenorol

Dyraniadau penodol a wneir mewn perthynas â Brexit i liniaru'r effaith ar wasanaethau / sectorau trafnidiaeth.

Nid yw'r gyllideb ddrafft hon yn gwneud unrhyw ddyraniadau yn benodol i liniaru effeithiau parhaus ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Fodd bynnag, mae ein holl sectorau trafnidiaeth yn parhau i deimlo canlyniadau cytundeb ymadael Llywodraeth y DU, yn enwedig drwy eu cadwyni cyflenwi a'u gweithlu. Dyma'r realiti newydd a'r amgylchedd gweithredu anffodus rydym ni ynddo.

Bydd rhaid i bob un o'n dyraniadau cyllideb ddarparu ar gyfer y costau ychwanegol y mae gwasanaethau trafnidiaeth a phrosiectau seilwaith bellach yn eu hwynebu o ganlyniad i darfu oherwydd Covid a materion yn ymwneud â'r ffin â'r UE.

Byddwn yn parhau i weithio gyda gwasanaethau trafnidiaeth datganoledig i liniaru effaith barhaus y cytundeb ymadael cyn belled ag y gallwn, a chyda Llywodraeth y DU i roi pwysau arni i sicrhau bod sectorau trafnidiaeth, yn enwedig y sector cludo nwyddau, yn gallu parhau i weithredu mor effeithiol â phosibl.

### Cyflawni'r fasnachfraint rheilffyrdd.

Daeth Gwasanaeth Rheilffyrdd Cymru a'r Gororau dan reolaeth gyhoeddus yn dilyn trosglwyddo staff o KeolisAmey i Trafnidiaeth Cymru ym mis Chwefror 2021 o ganlyniad i effaith Covid 19, gyda Llinellau Craidd y Cymoedd (i'r gogledd o Gaerdydd) yn trosglwyddo i berchnogaeth a rheolaeth Llywodraeth Cymru yn 2020. Mae'r cyllid hwn yn caniatáu i Trafnidiaeth Cymru ddarparu'r fasnachfraint Rheilffyrdd ar ran Gweinidogion Cymru.

### Cyflwyno Metros y Gogledd-ddwyrain, y De-orllewin a'r De-ddwyrain.

Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn ein rhaglenni metro ond mewn ffordd sydd wedi'i hintegreiddio â'n gwasanaethau craidd mewn perthynas â bysiau, teithio llesol a rheilffyrdd, felly nid yw cyllidebau'n cael eu nodi ar wahân. Mae'r ffocws tymor byr ar gwblhau trawsnewidiad Llinellau Craidd y Cymoedd ac ar fuddsoddi mewn meysydd / ardaloedd sydd wedi gwneud y newid mwyaf i ddulliau teithio.

### Cyflawni blaenoriaethau seilwaith rheilffyrdd Llywodraeth Cymru.

Dechreuodd Rhaglen Trawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd yn haf 2020, a bydd yn cyflawni gwaith uwchraddio i gledrau a signalau a gwaith trydaneiddio a fydd yn caniatáu darpariaeth mwy o wasanaethau, a gwasanaethau cyflymach, gan wella mynediad a chysylltedd i gymunedau'r cymoedd a Chaerdydd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo £800 miliwn ar gyfer cerbydau rheilffyrdd newydd a fydd yn darparu trenau newydd, cyflymach a mwy cyfforddus, ac yn caniatáu sefydlu gwasanaethau mwy mynych a llwybrau newydd. Byddwn yn cwblhau'r broses o gaffael a chyflwyno fflydoedd newydd o drenau erbyn 2024. Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol sylweddol drwy annog mwy o bobl i newid eu ffyrdd a defnyddio'r rheilffyrdd yn hytrach na char, a bydd fflyd newydd Metro De Cymru yn gwella hygyrchedd y rheilffyrdd drwy ddarparu dull mynediad gwastad i'r trenau, ar draws y rhwydwaith.

### Datblygu Trafnidiaeth Cymru – gan gynnwys dadansoddiad o ddyraniad cyllideb Trafnidiaeth Cymru, gan eitemeiddio ei gyllideb gorfforaethol ochr yn ochr â dyraniadau ar gyfer darparu rhaglenni penodol.

Nid yw'r gyllideb hon yn gwneud unrhyw ddyraniadau penodol i Trafnidiaeth Cymru y tu hwnt i ddarparu rheilffyrdd (a nodir uchod). Er bod rhaglenni y byddwn yn gofyn i Trafnidiaeth Cymru eu cyflawni ar ein rhan, gan gynnwys y gwelliannau i fasnachfraint a seilwaith y rheilffyrdd, mae swyddogion yn dal i drafod gyda hwy eu cynllun busnes ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

Bydd y broses cynllunio busnes honno, fel arfer, yn cadarnhau'r dyraniadau cyllid sydd ar gael i Trafnidiaeth Cymru a'r rhaglenni y byddant yn eu cyflawni ar ein rhan. Byddwn yn awyddus iddynt ddangos eu bod yn gwneud hynny mor effeithlon â phosibl ac yn ystyried pob cyfle ar gyfer arbedion er mwyn sicrhau bod ein buddsoddiad mewn gwasanaethau trafnidiaeth yn gallu cael yr effaith fwyaf posibl ar gyfer pobl Cymru.

## Argymhellion Comisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru.

Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn y gwaith o gyflawni argymhellion Comisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru a Metro De-ddwyrain Cymru mewn ffordd sydd wedi'i hintegreiddio â'n gwasanaethau craidd a ddarperir mewn perthynas â bysiau, teithio llesol a rheilffyrdd.

## Buddsoddi yn y rhwydwaith cefnffyrdd a thraffyrdd.

Mae amryw o raglenni'n cael eu darparu ar draws y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol (SRN) y bwriedir iddynt fod yn ataliol. Maent yn cynnwys:

- Clefyd Coed Ynn – Mesurau rhagweithiol i nodi a gwaredu coed sydd wedi'u heintio a allai achosi problemau diogelwch ar yr SRN.
- Triniaethau ataliol ar wynebau – Triniaethau ar wynebau sy'n ymestyn oes haen dreulio'r gerbytffordd, gan gynyddu mynychder ymyrraeth cynnal a chadw, gan leihau costau a charbon.
- Rhaglen Diogelwch Cymunedol – rhaglen ddiogelwch ragweithiol sy'n gwrando ar anghenion cymunedau, ac yn ymateb iddynt, er mwyn gwella diogelwch ar yr SRN.
- Adnewyddu goleuadau stryd – newid lampau i LEDs i leihau costau a charbon.
- Er mwyn diogelu'r dyfodol a pharatoi ar gyfer digideiddio'r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol, rydym yn buddsoddi dros £40 miliwn i ddarparu ffeibr band eang ar hyd 152 cilometr o'r rhwydwaith.

Er mwyn mynd i'r afael â'r ôl-groniad o waith cynnal a chadw cyfalaf gwerth tua £1 biliwn ar draws pob math o asedau ar yr SRN, mae swyddogion wedi datblygu rhaglen Adnewyddu Asedau Mawr (MAR) y gellid ei chyflwyno dros gyfnod o 5 i 10 mlynedd, gyda'r amserlenni wedi'u haddasu i gyfateb i'r cyllid sydd ar gael.

Byddai'r rhaglen nid yn unig yn mynd i'r afael â'r ôl-groniad o waith cynnal a chadw ond gallai hefyd gyflawni llawer o'r uchelgeisiau a'r blaenoriaethau yn Strategaeth Drafnidiaeth newydd Cymru, yn enwedig o ran ailddyrannu gofod ffyrdd ar gyfer teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus a lleihau carbon drwy gynnal gwaith cynnal a chadw mewn modd cyfannol effeithlon, gan ddefnyddio deunyddiau ag oes gwasanaeth hir sydd ar gael yn lleol.

Nid yw'r rhaglen hon yn cael ei hariannu ar hyn o bryd.

Bydd swyddogion yn parhau i ddatblygu rhaglenni, a fydd yn destun adolygiad annibynnol, gan reoli a gweithredu rhwydwaith diogel ar yr un pryd. Cyflawnir hyn drwy ganolbwyntio ar flaenoriaethu gwaith cynnal a chadw hanfodol a rheoli risgiau wrth gyflawni amcanion Strategaeth Drafnidiaeth Cymru megis ailddyrannu gofod ffyrdd fel y mae cyllidebau'n caniatáu.

Cyflwyno polisi teithio llesol – gan gynnwys tabl sy’n manylu ar gyfanswm y dyraniadau a’r dyraniadau y pen ar gyfer teithio llesol ar gyfer 2022-23, o gymharu â phob un o’r tair blynedd flaenorol. Dylai dyraniadau refeniw a chyfalaf fod yn glir ac wedi’u dadansoddi yn ôl ffrwd ariannu unigol (cronfa teithio llesol, cronfa trafnidiaeth leol, llwybrau diogel mewn cymunedau etc).

Defnyddir y rhan fwyaf o’r gyllideb teithio llesol ar gyfer y Gronfa Teithio Llesol. Fe’i sefydlwyd i alluogi awdurdodau lleol i ddatblygu eu rhwydweithiau teithio llesol lleol sydd wedi’u cynllunio ac sy’n cael eu diwygio o ganlyniad i’r Ddeddf Teithio Llesol. Y nod yw newid dulliau teithio o geir i deithio llesol fel y gellir gwneud teithiau byrrach fel mater o drefn drwy gerdded a beicio a theithiau hirach ar y cyd â thrafnidiaeth gyhoeddus. Mae’r dulliau di-garbon hyn yn cynnig manteision iechyd a chymdeithasol ehangach sylweddol iawn y tu hwnt i’w swyddogaeth drafnidiaeth.

Ers cyflwyno’r gronfa, mae hyn wedi arwain at gyfres gynyddol o gynlluniau uchelgeisiol sydd bellach naill ai’n barod i’w hadeiladu neu’n nesáu at fod yn barod. Mae gan lawer o’r rhain y gallu i drawsnewid dewisiadau teithio llawer o bobl a galluogi teithiau cerdded a beicio diogel lle na fu’r rhain yn bosibl yn y gorffennol.

Ar gyfer 2021/22, cafodd y £56.65 miliwn gwreiddiol a glustnodwyd yn y gyllideb ddrafft hwb ychwanegol o £20 miliwn gyda’r gyllideb derfynol, a oedd yn caniatáu cyflymu’r broses o ddarparu a datblygu cynlluniau a sicrhau bod mwy o gyllid ar gael ar gyfer gwelliannau ar raddfa fach er mwyn sicrhau bod newid gwirioneddol yn digwydd mewn trefi a dinasoedd ledled Cymru.

Ategir y Gronfa Teithio Llesol gan y Grant Llwybrau Diogel mewn Cymunedau, sy’n canolbwyntio’n benodol ar alluogi teithio llesol i ysgolion, gyda phwyslais arbennig yn y blynyddoedd diwethaf ar gyflwyno strydoedd ysgol, sy’n cael gwared ar draffig o amgylch ysgolion yn y bore a’r prynhawn i annog cerdded, sgwtera a beicio, a gwella ansawdd aer a diogelwch ar y ffyrdd.

Defnyddir cyllid refeniw yn bennaf i fanteisio i’r eithaf ar ein buddsoddiadau cyfalaf drwy gefnogi awdurdodau lleol i gynllunio a darparu rhwydweithiau a chynlluniau a thrwy hyrwyddo teithio llesol.

Dangosir isod y dyraniadau ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol, y flwyddyn ariannol i ddod a’r tair blynedd ariannol flaenorol. Mae cyllideb 2021/22 yn adlewyrchu’r bwriadau presennol, ond ni fydd y sefyllfa derfynol yn hysbys tan ddiwedd y flwyddyn.

Nodwch fod y ffigurau hyn yn adlewyrchu cyllid penodol a nodwyd ar gyfer gweithgarwch Teithio Llesol. Mae elfennau eraill o gyflwyno teithio llesol yn rhan o gostau prosiect ehangach na ellir eu dadansoddi ar wahân e.e. darpariaeth teithio llesol o fewn cynlluniau ffyrdd, trafnidiaeth gyhoeddus ac aml-ddull ehangach.

| | **Dyraniadau Teithio Llesol - holl grantiau cyfalaf yr ALl** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **18/19** | **19/20** | **20/21** | **21/22** | **22/23** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cronfa Teithio Llesol | £9,031,092 | £29,127,943 | £25,140,454 | £56,003,830 | £51,000,000 |
| Cronfa Trafnidiaeth Leol | £11,267,202 | £7,303,259 | £896,000 | | |
| Llwybrau Diogel mewn Cymunedau | £5,048,314 | £5,362,121 | £4,141,501 | 6,554,231 | £5,000,000 |
| Cyllid ychwanegol (Covid) | | | £16,205,917 | £1,030,000 | |
| Prosiectau Teithio Llesol SEWTC | | | | £517,000 | |
| Cyfanswm | £25,346,608 | £41,793,323 | £46,383,872 | £64,105,061 | £56,000,000 |
| Poblogaeth* | 3,138,631 | 3,152,879 | 3,169,586 | 3,174,970 | 3,184,311 |
| Cyfanswm y pen | £8.08 | £13.26 | £14.63 | £20.19 | £17.59 |

*mae amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn, Mehefin 2021 a Mehefin 2022, yn seiliedig ar amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) ar gyfer 2018.

| | **Dyraniadau Teithio Llesol - cyllid cyfalaf arall** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **18/19** | **19/20** | **20/21** | **21/22** | **22/23** |
| Rhaglen Teithio Llesol Cefnffyrdd Llywodraeth Cymru | £1,650,000 | £1,650,000 | £1,650,000 | £3,650,000 | £3,000,000 |
| Grantiau cyfalaf trydydd parti (yn cynnwys cynlluniau peilot e-feiciau, gwelliannau NCN) | | | | 510,000 | 262,000 |
| Cyfanswm | £1,650,000 | £1,650,000 | £1,650,000 | £4,160,000 | £3,262,000 |
| Poblogaeth* | 3,138,631 | 3,152,879 | 3,169,586 | 3,174,970 | 3,184,311 |
| Cyfanswm y pen | £0.53 | £0.52 | £0.52 | £1.31 | £1.02 |

* mae amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn, Mehefin 2021 a Mehefin 2022, yn seiliedig ar amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) ar gyfer 2018.

| | Dyraniadau Teithio Llesol - refeniw | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 18/19 | 19/20 | 20/21 | 21/22 | 22/23 |
| Rhaglen Teithiau Iach | £237,000 | £375,000 | £375,000 | £375,000 | £375,000 |
| Cronfa Teithio Llesol a chymorth gweithredu ATA (Trafnidiaeth Cymru ac ALlau) | | | £1,000,000 | £1,549,000 | £1,000,000 |
| Cymorth gweithredu'r Ddeddf Teithio Llesol (gan gynnwys offer ymgysylltu, system fapio, grant craidd, adolygiad o hyfforddiant beicio) | £171,915 | £224,446 | £178,988 | £135,280 | £240,000 |
| Cyfanswm | £408,915 | £599,446 | £1,553,988 | £2,059,280 | £1,615,000 |
| Poblogaeth* | 3,138,631 | 3,152,879 | 3,169,586 | 3,174,970 | 3,184,311 |
| Cyfanswm y pen | £0.13 | £0.19 | £0.49 | £0.65 | £0.51 |

* mae amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn, Mehefin 2021 a Mehefin 2022, yn seiliedig ar amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) ar gyfer 2018.

| | Teithio Llesol - pob un | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 18/19 | 19/20 | 20/21 | 21/22 | 22/23 |
| Cyfanswm | £27,405,523 | £44,042,769 | £49,587,860 | £70,324,341 | £60,877,000 |
| Poblogaeth * | 3,138,631 | 3,152,879 | 3,169,586 | 3,174,970 | 3,184,311 |
| Cyfanswm y pen | £8.73 | £13.97 | £15.64 | £22.15 | £19.12 |

* mae amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn, Mehefin 2021 a Mehefin 2022, yn seiliedig ar amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) ar gyfer 2018.

Cymorth ar gyfer gwasanaethau bysiau a thrafnidiaeth gymunedol, gan gynnwys tabl sy'n manylu ar gyfanswm y dyraniadau a'r dyraniadau y pen ar gyfer 2022-23 o gymharu â phob un o'r tair blynedd flaenorol. Dylai dyraniadau refeniw a chyfalaf fod yn glir a dylai'r tabl gael ei ddadansoddi yn ôl ffrwd ariannu unigol (BSSG, BES2, Tocynnau Teithio Rhatach etc).

| Cyfanswm y pen | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **TABL 5 - Cymorth Refeniw Bysiau - 2019-20 i 2022-23** | | | | |
| | **2019-20** | **2020-21** | **2021-22 (alldro dangosol)** | **2022-23** |
| Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn Cymru* | 3,152,879 | 3,169,586 | 3,174,970 | 3,184,311 |
| Grant Bus Users UK Cymru | £243,368 | £182,918 | £289,457 | £289,457 |
| Trafnidiaeth i ysgolion | £0 | £0 | £10,000 | £10,000 |
| CYMORTH REFENIW BYSIAU | £1,325,425 | £6,111,471 | £1,061,818 | £1,061,818 |
| Cymdeithas Cludiant Cymunedol - Cyllid Craidd | £164,298 | £138,284 | £285,482 | £285,482 |
| Grant Cymorth Gwasanaethau Bysiau | £25,000,000 | £25,000,000 | £25,000,000 | £25,000,000 |
| Cymorth Refeniw Bysiau - Traws Cymru | £3,741,342 | £4,018,818 | £3,159,745 | £3,159,745 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Traveline Cymru | £998,612 | £998,612 | £998,616 | £998,616 |
| Tocynnau teithio rhatach | £26,375,441 | £33,915,450 | £62,595,259 | £62,595,259 |
| Teithio Rhatach i Bobl Ifanc | £2,531,786 | £1,906,536 | £1,999,969 | £1,999,969 |
| Y Cynllun Brys ar gyfer y Sector Bysiau - COVID | £0 | £70,620,830 | £59,099,546 | £28,000,000 |
| | | | | |
| **Cyfanswm** | **£60,380,273** | **£142,892,919** | **£154,499,892** | **£123,400,346** |
| **Cyfanswm y pen** | **£19.15** | **£45.16** | **£48.66** | **£38.75** |

| Cyfanswm y pen | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **TABL 5 - Cymorth cyfalaf bysiau - 2019-20 i 2022-23** | | | | |
| | **2019-20** | **2020-21** | **2021-22** | **2022-23** |
| Amcangyfrif poblogaeth canol blwyddyn Cymru * | 3,152,879 | 3,169,586 | 3,174,970 | 3,184,311 |
| Tocynnau Teithio Rhatach | £35,240,000 | | | |
| Cymorth bysiau | | £1,000,000 | | |
| Bws Cymru - buddsoddi mewn gwasanaethau bysiau | | | | £25,000,000 |
| | | | | |
| **Cyfanswm** | **£35,240,000** | **£1,000,000** | **£0** | **£25,000,000** |
| **Cyfanswm y pen** | **£11.18** | **£0.32** | **£0.00** | **£7.85** |

- mae amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn, Mehefin 2021 a Mehefin 2022, yn seiliedig ar amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) ar gyfer 2018.

Cymorth ar gyfer blaenoriaethau trafnidiaeth lleol.

Mae’r ddyletswydd i baratoi Cynlluniau Trafnidiaeth Lleol yn trosglwyddo o Awdurdodau Lleol i’r pedwar Cyd-bwyllgor Corfforaethol yn 2022. Bydd y Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol newydd yn nodi sut y bydd Strategaeth Drafnidiaeth Cymru – Llwybr Newydd, yn cael ei chyflwyno yn y rhanbarthau.

Bydd hi’n ofynnol i Gyd-bwyllgorau Corfforaethol ddatblygu Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol - mae’r ddyletswydd cynllunio trafnidiaeth yn trosglwyddo o Awdurdodau Lleol i Gyd-bwyllgorau Corfforaethol ar 28 Chwefror 2022 ar gyfer y De-ddwyrain a 30 Mehefin 2022 ar gyfer y Gogledd, y Canolbarth a’r De-orllewin. Bydd y Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol newydd yn disodli’r Cynlluniau Trafnidiaeth Lleol presennol, a gymeradwywyd yn 2015. Bydd y ddyletswydd i gyflawni’r polisïau a nodir yn y Cynlluniau Datblygu Rhanbarthol yn parhau gyda’r awdurdodau lleol.

Bydd y cynlluniau hyn yn cael eu datblygu ochr yn ochr â’r Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth sy’n cael ei ddatblygu gan Trafnidiaeth Cymru. Bydd hyn yn nodi prosiectau, cynlluniau, mentrau neu ymyriadau penodol a fydd yn nodi gwariant, yn seiliedig ar flaenoriaethau’r Strategaeth, gan gynnwys cyflawni prosiectau sydd eisoes ar y gweill. Bydd hefyd yn cefnogi’r gwaith o weithredu Cymru’r Dyfodol – Cynllun Cenedlaethol 2040, a Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru. Bydd y Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth yn disodli’r Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol presennol, 2015 (a ddiweddarwyd yn 2017 a 2018). Y bwriad yw ei gyhoeddi fel y gellir cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol yn ei gylch ym mis Mai 2022.

Bydd y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cael ei rannu’n ddwy ran. Y Cynllun, a fydd yn nodi’r polisïau ar gyfer gweithredu Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn y rhanbarth, a’r Rhaglen, a ddylai restru’r ymyriadau arfaethedig dros gyfnod o 5 mlynedd (2023-24 i 2027-28).

Defnyddir y cynlluniau hyn i ddyrannu cyllid i flaenoriaethau lleol a rhanbarthol. Yn y tymor byr ac wrth i’r cynlluniau gael eu datblygu, bydd cyllid yn canolbwyntio ar Deithio Llesol a’r broses o gyflwyno’r terfyn cyflymder o 20MYA.

## 3.2 Seilwaith TGCh

Manylion cyfanswm cyfraniad Llywodraeth Cymru at gynllun olynol Cyflymu Cymru, gan gynnwys targedau contract perthnasol ar gyfer BT/Openreach a pherfformiad tuag at y targedau hyn.

Cyfanswm gwerth y Cynllun - £59.03 miliwn –

Rhaniad y cyllid:

Llywodraeth y DU - £2 filiwn
Cyllid yr UE - £32.6 miliwn
Llywodraeth Cymru - £24.43 miliwn

Targedau Contract

Perfformiad
Eiddo – 39,000
Eiddo a basiwyd hyd yma – 24,515
Eiddo sy'n weddill – 14,485

Manylion y cyllidebau a ddyrennir i gynlluniau cysylltedd eraill Llywodraeth Cymru (gan gynnwys Allwedd Band Eang Cymru, y Gronfa Band Eang Lleol ac ychwanegiad Llywodraeth Cymru at gynllun Talebau Band Eang Gigabit Llywodraeth y DU) a'r targedau cysylltedd sydd gan y cynlluniau hyn.

Allwedd Band Eang Cymru - £1.5 miliwn (cyfalaf)
Mae'r cynllun hwn yn gynllun grant a arweinir gan y galw ar gyfer eiddo na all gael mynediad at fand eang cyflym ac nad oes ganddo dargedau cysylltedd.

Y Gronfa Band Eang Lleol - £3.0 miliwn (cyfalaf) £0.3 miliwn (refeniw) Cyfanswm gwerth cyffredinol y cynllun - £11.0 miliwn
Mae'r cynllun hwn yn gynllun grant a arweinir gan y galw ac nid oes ganddo dargedau cysylltedd. Rhaid i ymgeiswyr ddangos tystiolaeth i gefnogi'r meini prawf canlynol

- Creu a galluogi seilwaith band eang, gan gynnwys cyfleusterau ôl-drosglwyddo data
- Uwchraddio'r seilwaith band eang presennol
- Defnyddio seilwaith digidol megis gosod seilwaith goddefol (e.e. gwaith peirianneg sifil megis dwythellau ac elfennau rhwydwaith eraill megis ffeibr tywyll etc), hefyd mewn synergedd â seilweithiau eraill (ynni, trafnidiaeth, dŵr, rhwydweithiau carthffosiaeth etc.)
- Darparu band eang cyflym a dibynadwy i'r rhannau hynny o Gymru nad ydynt yn cael eu gwasanaethu ar hyn o bryd (h.y. NGA "gwyn")

Cynllun Talebau Gigabit Llywodraeth y DU – dim dyraniad

Manylion unrhyw gyllideb a ddyrennir i wella cysylltedd symudol.

Ni ddarparwyd unrhyw ddyraniad ar gyfer 2022/23. Bydd achos busnes yn cael ei wneud yn 2022/23 a fydd yn cadarnhau a oes angen prosiect a gwerth y prosiect hwnnw. Os bydd hyn yn arwain at ganlyniad cadarnhaol, disgwylir y bydd y broses gaffael yn digwydd yn ail hanner 2022/23 gyda gwaith yn dechrau yn 2023/24.

## 4.0 YR AMGYLCHEDD, YNNI A CHYNLLUNIO – ARIANNU CAMAU GWEITHREDU

| Yr Amgylchedd, Ynni a Chynllunio | Cyllideb Derfynol 2021-22 £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2022-23 £'000 | Newid £'000 | % Newid | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2023-24 £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2024-25 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Adnodd Cyllidol | 185,110 | 222,110 | 37,000 | 20% | 240,610 | 256,110 |
| Adnodd Anghyllidol | 10,121 | 10,121 | 0 | 0% | 10,121 | 10,121 |
| **Cyfanswm yr Adnodd** | **195,231** | **232,231** | **37,000** | **19%** | **250,731** | **266,231** |

| Yr Amgylchedd, Ynni a Chynllunio | Cyllideb Derfynol 2021-22 £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2022-23 £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2023-24 £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2024-25 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Cyfalaf Traddodiadol | 183,286 | 195,500 | 239,550 | 237,500 |
| **CYFANSWM** | **183,286** | **195,500** | **239,550** | **237,500** |

**Camau Gweithredu datblygu a gweithredu polisi a rhaglenni cyffredinol ar ddatblygu cynaliadwy a rheoli adnoddau naturiol**

| BEL | Cyllideb Derfynol 2021-22 £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2022-23 £'000 | Newid £'000 | % Newid | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2023-24 £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2024-25 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Deddfwriaeth a Llywodraethu'r Amgylchedd | 181 | 181 | 0 | 0% | 181 | 181 |
| **Cyfanswm yr Adnodd** | **181** | **181** | **0** | **0%** | **181** | **181** |

Mae'r Llinell Wariant yn y Gyllideb hon yn darparu cyllid cyllidebol ar gyfer costau deddfwriaeth a llywodraethu

**Camau Gweithredu'r Rhaglen Tlodi Tanwydd**

| Llinell Wariant yn y Gyllideb | Cyllideb Derfynol 2021-22 £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd | Newid £'000 | % Newid | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd |
|---|---|---|---|---|---|---|

| | | 2022-23 £’000 | | | 2023-24 £’000 | 2024-25 £’000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhaglen Tlodi Tanwydd | 4,370 | 4,370 | 0 | 0% | 4,370 | 4,370 |
| **Cyfanswm yr Adnodd** | **4,370** | **4,370** | **0** | **0%** | **4,370** | **4,370** |

| Llinell Wariant yn y Gyllideb | Cyllideb Derfynol 2021-22 £’000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2022-23 £’000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2023-24 £’000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2024-25 £’000 |
|---|---|---|---|---|
| ***Cyfalaf Traddodiadol*** | | | | |
| Rhaglen Tlodi Tanwydd | 27,000 | 30,000 | 35,000 | 35,000 |
| **CYFANSWM** | **27,000** | **30,000** | **35,000** | **35,000** |

**Cam gweithredu datblygu a gweithredu polisi newid hinsawdd, effeithlonrwydd ynni, Twf Gwyrdd a diogelu’r amgylchedd**

| Llinell Wariant yn y Gyllideb | Cyllideb Derfynol 2021-22 £’000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2022-23 £’000 | Newid £’000 | % Newid | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2023-24 £’000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2024-25 £’000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru | 3,970 | 3,970 | 0 | 0% | 3,970 | 3,970 |
| Atal Ymbelydredd a Llygredd | 3,415 | 4,415 | 1,000 | 29% | 5,165 | 5,615 |
| Ynni Glân | 3,457 | 8,457 | 5,000 | 145% | 10,457 | 11,457 |
| Gweithredu ar y Newid yn yr Hinsawdd | 1,986 | 3,486 | 1,500 | 76% | 4,486 | 5,486 |
| **Cyfanswm yr Adnodd** | **12,828** | **20,328** | **7,500** | **58%** | **24,078** | **26,528** |

| Llinell Wariant yn y Gyllideb | Cyllideb Derfynol 2021-22 £’000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2022-23 £’000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2023-24 £’000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2024-25 £’000 |
|---|---|---|---|---|
| ***Cyfalaf Traddodiadol*** | | | | |
| Seilwaith Gwyrdd | 1,402 | 0 | 0 | 0 |
| Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru | 13,000 | 15,000 | 25,000 | 25,000 |
| Atal Ymbelydredd a Llygredd | 17,095 | 5,000 | 2,150 | 300 |
| **CYFANSWM** | **31,497** | **20,000** | **27,150** | **25,300** |

Mae gan Lywodraeth Cymru ddyletswyddau statudol i leihau allyriadau carbon i gyflawni'r ymrwymiad sero net erbyn 2050, ynghyd â chyfres o dargedau interim ar gyfer cyfanswm yr allyriadau a'r ymrwymiadau sy'n gysylltiedig â chynhyrchu mwy o ynni adnewyddadwy. Gwaith yr isadran ynni yw cefnogi'r dyletswyddau statudol hyn a manteisio i'r eithaf ar y gwerth economaidd a chymdeithasol o fuddsoddiad ynni adnewyddadwy yng Nghymru.

**Llinell Wariant yn y Gyllideb** 2809 Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru - Nod y buddsoddiad hwn yw cefnogi cyrff cyhoeddus i ymgymryd â phrosiectau effeithlonrwydd ynni ac ynni adnewyddadwy, gydag ad-daliadau'r buddsoddiad hwnnw yn cael eu gwneud o'r arbedion a wnaed neu'r incwm sy'n deillio o'r prosiectau. Yna caiff yr ad-daliadau hyn eu hailgylchu i fuddsoddiadau pellach.

**Llinell Wariant yn y Gyllideb** 2817 Atal Ymbelydredd a Llygredd - Mae'r BEL hwn yn cefnogi'r gwaith polisi a deddfwriaethol mewn perthynas ag ansawdd aer, cemegion, sŵn amgylcheddol, llygredd diwydiannol ac ymbelydredd/gwastraff ymbelydrol. Mae hyn yn cynnwys gweithredu deddfwriaeth gysylltiedig yn ôl yr angen i gyflawni'r mesurau polisi hynny. Mae hefyd yn ymdrin â rheoli achosion o dorri cyfraith Ewropeaidd, gan gynnwys rhai costau cyfreithiol, sy'n gysylltiedig â llygredd diwydiannol ac ansawdd aer.

**Llinell Wariant yn y Gyllideb** 3770 Ynni Glân - Mae'r BEL hwn yn cefnogi'r rhaglen Ynni Glân. Nod y rhaglen waith yw datblygu tystiolaeth i sefydlu llwybr ar gyfer datgarboneiddio system ynni Cymru, cynnwys rhanddeiliaid wrth ddatblygu a hyrwyddo'r canlyniadau polisi sy'n deillio o hynny a darparu gwasanaethau cymorth fel y gellir ei chyflawni, gan gynnwys y rhaglen Ynni Lleol a rhaglenni Gwasanaeth Ynni a Byw'n Glyfar newydd Llywodraeth Cymru.

**Llinell Wariant yn y Gyllideb** 3771 Gweithredu ar y Newid yn yr Hinsawdd - Mae'r BEL hwn yn cefnogi'r Rhaglen Datgarboneiddio i ddatblygu'r Cynllun Cyflawni Carbon Isel nesaf. Bydd gwaith yn cael ei gomisiynu ar gyfer ymchwil a thystiolaeth i gefnogi'r cynllun, ynghyd ag amrywiaeth o gynhyrchion cyfathrebu ac ymgysylltu. Mae hefyd yn cynnwys cymorth i ddatblygu atebion integredig arloesol a chlyfar i faterion sy'n seiliedig ar le gan ddefnyddio fector aml-ynni a seilwaith a thechnoleg aml-sector, prosesau a dull systemau. Mae'r BEL hefyd yn cwmpasu'r Cynllun Masnachu Allyriadau a fydd yn gweithredu rhwymedigaethau Llywodraeth Cymru ar ôl sefydlu cynllun ETS sy'n gysylltiedig â'r DU, yn dilyn ymadael â'r UE.

**Cam Gweithredu datblygu a gweithredu polisi a deddfwriaeth ynglŷn â'r perygl o lifogydd a'r perygl i'r arfordir, dŵr a charthion**

| Llinell Wariant yn y Gyllideb | Cyllideb Derfynol 2021-22 £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2022-23 £'000 | Newid £'000 | % Newid | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2023-24 £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2024-25 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Rheoli Risg Llifogydd a Refeniw Dŵr | 29,415 | 41,415 | 12,000 | 41% | 51,165 | 60,215 |
| **Cyfanswm yr Adnodd** | **29,415** | **41,415** | **12,000** | **41%** | **51,165** | **60,215** |

| Llinell Wariant yn y Gyllideb | Cyllideb Derfynol 2021-22 £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2022-23 £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2023-24 £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2024-25 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| ***Cyfalaf Traddodiadol*** | | | | |
| Rheoli Risg Llifogydd a Refeniw Dŵr | 45,500 | 67,100 | 60,000 | 59,300 |
| **CYFANSWM** | **45,500** | **67,100** | **60,000** | **59,300** |

Mae'r Llinell Wariant yn y Gyllideb hon i raddau helaeth yn ariannu Awdurdodau Rheoli Risg Cymru wrth iddynt ymgymryd â gweithgareddau megis cynnal a chadw asedau, gwaith codi ymwybyddiaeth, mapio ymchwiliadau i lifogydd (adroddiadau Adran 19), rhybuddio a hysbysu a chostau staff, y Rhaglen Rheoli Risgiau Arfordirol a Chyllid i ALlau a CNC.

**Cam Gweithredu cyflawni polisïau cadwraeth natur a choedwigaeth a gwella'r amgylchedd lleol**

| Llinell Wariant yn y Gyllideb | Cyllideb Derfynol 2021-22 £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2022-23 £'000 | Newid £'000 | % Newid | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2023-24 £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2024-25 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ansawdd yr Amgylchedd Lleol | 449 | 949 | 500 | 111% | 949 | 949 |
| Cynnwys Cymunedau | 60 | 0 | (60) | -100% | 0 | 0 |
| Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi | 1,500 | 1,500 | 0 | 0% | 1,500 | 1,500 |
| Galluogi Adnoddau Naturiol | 4,274 | 4,274 | 0 | 0% | 4,274 | 4,274 |
| Bioamrywiaeth, Tystiolaeth ac Iechyd Planhigion | 6,625 | 13,625 | 7,000 | 106% | 14,625 | 14,625 |
| Coedwigaeth | 1,221 | 5,221 | 4,000 | 328% | 9,221 | 13,221 |
| Gweithredu Deddf yr Amgylchedd | 731 | 791 | 60 | 8% | 791 | 791 |
| **Is-gyfanswm** | **14,860** | **26,360** | **11,500** | **77%** | **31,360** | **35,360** |
| **Adnodd Anghyllidol** | | | | | | |
| Coedwigaeth Anghyllidol | 83 | 83 | 0 | 0% | 83 | 83 |
| **Cyfanswm yr Adnodd** | **14,943** | **26,443** | **11,500** | **77%** | **31,443** | **35,443** |

| Llinell Wariant yn y Gyllideb | Cyllideb Derfynol 2021-22 £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2022-23 £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2023-24 £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2024-25 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| ***Cyfalaf Traddodiadol*** | | | | |
| Galluogi Adnoddau Naturiol | 6,423 | 2,000 | 2,000 | 500 |
| Bioamrywiaeth, Tystiolaeth ac Iechyd Planhigion | 21,000 | 20,000 | 25,000 | 25,000 |
| Coedwigaeth | 4,500 | 9,000 | 23,000 | 25,000 |
| **CYFANSWM** | **31,923** | **31,000** | **50,000** | **50,500** |

**Llinell Wariant yn y Gyllideb** 2191 Ansawdd yr Amgylchedd Lleol - Mae'r BEL hwn yn darparu rhaglen waith sy'n canolbwyntio ar wella amgylchedd lleol cymunedau, targedu materion megis plastigau untro a lleihau sbwriel, tipio anghyfreithlon, baeddu gan gŵn a mathau eraill o ymddygiad gwrthgymdeithasol amgylcheddol. Mae hefyd yn ymdrin â materion sy'n peri pryderon i iechyd y cyhoedd, megis tir halogedig.

**Llinell Wariant yn y Gyllideb** 2192 Cynnwys Cymunedau – Nid oes angen y BEL hwn mwyach; roedd y gyllideb yn arfer bod yn gyllid ar gyfer Cynefin, sef cynllun sydd bellach wedi cau. Mae MAs blaenorol wedi gofyn am drosglwyddo'r cyllid refeniw hwn i Weithredu Deddf yr Amgylchedd (BEL 2837), i helpu i ariannu Eco-Sgolion. Unwaith y bydd y cyllid wedi'i drosglwyddo yn y Gyllideb Derfynol, bydd y BEL yn cael ei archifo.

**Llinell Wariant yn y Gyllideb** 2195 Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi – Mae'r BEL hwn yn darparu grantiau ar gyfer prosiectau cymunedol sy'n cefnogi bioamrywiaeth, lleihau gwastraff, dargyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi a gwelliannau amgylcheddol ehangach.

**Llinell Wariant yn y Gyllideb** 2832 Galluogi Adnoddau Naturiol - Mae'r BEL hwn wedi'i ddylunio i gyflawni amrywiaeth o ganlyniadau a manteision lluosog a fydd yn cefnogi ac yn cyfrannu at strategaeth a pholisi allweddol Llywodraeth Cymru, yn benodol Ffyniant i Bawb, y Polisi Adnoddau Naturiol a Cymru Iachach. Bydd y gweithgareddau a'r prosiectau penodol a gefnogir gan y Grant yn helpu i gyflawni amryw o bolisïau yn uniongyrchol, gan gynnwys Cymru Ddi-dipio, y Cynllun Gweithredu Adfer Natur a'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Pryfed Peillio.

**Llinell Wariant yn y Gyllideb** 2825 Bioamrywiaeth, Tystiolaeth ac Iechyd Planhigion – Mae'r BEL hwn yn canolbwyntio ar bum maes craidd sy'n adlewyrchu blaenoriaethau allweddol yn ein Cynllun Gweithredu Adfer Natur: Cronfa Meithrin Gallu y Sector Amgylcheddol, Cronfa Adferiad Gwyrdd ar gyfer y rhwydwaith safleoedd gwarchodedig, Tasglu Bioamrywiaeth, Cytundebau Rheoli Tir, Pryfed Peillio

**Llinell Wariant yn y Gyllideb** 2827 Coedwigaeth – Mae'r Llinell Wariant yn y Gyllideb hon yn ariannu gwaith ar brosiectau arddangoswyr, gwaith ar ystadau coetir Llywodraeth Cymru, gwaith ar Fodel Cyflenwi'r Goedwig Genedlaethol a gwaith ar ddatblygu Polisi Coedwigaeth.

**Llinell Wariant yn y Gyllideb** 2837 Gweithredu Deddf yr Amgylchedd - Diben y Llinell Wariant yn y gyllideb hon yw cefnogi ymrwymiad Gweinidogion i weithredu'r rhaglen Eco-Sgolion ryngwladol ledled Cymru, ymrwymiad Gweinidogion i'r rhaglen addysgol plannu coed a newid hinsawdd a ddarperir gan elusen Maint Cymru a'r rhaglen waith i helpu i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a gweithredu Deddf yr Amgylchedd.

## Cam Gweithredu noddi a rheoli cyrff cyflawni

| Llinell Wariant yn y Gyllideb | Cyllideb Derfynol 2021-22 £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2022-23 £'000 | Newid £'000 | % Newid | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2023-24 £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2024-25 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfoeth Naturiol Cymru | 59,717 | 59,717 | 0 | 0% | 59,717 | 59,717 |
| **Is-gyfanswm** | **59,717** | **59,717** | **0** | **0%** | **59,717** | **59,717** |
| **Adnodd Anghyllidol** | | | | | | |
| Adnodd Anghyllidol CNC | 10,000 | 10,000 | 0 | 0% | 10,000 | 10,000 |
| **Cyfanswm yr Adnodd** | **69,717** | **69,717** | **0** | **0%** | **69,717** | **69,717** |

| Llinell Wariant yn y Gyllideb | Cyllideb Derfynol 2021-22 £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2022-23 £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2023-24 £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2024-25 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| ***Cyfalaf Traddodiadol*** | | | | |
| Cyfoeth Naturiol Cymru | 966 | 2,400 | 2,400 | 2,400 |
| **CYFANSWM** | **966** | **2,400** | **2,400** | **2,400** |

Mae'r **Llinell Wariant yn y Gyllideb** hon yn darparu Cymorth Grant i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Ochr yn ochr ag ystod eang o gyfrifoldebau gweithredol a rheoleiddiol, CNC yw prif gynghorydd Llywodraeth Cymru. Mae CNC yn helpu i gyflawni ystod eang o flaenoriaethau ac ymrwymiadau gweinidogol megis lliniaru ac addasu ar gyfer y newid yn yr hinsawdd. Mae gweithgareddau CNC hefyd yn cefnogi'r nodau llesiant, gan gynnwys gwella'r amgylchedd i gynnal Cymru gydnerth, cefnogi menter a swyddi i hyrwyddo Cymru ffyniannus, gwella iechyd y genedl, cefnogi lleoedd hyfyw a bywiog a darparu cyfiawnder cymdeithasol.

## Cam Gweithredu Gwella Effeithlonrwydd Adnoddau a Chefnogi'r Newid i Economi Gylchol

| Llinell Wariant yn y Gyllideb | Cyllideb Derfynol 2021-22 £’000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2022-23 £’000 | Newid £’000 | % Newid | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2023-24 £’000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2024-25 £’000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Effeithlonrwydd Adnoddau ac Economi Gylchol | 45,316 | 50,316 | 5,000 | 11% | 50,316 | 50,316 |
| **Cyfanswm yr Adnodd** | **45,316** | **50,316** | **5,000** | **11%** | **50,316** | **50,316** |

| Llinell Wariant yn y Gyllideb | Cyllideb Derfynol 2021-22 £’000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2022-23 £’000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2023-24 £’000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2024-25 £’000 |
|---|---|---|---|---|
| ***Cyfalaf Traddodiadol*** | | | | |
| Effeithlonrwydd Adnoddau ac Economi Gylchol | 37,500 | 40,000 | 60,000 | 60,000 |
| **CYFANSWM** | **37,500** | **40,000** | **60,000** | **60,000** |

Mae cyllideb yr is-adran Effeithlonrwydd Adnoddau a’r Economi Gylchol yn cefnogi’n uniongyrchol y gwaith o gasglu a phrosesu gwastraff ac ailgylchu fel sector allweddol. Mae’n parhau i gefnogi’r newid i economi gylchol, a all gefnogi gwelliannau o ran cydnerthedd y gadwyn gyflenwi yn ogystal â bod yn rhan greiddiol o ymagwedd ehangach Llywodraeth Cymru at Adferiad Gwyrdd. Rydym yn gweithio’n agos gyda chyrff cyflawni i flaenoriaethu a sicrhau bod yr ymateb yn y maes hwn i bobl Cymru yn amserol ac yn cael effaith sy’n cyfrannu at ganlyniadau gwell yn y tymor hwy. *Mae Rhaglenni a Chynlluniau Ariannu yn cynnwys:*

*Ffioedd clwyd: Rhaglen Caffael Seilwaith Gwastraff Llywodraeth Cymru;*
*Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy (SWMG);*
*Rhaglen Newid Gydweithredol;*
*Rhaglen Gwella Gwastraff*

Mae’r Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys amryw o ymrwymiadau i Effeithlonrwydd Adnoddau a’r Economi Gylchol sy’n adeiladu ar y camau gweithredu allweddol o fewn strategaeth economi gylchol Mwy nag Ailgylchu. Mae’r camau hyn yn ymwneud yn bennaf â chefnogi mwy o ailddefnyddio, atgyweirio ac ailgylchu yng nghanol trefi; cefnogi newid diwylliant a diwylliant diwastraff a bwrw ymlaen â chyfrifoldeb estynedig cynhyrchwyr. Bydd trefniadau cyllideb y flwyddyn nesaf yn canolbwyntio ar gyflawni’r rhain.

**Cam Gweithredu hyrwyddo a chefnogi tirweddau gwarchodedig, mynediad ehangach i fannau gwyrdd**

| Llinell Wariant yn y Gyllideb | Cyllideb Derfynol 2021-22 £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2022-23 £'000 | Newid £'000 | % Newid | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2023-24 £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2024-25 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Tirwedd a Hamdden Awyr Agored | 11,416 | 12,416 | 1,000 | 9% | 12,416 | 12,416 |
| **Cyfanswm yr Adnodd** | **11,416** | **12,416** | **1,000** | **9%** | **12,416** | **12,416** |

| Llinell Wariant yn y Gyllideb | Cyllideb Derfynol 2021-22 £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2022-23 £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2023-24 £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2024-25 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| ***Cyfalaf Traddodiadol*** | | | | |
| Tirwedd a Hamdden Awyr Agored | 8,900 | 5,000 | 5,000 | 5,000 |
| **CYFANSWM** | **8,900** | **5,000** | **5,000** | **5,000** |

Mae'r Llinell Wariant yn y Gyllideb hon yn darparu cyllid craidd i'r 3 Awdurdod Parc Cenedlaethol. Mae'n darparu cyfraniad Llywodraeth Cymru at gynnal a hyrwyddo Llwybr Arfordir Cymru ac yn darparu'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy ar gyfer Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE). Mae hefyd yn ariannu amryw o raglenni, gwasanaethau ac ymyriadau i gyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a'r Prif Weinidog o ran mynediad a hamdden, mannau gwyrdd a rhandiroedd.

**Cam Gweithredu Adfer, Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Morol**

| Llinell Wariant yn y Gyllideb | Cyllideb Derfynol 2021-22 £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2022-23 £'000 | Newid £'000 | % Newid | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2023-24 £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2024-25 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Polisi Morol, Tystiolaeth a Chyllid | 1,911 | 1,911 | 0 | 0% | 1,911 | 1,911 |
| **Cyfanswm yr Adnodd** | **1,911** | **1,911** | **0** | **0%** | **1,911** | **1,911** |

Mae'r Llinell Wariant yn y Gyllideb hon yn gyfrifol am fonitro'r gwaith o weithredu Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (WNMP), yn ogystal â chyflawni rhai polisïau penodol o dan WNMP. Cyhoeddwyd WNMP yn 2019 ac mae'n amlinellu'r weledigaeth ar gyfer rhanbarthau'r glannau a'r môr fel moroedd ac arfordiroedd sy'n lân, yn iach, yn ddiogel, yn gynhyrchiol ac yn fiolegol amrywiol.

**Cam Gweithredu Cynllunio a Rheoleiddio**

| Llinell Wariant yn y Gyllideb | Cyllideb Derfynol 2021-22 £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2022-23 £'000 | Newid £'000 | % Newid | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2023-24 £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2024-25 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwariant Cynllunio a Rheoleiddio | 5,096 | 5,096 | 0 | 0% | 5,096 | 5,096 |
| **Cyfanswm yr Adnodd** | **5,096** | **5,096** | **0** | **0%** | **5,096** | **5,096** |

## 4.1 Yr Amgylchedd, Ynni a Chynllunio

**Cynllunio**

**Ariannu Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru a sut mae hyn yn wahanol i'r modd yr ariannwyd Arolygiaeth Gynllunio Cymru**

Mae £2.99 miliwn y flwyddyn o gyllid rhaglenni a dalwyd yn flaenorol i'r Arolygiaeth Gynllunio ar gyfer ymdrin ag apeliadau a gwaith achos cysylltiedig yng Nghymru wedi'i drosglwyddo'n llawn i Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru ("PEDW"). Rhagwelir y bydd y cyllid hwn yn bodloni gofynion gorbenion cyllid PEDW yn llawn, ar gyfer swyddogaethau statudol a gyflawnir ar ran Gweinidogion Cymru.

Mae rhai mathau o achosion a bennir gan PEDW ar ran Gweinidogion Cymru, gan gynnwys Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol ac archwilio CDLlau, yn denu ffi sy'n adennill cost darparu gwasanaethau ac yn gwneud y mathau hynny o achosion yn niwtral o ran cost i Weinidogion Cymru.

**Digon o adnoddau i alluogi awdurdodau cynllunio lleol i gyflawni eu swyddogaethau'n ddigonol**

Cododd Llywodraeth Cymru ffioedd cynllunio yn uwch na'r gyfradd chwyddiant lai na 18 mis yn ôl fel y gallai Awdurdodau Cynllunio Lleol ariannu a gwella eu swyddogaethau rheoli datblygiadau.

Mae'r gyllideb ddrafft yn rhoi digon o arian i Awdurdodau Lleol ariannu gweithgareddau craidd. Yr awdurdodau lleol sydd i benderfynu sut i ddyrannu eu cyllidebau rhwng y gwasanaethau y maent yn gyfrifol amdanynt.

Comisiynodd Llywodraeth Cymru ymchwil i ddarparu strwythur ffioedd mwy cynaliadwy, sy'n adlewyrchu ac yn ymateb i gostau a heriau sy'n newid. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried y ffordd orau i weithredu'r ymchwil hon er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau hynny'n cael eu cefnogi a'u gwella yn y dyfodol.

**Yr Amgylchedd**

**Cyflawni'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur, gan gynnwys rheoli a monitro'r Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol**

Bydd y buddsoddiad hwn yn helpu'n uniongyrchol i fynd i'r afael ag uchelgais y Rhaglen Lywodraethu i fynd i'r afael â'r argyfyngau natur a hinsawdd, gan sicrhau hefyd ein bod yn cyflawni ein hymrwymiadau rhyngwladol presennol a rhai sy'n datblygu ar gyfer bioamrywiaeth. Bydd yn cyfrannu'n uniongyrchol at gyflawni blaenoriaethau a chamau gweithredu allweddol a nodwyd yn ein Cynllun Gweithredu Adfer Natur (NRAP - https://llyw.cymru/cynllun-gweithredu-adfer-natur) sy'n ymwneud â diogelu ein cynefinoedd a'n rhywogaethau o bwys a chreu rhwydweithiau ecolegol cydnerth.

Bydd y Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol yn elwa ar gyllid drwy ddarpariaeth ein Rhaglen Rhwydweithiau Natur (NNP) dros y 3 blynedd nesaf sy'n allweddol i wella cyflwr a chysylltedd ein safleoedd daearol a morol gwarchodedig, gan greu rhwydweithiau ecolegol cydnerth a fydd yn caniatáu i'n cynefinoedd a'n rhywogaethau sydd mewn perygl ffynnu. Bydd hefyd yn helpu i gyflwyno natur i ble bynnag mae pobl yn byw drwy ymgysylltu â chymunedau lleol, gan feithrin gallu o fewn y sector i helpu i weithredu ar lawr gwlad, nid yn unig er budd ein hamgylchedd ond hefyd er budd ein hiechyd a'n llesiant. Bydd monitro a gwerthuso cadarn yn rhan annatod o'r Rhaglen Rhwydweithiau Natur.

Yn dilyn y cyfnod dylunio, bydd mecanweithiau i gyflwyno'r Rhaglen Rhwydweithiau Natur yn cael eu datblygu yn gynnar yn 2022, gan adeiladu ar lwyddiant mentrau presennol megis y Gronfa Rhwydweithiau Natur a chyflawni Cytundebau Rheoli Tir gan CNC.

**Disodli cyllid EU LIFE yn dilyn ymadawiad y DU o'r UE**

Bydd arian cyfatebol ar gael ar gyfer 2 brosiect llwyddiannus a arweinir gan CNC (Corsydd crynedig a Rivers4LIFE) o rownd derfynol cyllid EU LIFE dros y 3 blynedd nesaf, gan helpu ymhellach i adfer ein rhwydwaith safleoedd gwarchodedig a chyfrannu at fynd i'r afael â'r argyfyngau natur a hinsawdd.

Nid yw Llywodraeth y DU wedi darparu unrhyw gyllid i gymryd lle EU LIFE, sy'n golygu nad yw wedi anrhydeddu ei haddewid 'na fydd Cymru'r un geiniog ar ei cholled' ar ôl ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig ar unrhyw gynllun newydd posibl a allai weithredu ar lefel y DU. Nid yw'n glir ar hyn o bryd sut y byddai unrhyw gynllun newydd posibl yn cael ei ariannu.

**Datblygu'r Parc Cenedlaethol newydd**

Mae'r gyllideb yn darparu cyllid i helpu i gyflawni ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i ddynodi Parc Cenedlaethol newydd ar gyfer Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy.

Mae dynodi Parc Cenedlaethol yn ymgymeriad sylweddol a bydd y cyllid hwn yn galluogi Cyfoeth Naturiol Cymru, ein cynghorwyr statudol yn y maes hwn, i ymgymryd â'r rhaglen angenrheidiol.

Mae CNC wedi dechrau ar y gwaith o baratoi proses wedi'i diweddaru a'i symleiddio ar gyfer asesu'r achos dros ddynodiadau tirwedd newydd yng Nghymru yng nghyd-destun deddfwriaeth Cymru.

Ochr yn ochr â hyn, bydd CNC yn datblygu'r sylfaen dystiolaeth sydd ei hangen i lywio'r asesiad o'r achos dros ddynodi Parc Cenedlaethol newydd.

Bydd CNC hefyd yn datblygu proses ymgysylltu ac ymgynghori i sicrhau bod gan yr holl randdeiliaid lais.

**Cyflwyno'r Cynllun Aer Glân**

Nod y Cynllun Aer Glân i Gymru: Awyr Iach, Cymru Iach yw gwella ansawdd aer a lleihau effeithiau llygredd aer ar iechyd pobl, ar fioamrywiaeth, ar yr amgylchedd naturiol ac ar ein heconomi. Mae'r Cynllun yn pennu llwybr 10 mlynedd ar gyfer sicrhau aer glanach, wedi'i strwythuro o gwmpas pedair thema graidd:-

- Pobl – diogelu iechyd a llesiant cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol
- Yr amgylchedd - Cymryd camau i gefnogi ein hamgylchedd naturiol, ein hecosystemau a'n bioamrywiaeth
- Llewyrch - Gweithio gyda diwydiant i leihau allyriadau, gan helpu i greu Cymru lanach a mwy llewyrchus
- Lle - Creu lleoedd cynaliadwy drwy wella prosesau cynllunio, seilwaith a thrafnidiaeth

Rydym yn ymgymryd ag ystod eang o waith gydag adrannau a sectorau'r Llywodraeth, a'r cyhoedd, i fwrw ymlaen â'r camau uchelgeisiol yn y Cynllun.

Bydd cyllid yn helpu i gyflawni ymrwymiadau allweddol, gan gynnwys datblygu targedau ansawdd aer newydd, cyflwyno gwasanaeth monitro ac asesu ansawdd aer newydd i gefnogi camau gweithredu wedi'u targedu i wella ansawdd aer, a gwelliannau i'r drefn Rheoli Ansawdd Aer Lleol.

Bydd mesurau yn y Cynllun hefyd yn helpu i gyflawni ymrwymiadau lleihau allyriadau'r DU ar gyfer pob llygrydd yn 2020 a 2030, a bydd yn cefnogi ein nodau datgarboneiddio.

Bydd y cyllid ychwanegol yn cefnogi cyflwyno Deddf Aer Glân i Gymru, sy'n cyd-fynd â chanllawiau Sefydliad Iechyd y Byd, a bydd hefyd yn golygu bod modd cyflwyno gwasanaeth monitro ac asesu ansawdd aer gwell. Bydd yr ymrwymiadau'n gwella gallu llywodraeth genedlaethol a llywodraeth leol i fynd i'r afael ag ansawdd aer gwael. Bydd mesurau i bennu targedau cyfreithiol rwymol ac i reoli allyriadau yn sbarduno

gwelliannau i reolaeth ansawdd aer, gan ddarparu manteision uniongyrchol i iechyd y cyhoedd, cynefinoedd a bioamrywiaeth.

**Gweithredu'r Strategaeth Coetiroedd i Gymru, gan gynnwys Strategaeth y Goedwig Genedlaethol**

Ar 12 Mawrth 2020, lansiodd y Prif Weinidog Raglen y Goedwig Genedlaethol yn swyddogol. Disgrifiodd uchelgais ar gyfer Coedwig Genedlaethol sy'n ymestyn ar hyd a lled Cymru; a all gyflwyno cyfleoedd di-ri drwy blannu, tyfu a diogelu coed: cyfrannu at nodau datgarboneiddio a'r argyfwng newid hinsawdd; atal dirywiad bioamrywiaeth; gwella iechyd a llesiant ein pobl; cefnogi gweithgarwch busnes masnachol.

Yn y gyllideb hon, byddwn yn bwrw ymlaen â'r dysgu a gafwyd yn ystod 2 flynedd gyntaf y rhaglen, gan gynnwys drwy greu 30 o ardaloedd newydd o'r Goedwig Genedlaethol. Byddwn hefyd yn cynnig coeden i bob aelwyd yng Nghymru, un y gallant ei phlannu neu y gellir ei phlannu ar eu rhan, ac yn creu 100 o Goedwigoedd Bach. Bydd hyn yn ychwanegu at yr 14 safle enghreifftiol sydd gennym eisoes.

Mae'r Goedwig Genedlaethol yn ddull Cymru gyfan sy'n seiliedig ar gyfres o 6 chanlyniad sy'n gweithredu fel egwyddorion arweiniol y Goedwig Genedlaethol. Bydd angen i goetiroedd fodloni'r tri maen prawf hanfodol ac o leiaf un maen prawf dymunol iawn i fod yn Rhwydwaith y Goedwig Genedlaethol. Ei brif nod yw cysylltu coetiroedd ledled Cymru a gwella manteision amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd i genedlaethau'r dyfodol. Bydd ymgynghoriad yn cael ei lansio ym mis Ionawr 2022 i ymgynghori ar strategaeth hirdymor y Goedwig Genedlaethol

Ar 13 Gorffennaf 2021, cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd ddatganiad ysgrifenedig yn nodi ei ganfyddiadau yn sgil ymarfer at wraidd y mater ar sut i ddileu'r rhwystrau i blannu coed yng Nghymru, a sut y gallwn ddefnyddio mwy o bren o Gymru wrth adeiladu. Mae'r argymhellion yn cynnwys ffyrdd o gefnogi unigolion a chymunedau i blannu coed, cynllun ariannu newydd ar gyfer creu coetiroedd a strategaeth ddiwydiannol i gydgysylltu'r gadwyn gyflenwi pren a'r sectorau adeiladu.

Bydd y cyllid ychwanegol yn cefnogi ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i greu Coedwig Genedlaethol yn ymestyn o'r Gogledd i'r De. Bydd y Goedwig Genedlaethol yn creu ardaloedd o goetiroedd newydd ac yn helpu i adfer a chynnal rhai o goetiroedd hynafol unigryw Cymru. Ymhen amser, bydd yn ffurfio rhwydwaith cysylltiedig sy'n rhedeg ledled Cymru, a fydd yn cyflwyno manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

Mae hefyd yn darparu'r gyllideb i gyflawni'r ymrwymiad i greu strategaeth ddiwydiannol sy'n seiliedig ar bren a all ddatblygu a chynnal y broses o gynhyrchu a phrosesu pren Cymreig o werth uchel. Fel y nodwyd yn Cymru Sero Net, mae Llywodraeth Cymru am greu 43,000 hectar o goetir newydd erbyn 2030. Roedd yr adroddiad at wraidd y mater ar goed a phren a luniwyd yn gynharach eleni yn nodi camau i gyflawni hyn, gan gynnwys cynnig creu coetiroedd newydd i'w lansio yn 2022.

Bydd hyn yn cynnwys gweithio gyda'r gymuned ffermio i annog creu coetiroedd ar dir llai cynhyrchiol a thrwy amaeth-goedwigaeth, fel y nodir yn y Cytundeb Cydweithio.

**Gweithredu'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol, yn cynnwys y defnydd a wneir o'r Rhaglen Rheoli Risgiau Arfordirol**

Mae'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yn nodi sut y byddwn yn rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol dros y degawd nesaf gyda'r amcanion i flaenoriaethu buddsoddiad, gwella ein dealltwriaeth o risg, meithrin cydnerthedd, atal mwy o bobl rhag dod i gysylltiad â risg ac ymateb i ddigwyddiadau.

Bydd y cyllid ychwanegol yn helpu i gyflawni amcanion y Strategaeth hon, yn ogystal â chyfrannu at ein hymrwymiadau yn y Rhaglen Lywodraethu drwy fuddsoddi drwy ein Hawdurdodau Rheoli Risguay Arfordirol mewn amddiffynfeydd newydd a gwell, gwaith cynnal a chadw a gwaith bachi asedau presennol, ymchwilio i ddigwyddiadau llifogydd, gweithgareddau codi ymwybyddiaeth, rhagolygon a rhybuddion a mapio a modelu perygl llifogydd.

Bydd cyllid ychwanegol yn y gyllideb Llifogydd hefyd yn helpu i gyflawni'r cynlluniau yn y Rhaglen Rheoli Risgiau Arfordirol a fydd, pan fydd wedi'i chwblhau, yn lleihau'r risg o lifogydd a/neu erydu arfordirol i dros 17,400 o gartrefi a busnesau. Bydd hyn yn helpu i gyflawni bron i 40% o'n hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i ariannu amddiffynfeydd llifogydd ychwanegol ar gyfer mwy na 45,000 o gartrefi.

Bydd refeniw ychwanegol yn golygu bod modd sicrhau amddiffynfeydd rhag llifogydd ychwanegol ar gyfer mwy na 45,000 o gartrefi, y gellir darparu atebion sy'n seiliedig ar natur ym mhob dalgylch mawr yng Nghymru a bod modd sefydlu cynllun wedi'i dargedu i gefnogi'r gwaith o adfer cynefinoedd morwellt a morfeydd heli ar hyd ein harfordir.

**Mentrau i leihau llygredd plastig, gan gynnwys datblygu Cynllun Dychwelyd Ernes a Chyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr (EPR) ar gyfer pecynnu plastig**

Bydd ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i gyflwyno diwygiadau estynedig o ran cyfrifoldeb cynhyrchwyr yn canolbwyntio i gychwyn ar fesurau i fynd i'r afael â gwastraff pecynnu a chynllun dychwelyd blaendal ar gyfer cynwysyddion diodydd. Mae dyraniad y gyllideb ar gyfer y gweithgaredd hwn yn cynnwys cyllid ar gyfer cwblhau'r gwaith o ddatblygu polisi, ynghyd â chymorth i awdurdodau lleol a Cyfoeth Naturiol Cymru y bydd hi'n ofynnol iddynt addasu ac, yn achos Cyfoeth Naturiol Cymru, ymgymryd â dyletswyddau newydd fel prif reoleiddiwr y diwygiadau hyn.

**Datblygu trefniadau llywodraethu amgylcheddol parhaol, a gwaith Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd**

Rydym wedi bod yn glir yn ein hymrwymiad i gymhwyso'r egwyddorion amgylcheddol i bolisi a deddfu; sefydlu corff goruchwylio amgylcheddol i Gymru; a chyflwyno dyletswydd a thargedau statudol i ddiogelu ac adfer bioamrywiaeth yng Nghymru.

Bydd y gyllideb yn cael ei dyrannu o fewn Llinell Wariant yn y Gyllideb yr Amgylchedd, Deddfwriaeth a Llywodraethu ar gyfer datblygu mesurau llywodraethu amgylcheddol parhaol. Telir y costau a ysgwyddir ar gyfer Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd o BEL Ymadael â'r UE. Mae'r mesurau interim hyn yn darparu llwybr i bobl godi pryderon ar sut y gweithredir cyfraith amgylcheddol.

**Cyflwyno Cynllun Rheoli'r Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig**

Bydd dyraniadau cyllidebol i gefnogi rheolwyr Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn debyg i gyllideb y llynedd, heb unrhyw ostyngiadau wedi'u rhagweld. Mae camau gweithredu arfaethedig yn parhau i gael eu gwahodd yn flynyddol a, lle bo'n briodol, gellir eu hystyried ar gyfer cyllid drwy Gynllun Grant Rheoli'r Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig. Bydd y camau a dderbynnir yn bodloni'r meini prawf a nodir yn Fframwaith Rheoli Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cymru 2018-2023 a bydd yn cyflawni yn erbyn ymrwymiadau ehangach y Rhaglen Lywodraethu i wella cydnerthedd yr amgylchedd morol.

**Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)**

Mae cyllideb CNC ar gyfer 2022/23 yn cynnwys mân newidiadau o gymharu â'r gyllideb ar gyfer 2021-22. Ni fu unrhyw newid yn y Cymorth Grant craidd (GIA) (£60 miliwn) ar gyfer CNC yn 2021-22 gan fod swyddogion CNC a Llywodraeth Cymru wrthi'n cynnal ymarfer sy'n archwilio'r broses o ddyrannu adnoddau CNC yn erbyn ei swyddogaethau statudol ac ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu. Bydd yr ymarfer hwn yn llywio sut mae CNC yn dyrannu ei gyllid i gyflawni ei rwymedigaethau statudol a chyflawni blaenoriaethau Gweinidogion ar gyfer y flwyddyn i ddod (2022-23) a gweddill tymor presennol y Llywodraeth. Byddaf yn gweithio'n agos gyda CNC dros y misoedd nesaf ar y mater hwn i sicrhau bod y cyllid yn ddigonol i hybu eu hymdrechion i fynd i'r afael â newid hinsawdd a'i effaith yng Nghymru. Gwneir hyn trwy gynhyrchu mwy o ynni adnewyddadwy ar dir sector cyhoeddus a rheoli llifogydd yn fwy naturiol.

Dyrannwyd cyfalaf ychwanegol o £1.5 miliwn i CNC (cyfanswm o £2.4 miliwn) y flwyddyn nesaf i helpu i gefnogi cyllid ar gyfer cronfeydd dŵr Cymru, sy'n gynnydd sylweddol mewn cyfalaf.

Un o heriau mwyaf Llywodraeth Cymru yw mynd i'r afael ag effeithiau newid hinsawdd. Mae'n hanfodol bod CNC yn parhau i ymateb i'n hargyfwng hinsawdd ac i'r uchelgais gynyddol o sicrhau gostyngiadau mewn allyriadau o 95% o leiaf. Gyda CNC ar flaen y gad, nod gweithredu ar draws sawl sector yw ceisio sicrhau y bydd amgylchedd Cymru yn gallu gwrthsefyll effeithiau newid hinsawdd yn well.

Byddwn yn ystyried y cais gan CNC, ynghyd â'u hadolygiad o lifogydd 2020 sy'n nodi'r angen am gyllid ychwanegol. Rhaid ystyried hyn ochr yn ochr ag anghenion ein hawdurdodau lleol a'r gwaith o reoli perygl llifogydd ac arfordiroedd yn ehangach i gefnogi ein cymunedau.

Rydym yn gobeithio bod mewn sefyllfa i allu darparu refeniw ychwanegol y flwyddyn nesaf i gefnogi'r gwaith hanfodol hwn. Byddwn yn edrych ar ddyraniadau mwy penodol dros y misoedd nesaf ac rydym yn gobeithio gallu darparu setliad 3 blynedd, gan ganiatáu i'n hawdurdodau rheoli risg gynllunio ymlaen llaw yn fwy effeithiol a helpu i gyflawni'r uchelgeisiau a nodir yn ein Strategaeth Genedlaethol.

Yn ogystal â Chymorth Grant, mae CNC yn derbyn incwm masnachol. Ymhellach, caiff CNC nifer o grantiau gan wahanol rannau o Lywodraeth Cymru, o un flwyddyn i'r llall, ar gyfer prosiectau sydd y tu hwnt i gwmpas y Cymorth Grant, megis;

**Y Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd** (NPAP) - rhaglen 5 mlynedd (2020-2025) a ariennir gan Lywodraeth Cymru ac a ddarperir gan CNC. Y dyraniad cyllideb i CNC ar gyfer cyflawni Blwyddyn 3 (2022/23) yr NPAP yw: -

1. £**1,000,000** = Gwariant <u>cyfalaf</u> ar weithgarwch adfer mawndiroedd ar oddeutu 600-800 hectar

2. **£500,000** = Cyllid <u>refeniw</u> ar gyfer i) y tîm penodedig o 6 sy'n cyflawni'r NPAP yn CNC; ii) prosiectau ymchwil a thystiolaeth mawndiroedd i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r NPAP.

Nod yr NPAP yw cynyddu cydnerthedd ecosystemau mawndiroedd Cymru ac, wrth wneud hynny, gyfrannu at helpu i fynd i'r afael â'r Argyfyngau Hinsawdd a Natur yn ogystal â chyfrannu at gyflawni Sero Net.

Bydd £1.5 miliwn o arian cyfatebol yn cael ei ddarparu ar gyfer y 2 brosiect LIFE llwyddiannus a arweinir gan CNC (**Corsydd crynedig a Rivers for LIFE**) a phrosiect Natur am Byth am y 3 blynedd nesaf. Bydd y prosiectau hyn yn cyfrannu at helpu i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur.

Disgwylir i CNC dderbyn dyraniad i gyflawni cyfran o'r **rhaglen Rhwydweithiau Natur** (NNP) dros y 3 blynedd nesaf. Mae'r swm i'w gadarnhau yn amodol ar ganlyniadau'r cyfnod dylunio.

Mae **dynodi Parc Cenedlaethol** yn ymgymeriad sylweddol a bydd cyllid i CNC yn eu galluogi i ymgymryd â'r rhaglen angenrheidiol.

**Meysydd eraill sydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor**

**Gweithredu argymhellion a wnaed gan y Tasglu Adferiad Gwyrdd**

Cafodd Grŵp Gorchwyl a Gorffen Adferiad Gwyrdd y dasg o nodi camau gweithredu ar gyfer Cynllun Adfer o Covid-19 Llywodraeth Cymru a datblygu cynllun a rennir i sefydlogi'r amgylchedd yn y trydydd sector, gan dynnu sylw at yr angen i gryfhau

cydnerthedd ariannol, llywodraethu ac ymgysylltiad cymunedol. Mewn perthynas â'r amcan cyntaf uchod, cyhoeddodd y Grŵp yr *Adroddiad Adferiad Gwyrdd: Blaenoriaethau ar gyfer Gweithredu* ar 3 Rhagfyr 2020 ac, yn 2020/2021, ariannodd Llywodraeth Cymru becyn o'r prosiectau blaenoriaeth hyn i gefnogi bioamrywiaeth, cyfanswm o £1.030 miliwn o gyfalaf a chyfanswm refeniw o £105,000. Ymrwymodd Llywodraeth Cymru gyfalaf ychwanegol o £4 miliwn a refeniw o £300,000 i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) ar 25 Chwefror 2021. Roedd y cyllid hwn i'w ddosbarthu i Awdurdodau Lleol ar gyfer prosiectau a oedd yn cyflawni yn erbyn pum blaenoriaeth yr adroddiad *Blaenoriaethau ar gyfer Gweithredu*. O dan yr ail amcan, cyhoeddodd y Grŵp yr adroddiad *Adferiad Gwyrdd: cefnogi'r sector amgylcheddol yng Nghymru*. Wedi hynny, bu Llywodraeth Cymru yn gweithio mewn partneriaeth gyda Chronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, gan lansio cynllun Meithrin Gallu gwerth £920,000 ar gyfer y sector amgylcheddol ym mis Tachwedd 2020.

Yn fwy diweddar, cyfarfu Syr David Henshaw â'r Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd ym mis Tachwedd 2021 i drafod camau nesaf y Grŵp, sy'n cynnwys datblygu achos busnes mewn perthynas â'r Gwasanaeth Natur Cenedlaethol. O fewn y gyllideb eleni, rydym wedi ehangu cyllid i feysydd perthnasol sy'n allweddol i gyflymu'r broses o gyflawni'r Adferiad Gwyrdd, megis Cronfa'r Economi Gylchol, a bwrw ymlaen â'r gwaith o gyflawni Cynllun Cymru Sero Net. Rydym hefyd am ddarparu buddsoddiad pellach, gan adeiladu ar y cynllun meithrin gallu sy'n helpu Sefydliadau Anllywodraethol Amgylcheddol (eNGOs) i gadw a datblygu gallu i gyfrannu'n effeithiol at eu gallu i fynd i'r afael â'r argyfyngau natur a hinsawdd.

**Cyflwyno Rhaglen Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru, gan gynnwys camau blaenoriaeth ar gyfer 2021-2023 a nodir yn ei Chynllun Trechu Tlodi Tanwydd, 2020–2035**

Mae cyllideb Cartrefi Clyd Tlodi Tanwydd yn mynd i'r afael yn uniongyrchol ag ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu, sef "Parhau i wella cartrefi presennol, gan ein helpu i fynd i'r afael â thlodi tanwydd, creu swyddi mawr eu hangen, cyfleoedd hyfforddi a chadwyni cyflenwi" ac yn cefnogi "Datgarboneiddio rhagor o gartrefi drwy ôl-osod, gan ddarparu swyddi o safon, hyfforddiant ac arloesedd a defnyddio cadwyni cyflenwi lleol."

Mae'r cyllid yn cefnogi'r Rhaglen Cartrefi Clyd (WHP), sef prif ymyriad Llywodraeth Cymru yn yr ymdrech i leihau tlodi tanwydd ers ei lansio yn 2009/10. Cyhoeddodd Gweinidogion Cymru gynllun statudol Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â thlodi tanwydd ym mis Mawrth 2021, a disgwylir i'r fersiwn bresennol o'r Rhaglen Cartrefi Clyd ddod i ben ym mis Mai 2023.

Bydd y fersiwn nesaf o'r Rhaglen Cartrefi Clyd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus a fydd yn agor ym mis Rhagfyr 2021.

**Cyflwyno rhaglenni ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd ynni'r sector cyhoeddus, gan gynnwys cyllid ar gyfer Gwasanaeth Ynni Cymru**

Mae'r gyllideb yn darparu cyfalaf a refeniw i gefnogi gweithrediad Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnig arbenigedd masnachol, ariannol a thechnegol i'r sector cyhoeddus a'r sector ynni lleol i ddatblygu cynlluniau effeithlonrwydd ynni ac ynni adnewyddadwy. Mae'r gwasanaeth hefyd yn ymgymryd â rôl arweinyddiaeth strategol ar draws y sectorau, gyda ffocws ar gynyddu uchelgais, gallu a galluogrwydd.

Mae'r ymrwymiad i ehangu cynhyrchiant ynni adnewyddadwy gan gyrff cyhoeddus a grwpiau cymunedol yng Nghymru dros 100MW erbyn 2026 yn ychwanegol at y targed o 1 gigawat o gynhyrchiant o dan berchnogaeth leol erbyn 2030. Bydd gwaith yn dechrau eleni i sefydlu swyddogaeth ddatblygu, Ynni Cymru, er mwyn ehangu cynhyrchiant ynni adnewyddadwy dan berchnogaeth y gymuned. Mae Strategaeth Gwireddu Buddion y rhaglen yn dangos y bydd yr uned yn sicrhau manteision refeniw ac amgylcheddol sylweddol i Gymru. Bydd dyraniadau'r gyllideb yn ein galluogi i sefydlu tîm bach i ddatblygu'r cysyniad o ddatblygwr cyhoeddus yng Nghymru, fel y disgrifir yn y Cytundeb Cydweithio, ac ochr yn ochr â datblygu nifer fach o brosiectau ar gyfer Llywodraeth Cymru i ddechrau, gan gefnogi cymunedau a chyrff cyhoeddus lle mae gallu yn her.

Mae Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru yn ymroi i gefnogi'r prosiectau hyn a gweithgarwch ehangach yn y sector cyhoeddus a'r gymuned i gynyddu cyfleoedd a graddfa ynni adnewyddadwy yng Nghymru. Mae'r Gwasanaeth yn darparu cymorth, cyngor ac arbenigedd i brosiectau, ynghyd â buddsoddiad sylweddol mewn prosiectau na fyddent yn ariannol hyfyw heb gymorth.

Mae'r cyllid hefyd yn cefnogi Rhaglen Ariannu Cymru sy'n darparu benthyciadau cyfalaf di-log i'r sector cyhoeddus, gyda benthyciadau masnachol a grantiau datblygu yn cael eu darparu i'r sector ynni lleol.

**Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru**

Yn ddiweddar, penododd y Dirprwy Weinidog Dr David Clubb fel Cadeirydd y Comisiwn Seilwaith. Cyn bo hir, bydd y Dirprwy Weinidog yn dechrau ar broses benodi gyhoeddus i adnewyddu aelodaeth y comisiwn.

Mae'r Cytundeb Cydweithio rhwng Llafur a Phlaid Cymru yn ymrwymo'r Comisiwn Seilwaith i asesu sut y gellir lleihau'r tebygolrwydd cenedlaethol o lifogydd mewn cartrefi, busnesau a seilwaith erbyn 2050.

Mae Dr Clubb wedi ysgrifennu at y Dirprwy Weinidog gyda chynigion ar gyfer rhaglen waith 3 blynedd. Yn y dyfodol agos, bydd hyn yn arwain at raglen waith wedi'i hariannu y cytunwyd arni rhwng y Dirprwy Weinidog a'r Cadeirydd.

Mae prosiectau a gynigiwyd gan Gomisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru yn cynnwys:

- her ynni adnewyddadwy; i'w hintegreiddio'n agos â chanlyniadau 'adroddiad at wraidd y mater' Llywodraeth Cymru i ynni adnewyddadwy

- y risgiau hirdymor i seilwaith, gan ganolbwyntio ar lifogydd ac erydu arfordirol, llifogydd afonydd ac effeithiau sy'n gysylltiedig â gwres; ac ar gyfer sectorau sy'n anodd eu haddasu (megis trafnidiaeth, ynni a thai)
- yr anghenion sgiliau hirdymor i gefnogi system ynni, tai a thrafnidiaeth wasgaredig y bydd angen iddi wrthsefyll neu adfer o effeithiau tywydd/hinsawdd sylweddol uwch
- sgwrs ranbarthol neu genedlaethol ar risgiau sy'n gysylltiedig â hinsawdd i amrywiaeth o gymunedau (arfordirol yn debygol), gan gyfeirio at Fairbourne a chymunedau eraill sy'n agored iawn i niwed fel enghraifft.

## 5.0 CYFLAWNI DIGIDOL – ARIANNU CAMAU GWEITHREDU

| Cyflawni'r Strategaeth Ddigidol | Cyllideb Derfynol 2021-22 £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2022-23 £'000 | Newid £'000 | % Newid | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2023-24 £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2024-25 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Adnodd Cyllidol | 4,900 | 4,900 | 0 | 0% | 4,900 | 4,900 |
| Adnodd Anghyllidol | 0 | 0 | 0 | | 0 | 0 |
| **Cyfanswm yr Adnodd** | **4,900** | **4,900** | **0** | **0%** | **4,900** | **4,900** |

| Llinell Wariant yn y Gyllideb | Cyllideb Derfynol 2021-22 £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2022-23 £'000 | Newid £'000 | % Newid | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2023-24 £'000 | Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2024-25 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol | 4,900 | 4,900 | 0 | 0% | 4,900 | 4,900 |
| **Cyfanswm yr Adnodd** | **4,900** | **4,900** | **0** | **0%** | **4,900** | **4,900** |

Mae ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i adeiladu "economi gryfach a gwyrddach wrth inni ddatgarboneiddio cymaint â phosibl" yn cynnwys camau i "gyflawni'r Strategaeth Ddigidol i Gymru". Mae'r strategaeth yn cynnwys camau gweithredu sy'n seiliedig ar Genadaethau eang, gan gynnwys: dylunio gwasanaethau o amgylch defnyddwyr, cynhwysiant, sgiliau, yr economi, cysylltedd a data. Gyda'i gilydd, bydd y Cenadaethau yn cyflawni trawsnewid digidol ledled Cymru i gyflawni'r weledigaeth a nodir yn y strategaeth.

Mae'r cyfrifoldeb dros gyflwyno'r Strategaeth Ddigidol i Gymru a'r Cynllun Cyflawni cysylltiedig yn fater trawsbortffolio. Darperir llawer o'r polisi digidol a'r gweithgarwch cyflawni ar draws portffolios Gweinidogion ond, gyda'i gilydd, maent yn cyfrannu at yr amcan cyffredinol o ddarparu a moderneiddio gwasanaethau fel eu bod wedi'u dylunio

o amgylch anghenion defnyddwyr ac yn syml, yn ddiogel ac yn gyfleus. Bydd dyraniadau cyffredinol cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru yn hwyluso datblygiad cyfres eang o gamau gweithredu, a nodir yn y Cynllun Cyflawni, ar draws pob Cenhadaeth.

Mae’r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol (CDPS) yn allweddol i gyflawni ein gweledigaeth drwy wella arweinyddiaeth a sgiliau digidol, yn ogystal â sbarduno trawsnewid mewn gwasanaethau cyhoeddus. Mae eisoes yn gwneud gwasanaethau cyhoeddus yn fwy cydgysylltiedig, yn fwy effeithiol ac yn sicrhau eu bod yn defnyddio safonau cyffredin. Bydd dyraniadau yn y gyllideb ddrafft o fewn y portffolio Newid Hinsawdd yn galluogi’r Ganolfan i gyflawni canlyniadau y cytunwyd arnynt a chynllunio ar gyfer gwaith tymor hwy yn seiliedig ar flaenoriaethau a nodwyd. Mae darparu sicrwydd cyllideb yn galluogi’r Ganolfan i barhau i weithio’n gyflym, gan ysgogi’r momentwm ar gyfer cydweithredu a thrawsnewid digidol ar draws gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

# Eitem 4

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Cyfarfod y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith– dydd Iau 20 Ionawr 2022.**

Craffu blynyddol ar waith Cyfoeth Naturiol Cymru:

# Cyfoeth Naturiol Cymru: Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2020-21

# Tystiolaeth
# Nodyn Briffio

## Pwyllgor Newid yn yr Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
## Craffu Blynyddol Adnoddau Naturiol Cymru - Ionawr 2022

**Diweddariad ar y briffio ar faterion allweddol a chynnydd a wnaed ers mis Rhagfyr 2020.**

**Cynnwys**


1. Cyflwyniad
2. Adfywio
3. Adferiad Gwyrdd
4. Ymarfer Gwaelodlin
5. COP 26 a COP Cymru
6. Parodrwydd ar gyfer y Gaeaf
7. Hela Trywydd
8. Ansawdd Dŵr
9. Y Bwrdd Recriwtio

**Cyflwyniad**
Mae'n bleser gennym ein bod wedi'n gwahodd i roi tystiolaeth gerbron y Pwyllgor Newid yn yr Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith. I gyd-fynd â manylion ein hadroddiad blynyddol, rydym wedi amlinellu isod rhai meysydd gwaith er mwyn diweddaru aelodau'r pwyllgor ar ein gweithgareddau diweddaraf.

**Ymateb ac Adfywio ar ôl COVID**
Yn dilyn penderfyniad Llywodraeth Cymru i symud i Rybudd Covid Lefel 0 ym mis Awst, gwnaethom ddiweddaru ein canllawiau adfer i staff er mwyn caniatáu hyblygrwydd cynyddol ar gyfer teithio rhwng swyddfeydd a chyfarfodydd dan do. Rydym yn parhau i ddiweddaru a dilyn ein Hasesiad Risg Swyddogaethol COVID i leihau'r risg parhaus a gwirioneddol o heintio. Yn unol â safbwynt Llywodraeth Cymru, rydym yn parhau i annog yr holl staff i weithio gartref lle bo modd iddynt wneud hynny.

Oherwydd y symudiad i Lefel 0, gwnaethom ryddhau'r Grŵp Ymateb, Adfer ac Adolygu Digwyddiadau Strategol, a wnaeth oruchwylio ein hymateb ar y cyd i'r pandemig o'r cychwyn. Wrth wneud hynny, gwnaethom adolygu unrhyw risgiau a phroblemau parhaus yr oedd y Grŵp Ymateb, Adfer ac Adolygu Digwyddiadau Strategol yn eu rheoli a sicrhau eu bod yn cael eu trosglwyddo naill ai i'r busnes perthnasol fel mecanweithiau arferol neu'r rhaglen Adfywio sy'n ystyried dulliau ffyrdd newydd o weithio yn y dyfodol yng ngoleuni COVID ac ymateb i argyfyngau'r hinsawdd a natur. Mae'r Grŵp Ymateb Tactegol COVID yn parhau i gwrdd yn rheolaidd i sicrhau bod unrhyw broblemau COVID newydd yn cael eu darlunio ac yr ymdrinnir â hwy ac rydym hefyd wedi cychwyn adolygiad digwyddiadau, a fydd yn ystyried effeithiolrwydd ein hymateb dros gyfnod y pandemig ac rydym hefyd yn asesu'r effaith y mae COVID wedi'i chael ar gyflawniad ein swyddogaethau dros y cyfnod hwnnw.

Ym mis Hydref, gwnaethom ddechrau ein treialon gweithio cymysg, gan ganolbwyntio ar Dŷ Cambria yng Nghaerdydd, Maes-y-ffynnon ym Mangor a'n swyddfeydd yn Crosshands. Yn dilyn y treial cychwynnol, byddwn yn ehangu'r treialon i gynnwys mwy o swyddfeydd a staff ac adolygu ein polisïau gweithio gartref / hyblyg, gyda golwg i gyflwyno newidiadau ffurfiol yn ddiweddarach yn 2022.Mae ail gam y treial cymysg wedi'i oedi oherwydd canllawiau gan Lywodraeth Cymru a ddyrannwyd ym mis Hydref sy'n gofyn i ni barhau i weithio gartref lle y bo'n bosib ac i oedi unrhyw ddychweliad cam wrth gam i swyddfeydd drwy gydol y gaeaf. O ganlyniad, mae'r treialon cymysg a'r symudiad tuag at 40% deiliadaeth wedi'u hoedi.

Gyda'r symudiad i Lefel Rhybudd 2 ym mis Rhagfyr, mae CNC wedi ymgymryd â safbwynt cadarn er mwyn diogelu ein staff a'n rhanddeiliaid i gynnwys atgyfnerthu'r neges Gweithio Gartref ac rydym yn gwneud popeth y gallwn i gefnogi ein staff i weithio yn y ffordd hon. Rydym yn cydnabod y gall fod sefyllfaoedd lle nad yw'n ddiogel nac yn ddichonadwy gweithio gartref, ac o ganlyniad i asesiadau risg parhaus, rydym wedi gweithredu camau lliniaru priodol.

Mae Bwrdd y Rhaglen Adfywio yn datblygu’n dda ac yn parhau i gymryd penderfyniadau perthnasol ac yn ymgymryd â chamau gweithredu yn lle'r Grŵp Ymateb, Adfer ac Adolygu Digwyddiadau Strategol. Mae'r Grŵp Ymateb Tactegol yn parhau i gwrdd yn rheolaidd i sicrhau bod unrhyw broblemau COVID-19 newydd yn cael eu cofnodi a'u trin. Mae'r Rhaglen yn datblygu strategaethau ar gyfer yr ystâd adeiledig a fflyd yn ogystal ag ystyried sut rydym yn gweithio gyda'n staff a'n cwsmeriaid yn y dyfodol.

Rydyn ni'n paratoi ein gwaelodlin ar gyfer costau Carbon ac Ariannol er mwyn mesur yn erbyn targedau i gael eu penderfynu ar ôl cyhoeddi strategaethau mannau a theithio. Mae cyflwyniadau cyllidebol yn cael eu paratoi a fydd yn cynnwys yr arian mae ei angen i ddatblygu gwaith cynllunio a blaenoriaethu a bydd hefyd yn nodi unrhyw ofynion buddsoddi i arbed posib wrth ystyried gwaredu, caffael neu welliannau o ran ein hystâd adeiledig a fflyd.

**Adferiad Gwyrdd**

Ar gais y Gweinidog blaenorol, fe wnaeth Cadeirydd CNC, Syr David Henshaw, ymgynnull Grŵp Gorchwyl a Gorffen Adferiad Gwyrdd annibynnol ym mis Mai 2020 i nodi blaenoriaethau ar gyfer camau gweithredu am adferiad gwyrdd gyda chyfiawnder cymdeithasol fel egwyddor arweiniol. Gofynnwyd i'r Grŵp hefyd ddatblygu cynllun a rennir i sefydlogi trydydd sector yr amgylchedd a dod ag amrywiaeth eang o bartneriaid aml-asiantaeth strategol ynghyd i ddatblygu a chefnogi gweithrediad blaenoriaethau ar y cyd, wedi'u fframio o amgylch y cyfnod adfer ar ôl y pandemig.

Mae cyflawniadau allweddol wedi cynnwys y canlynol:

- Nododd Adroddiad Blaenoriaethau i'w Gweithredu amrywiaeth o gamau gweithredu ymarferol yn seiliedig ar 'alwad am syniadau' gyda chyfanswm o £5.3 miliwn wedi'i ddyrannu, yn bennaf drwy'r CLlLlC i awdurdodau lleol a detholiad o brosiectau llai. Mae'r CLlLlC ac ALl yn credu bod y defnydd o arian Adferiad Gwyrdd i gyflawni themâu blaenoriaeth wedi bod yn hynod lwyddiannus.

- Cyhoeddwyd yr adroddiad 'Adferiad Gwyrdd: Cefnogi'r sector amgylcheddol yng Nghymru', gan ganolbwyntio ar argymhellion ymchwil i lywio datblygiad cynllun i sefydlogi trydydd sector yr amgylchedd. Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r adroddiad hwn, llwyddodd y Grŵp i helpu i sicrhau £900,000 drwy Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol i gefnogi Cynaliadwyedd y Sector mewn amrywiaeth o feysydd, gan gynnwys cymorth i ddatblygiad sefydliadol megis hyfforddiant Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiad.

- Mae'r cynnig ar gyfer y Gwasanaeth Natur Cenedlaethol hefyd wedi codi o allbynnau'r grŵp. Bydd y Gwasanaeth Natur Cenedlaethol yn system ledled Cymru sy'n ysgogi pobl i gefnogi adferiad natur, gan weithredu fel llwyfan sy'n cysylltu pobl

o bob oedran â chyfleoedd ar gyfer hyfforddiant sy'n seiliedig ar natur, cyflogaeth, menter a gwirfoddoli.

Mae'r Grŵp bellach wedi cytuno i barhau gyda'i waith, gydag ymrwymiad i adeiladu ar egni, momentwm a phŵer ar y cyd o'r flwyddyn ddiwethaf. Mae'r Cadeirydd wedi cwrdd â'r Dirprwy Weinidog dros Newid yn yr Hinsawdd ac mae'n cefnogi parhad y grŵp. Bydd adolygiad o strwythur y Grŵp Adferiad Gwyrdd yn cynyddu cydweithio a chyfathrebu ac yn cyflymu camau gweithredu a chyflawniad i'r eithaf. Bydd y Grŵp yn parhau i gael ei gynnull gan CNC a'i gyfarwyddo gan yr aelodaeth: Mae ‘Adferiad Gwyrdd: Grŵp Sector Amgylchedd Cymru' yn cael ei ffurfio i ddatblygu argymhellion yr adroddiad a fydd yn cael eu hymgynnull ar y cyd gan CNC a Llywodraeth Cymru ond yn cael eu cyfarwyddo gan y sector. Mae'r Gwasanaeth Natur Cenedlaethol yn parhau i ddatblygu gyda chydweithrediad rhanddeiliaid eang.

**Ymarfer Gwaelodlin**

Yn dilyn yr etholiad ym mis Mai 2021, mae Llywodraeth Cymru newydd wedi bod yn glir am ei huchelgeisiau o ran mynd i'r afael ag argyfyngau'r hinsawdd a natur a rhoi'r rhain wrth wraidd Rhaglen Lywodraethu'r Llywodraeth. Caiff yr uchelgeisiau hyn eu gosod yn erbyn amgylchedd ariannu hynod heriol, gydag agenda gyni degawd o hyd yn rhoi pwysau sylweddol ar gyllidebau Llywodraeth Cymru a rhai y sector cyhoeddus ehangach yng Nghymru.

Rydyn ni'n ymgymryd ag adolygiad gwaelodlin cynhwysfawr o'n gweithgareddau ac yn parhau i weithio'n agos gyda'r Gweinidog a'i swyddogion i ystyried dulliau i flaenoriaethu yng ngoleuni sefyllfaoedd cyllideb gwahanol. Gan gydnabod uchelgeisiau'r Llywodraeth yn ogystal â'r pwysau cyllidebol parhaus, mae CNC yn ymrwymedig i gofnodi'r gwasanaethau rydym yn eu darparu, y canlyniadau sy'n cael eu cefnogi a'r adnoddau sydd wedi'u hymrwymo er mwyn cyflawni. Ein diben wrth ymgymryd â'r ymarfer gwaelodlin hwn yw pennu dealltwriaeth gyffredin o'r sefyllfa bresennol a fydd yn sicrhau'r canlynol:

- bod adnoddau'n cael eu halinio i ddiffinio blaenoriaethau a chanlyniadau
- bod adnoddau'n cael eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon, gan ysgogi gwerth am arian.

Yn dilyn y gwaith gwaelodlin hwn, byddwn yn derbyn llythyr Telerau Llywodraeth gan y Gweinidog lle bydd yn cyflwyno ei blaenoriaethau er mwyn i CNC allu cynllunio i gyflawni blaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru.

**COP26 a COP Cymru**

Gwahoddwyd Clare Pillman, ein Prif Weithredwr, i nifer o sesiynau yn COP26 a chyn teithio i'r Alban, aeth i ddigwyddiad TEDx yn Theatr Clwyd a oedd yn arddangos syniadau pobl ifanc o ran sut i fynd i'r afael ag argyfwng yr hinsawdd. Rhoddodd hyn gipolwg unigryw a gwerthfawr cyn digwyddiadau COP26, a bu’n cadeirio panel ar Arweinyddiaeth

Ddosbarthedig a oedd yn cynnwys Prif Weinidog Cymru, Arglwydd Deben, Dr Anna Bullen o Ganolfan CAT a'r actifydd ieuenctid, Poppy Sewell-Evans.

Aeth staff allweddol CNC i COP26 hefyd gan arwain y gwaith o gynnal arddangosfa Grŵp Newid yn yr Hinsawdd Rhyngasiantaeth a oedd yn cynnwys dylunio stondinau, datblygu astudiaethau achos a dylunio gwefannau. Gwnaethom hefyd hwyluso a chymryd rhan mewn darllediad byw Rhwydwaith y BBC o fferm wynt Pen y Cymoedd yn ystod COP26 i dynnu sylw at y Cynllun Rheoli Cynefinoedd.
Rydym hefyd wedi gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru ar gynllunio ar gyfer digwyddiadau COP Cymru, gan gymryd rhan yn y sioeau teithiol parth gwyrdd rhanbarthol yn y cyfnod cyn Wythnos Hinsawdd Cymru  ddiwedd mis Tachwedd. Ymgymerodd cydweithwyr ar draws CNC â rôl weithredol wrth gyflawni sesiynau a wnaeth ennyn syniadau drwy'r wythnos, gyda phob un yn canolbwyntio ar ysgogi trafodaethau pwysig ynghylch sut mae'n rhaid i bobl Cymru weithio gyda'i gilydd i lunio dyfodol sy'n gadarnhaol o ran yr hinsawdd a natur.

Yn dilyn ei hymweliad â Glasgow, ymunodd Claire Pillman â Julie James AS, y Gweinidog dros Newid yn yr Hinsawdd, Arglwydd Deben, Cadeirydd Pwyllgor y Newid yn yr Hinsawdd a Sophie Howe, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn sesiwn agoriadol yr wythnos i drafod y lefelau gwahanol o arweinyddiaeth sydd eu hangen i fynd i'r afael ag argyfwng yr hinsawdd yng Nghymru.

Bu CNC hefyd yn arwain trafodaeth banel ar reoli perygl llifogydd a lliniaru'r newid yn yr hinsawdd, ac un arall ar rôl natur yng ngwydnwch yr hinsawdd gyda ffocws ar Gynllun Gweithredu Mawndiroedd Cenedlaethol Cymru. Gwnaethom hefyd gymryd rhan mewn sesiwn ar effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ar y môr a'r ecosystemau.

**Parodrwydd ar gyfer y Gaeaf**
Rydyn ni'n barod i ymateb i stormydd y gaeaf ond, o ran yr holl sefydliadau sy'n cymryd rhan, mae ymateb i amlder a difrifoldeb cynyddol llifogydd yn hynod heriol. Rydym yn gweithredu gwasanaeth digwyddiadau 24/7/365, ond mae effeithiolrwydd ein hymateb yn dibynnu ar yr ehangder daearyddol, difrifoldeb a hyd y llifogydd neu'r digwyddiadau amgylcheddol, a hefyd amlder (e.e. mae digwyddiadau storm lluosog yn cael effaith grynodol yn yr un modd â hyd neu gymhlethdod digwyddiad amgylcheddol).

Byddwn yn gwneud ein gorau glas bob tro, a'n profiad ni yw bod ein staff yn camu i fyny pan fo angen gan ein galluogi i ymdopi â sawl sefyllfa - ond y sefyllfa go iawn yw ni all unrhyw sefydliad wir ymdopi gyda'r holl sefyllfaoedd, ac nid oes modd atal yr holl lifogydd bob tro. Yn ôl yr angen, byddwn yn blaenoriaethu gweithgareddau yn ystod digwyddiadau sylweddol, gan ganolbwyntio ar ddyrannu rhybuddion am lifogydd, gweithredu ein hasedau critigol a chyfathrebu â phartneriaid a'r cyhoedd ar dasgau blaenoriaethol, ynghyd â sicrhau llesiant, iechyd a diogelwch ein staff.

Mae gennym staff cymwys ac ymroddedig, sawl un â phrofiad sylweddol, a systemau a phrosesau sefydledig ar waith i ymateb i ddigwyddiadau llifogydd, gyda phwyslais ar ein rolau allweddol ar gyfer dyrannu rhybuddion am lifogydd, ein gweithgareddau gweithredol a'r ymateb aml-bartner. Mae yna rai heriau o ran recriwtio staff i swyddi newydd neu wag oherwydd y farchnad hynod gystadleuol a diffyg sgiliau ar draws y sector, gan olygu problemau capasiti i ni ac felly gwnaethom lansio ymgyrch recriwtio proffil uchel ym mis Tachwedd eleni i ganolbwyntio ar y gweithgaredd hwn.

Rydym wedi gwneud gwelliannau i'n gweithgareddau rheoli digwyddiadau, gyda llawer yn gysylltiedig â'r Adolygiad Llifogydd. Fodd bynnag, mae llawer o'r camau gweithredu yn yr Adolygiad Llifogydd yn fwy cymhleth gydag elfennau rhyng-ddibynnol , a gwnaethom nodi yn yr Adolygiad Llifogydd y bydd y rhain yn cael eu cyflawni yn y tymor hwy. Rydym yn datblygu'r rhain, o fewn yr adnoddau sydd ar gael. Mae ein gwaith o gyflawni rhaglen gyfalaf hefyd yn mynd yn dda, gyda sawl cynllun allweddol ar y safle a phrosiectau ar gyfer cynlluniau llifogydd newydd a gwelliannau i amddiffynfeydd cyfredol yn cael eu datblygu.

**Hela Trywydd ar Ystâd Goetir Llywodraeth Cymru**

Daeth treial Mark Hankinson, cyfarwyddwr y Gymdeithas Meistri Cŵn Hela, i ben yn llys ynadon San Steffan gyda Mr Hankinson yn euog o annog neu gynorthwyo eraill i gyflawni trosedd dan y Ddeddf Hela (2004). Gan ddibynnu ar ganlyniad y treial, rydym yn gohirio'r holl hela trywydd a chaniatadau mynediad ar gyfer hela trywydd ar ystâd CNC, gan gynnwys Ystâd Goetir Llywodraeth Cymru.

Roedd gennym Gytundeb Meistr ar gyfer ceisio caniatadau ar gyfer hela trywydd dros ystâd CNC gyda chorff llywodraethu'r Swyddfa Hela, y Gymdeithas Meistri Cŵn Hela, a ddaeth i ben ar 30 Medi 2021. Heb gytundeb gyda'r Gymdeithas Meistri Cŵn Hela, nid oes fframwaith bellach ar gael ar gyfer helfeydd unigol gynnal helfeydd trywydd ar yr ystâd.

Trafodwyd y mater gan fwrdd CNC ar 18 Tachwedd, a benderfynodd bod canlyniad yr achos llys yn erbyn uwch-arweinydd y Gymdeithas Meistri Cŵn Hela wedi golygu colli hyder yng ngallu'r sefydliad i sicrhau bod ei weithgareddau'n cael eu cynnal o fewn y gyfraith a thelerau ei gytundeb. Oherwydd bod yr holl hela trywydd ar Ystâd Goetir Llywodraeth Cymru yn cael ei reoli dan y cytundeb hwn, rydym wedi penderfynu terfynu'r gweithgaredd ar yr ystâd ar unwaith.

Er mwyn rhoi sicrwydd llwyr i ni nad oedd hela trywydd ar ein hystâd yn cael ei ddefnyddio i guddio gweithgarwch anghyfreithlon, byddem wedi gorfod buddsoddi mewn sgiliau ac adnoddau nad oes gennym ar hyn o bryd, i'w blismona'n briodol. O ystyried mai defnydd cyfyngedig o'r tir a reolir gennym fu'r gweithgaredd hwn yn hanesyddol, nid yw hyn yn cynrychioli defnydd da o adnoddau CNC.

**Ansawdd Dŵr**

Ein hafonydd yw un o'n hadnoddau pwysicaf - maent yn darparu dŵr i'w yfed, cartrefi i fywyd gwyllt ac yn cynnal bywoliaethau. Ond mae'r pwysau arnynt yn anferthol. Mae'r newid

yn yr hinsawdd, bioamrywiaeth sy’n dirywio a'r ffordd rydym yn byw heddiw yn heriau gwirioneddol i iechyd ein hafonydd. Mae'n glir bod gennym rôl wrth wella cyflwr afonydd ledled Cymru. Gwella iechyd ein hafonydd yw'r nod tymor hir ac nid yw'n broblem i un sector unigol. Ar y cyd, mae angen i ni ddatblygu datrysiadau tymor hir, graddfa dalgylch, i fynd i'r afael â phroblemau maetholion yn ein hafonydd. Mae hyn yn cynnwys sefydlu datrysiadau ymarferol sy'n seiliedig ar natur megis rhaglenni adfer afonydd sy'n gallu gwella ansawdd dŵr a chynefin ond sydd hefyd yn lleihau mewnbynnau maetholion.

Ym mis Ionawr 2021, gwnaethom gyhoeddi adroddiad a oedd yn cyflwyno ein hasesiad cydymffurfiaeth ar gyfer ffosfforws mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig afonydd yn erbyn targedau a adolygwyd. Mae yna naw Ardal Cadwraeth Arbennig afonydd yng Nghymru - y Cleddau, yr Eden, y Gwyrfai, y Teifi, y Tywi, y Glaslyn, y Dyfrdwy a'r Wysg. Roedd y dystiolaeth a adolygwyd yn dangos bod dros 60% o gyrff dŵr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig yn methu'r safonau ar gyfer ffosfforws. Yr afon â'r lefel uchaf o fethiannau ffosfforws oedd yr Wysg gydag 88% o'i gyrff dŵr yn methu eu targedau. Roedd dros 60% o adrannau afonydd ar afonydd Gwy a'r Cleddau wedi methu eu targedau. Roedd y Teifi isaf a rhannau o afon Dyfrdwy hefyd wedi methu cyrraedd y safonau.

Mae dyfarniad Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd (CJEU) ar achosion 'Nitrogen yr Iseldiroedd' yn effeithio ar asesiad cynlluniau a phrosiectau dan y Rheoliadau Cynefinoedd. O ganlyniad i'r penderfyniad, mae'r cwmpas ar gyfer awdurdodi datblygiad newydd a fydd yn arwain at lwytho maetholion ychwanegol yn debygol o fod yn gyfyngedig lle mae statws cadwraeth yr ACA yn anffafriol oherwydd rhagori ar safonau maetholion.  Mae Datganiad Effaith Ffosffadau sy'n cael ei lunio gan yr Awdurdodau Lleol ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn nodi y bydd yn debygol ar y bydd 9,763 o unedau tai a 1,725 o unedau fforddiadwy arfaethedig yn cael eu heffeithio gan y broblem ffosffadau ACA.

Mewn ymateb, mae prosiect wedi’i sefydlu yn CNC i sefydlu polisi a safbwyntiau newydd ac i gyflawni cyngor, offerynnau a gweithdrefnau i sicrhau nad oes gan ein swyddogaethau trwyddedu a rheoleiddiol unrhyw effaith negyddol ar Ansawdd Dŵr ACA. Mae hefyd yn ceisio deall yn llawn y problemau cydymffurfiaeth a thargedau ansawdd dŵr ar draws y naw ACA afonydd a sefydlu cyfrifoldebau tymor hwy ar gyfer casglu tystiolaeth ansawdd dŵr mewn ACA afon ac asesiadau cydymffurfiaeth cylchol.

Mae blaenoriaethau cyfredol yn cynnwys datblygu canllawiau ar niwtraledd maetholion a'r defnydd o gyfrifianellau, diweddaru'r cyngor cynllunio ar gyfer Awdurdodau Cynllunio Lleol ac archwilio opsiynau ar gyfer adolygu trwyddedau cyfredol.  Rydym hefyd yn gweithio ar asesiad nodweddion ansawdd dŵr eraill, datblygu datganiadau sefyllfa ar ddatrysiadau posib ac yn aros am gyngor cyfreithiol ar unrhyw oblygiadau dyfarniad yr achosion Iseldiroedd ar gyfer Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, e.e. safleoedd morol. Mae gwaith parhaus yn cael ei wneud ar ein dull yn y dyfodol ar gyfer caniatáu gollyngiadau bach yn y dalgylchoedd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig sy'n methu.

Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu grŵp goruchwylio sy'n cynnwys cynrychiolwyr ar draws yr adrannau polisi perthnasol yn ogystal â rhanddeiliaid allanol allweddol i roi ffocws ar gyfer ymateb aml-adrannol i'r sefyllfa gyfredol ar afonydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, yn ogystal â'r is-grŵp Cynllunio. Byddwn hefyd yn rhan o'r Byrddau Rheoli Maetholion pan fyddant yn cael eu sefydlu ar gyfer yr afonydd sy'n methu, gyda Bwrdd Rheoli Maetholion afon Gwy eisoes wedi'i sefydlu.

Fel y byddwch wedi gweld o lythyr diweddar Syr David at y Pwyllgor ar ollyngiadau carthion, rydym wedi bod yn gweithio gyda Dŵr Cymru a Hafren Dyfrdwy am nifer o flynyddoedd ar raglen archwilio lle dywedwyd nad yw gwaith carthion yn cydymffurfio â'u trwydded. Rydym yn ystyried y broblem o orlifoedd stormydd ac asedau heb drwyddedau yn ddifrifol iawn ac rydym wedi dyrannu hysbysiadau gorfodi lle'r ydym yn teimlo nad yw camau gweithredu'n datblygu fel y dylent. Mae'r heriau hyn yng nghyd-destun ehangach materion ansawdd dŵr a llwybrau eraill i faetholion a deunyddiau eraill fynd i'r cyrsiau dŵr. Fel a nodwyd, rydym yn gweithio'n galed gyda phartneriaid eraill i flaenoriaethu a mynd i'r afael â'r materion hyn.

**Recriwtio i'r Bwrdd**

Ym mis Medi eleni, gwnaeth y Gweinidog dros Newid yn yr Hinsawdd dri phenodiad i Fwrdd CNC. Mae'n bleser gennym gyhoeddi bod yr Athro Calvin Jones, Mark McKenna a Paul Griffiths wedi ymuno â ni, a'u bod eisoes yn rhoi cyfoeth o brofiad ac arbenigedd i'n pwyllgorau bwrdd a'n trafodaethau. Mae'r penodiadau hyn am flwyddyn, oherwydd y bydd gennym ddwy swydd wag arall yr hydref nesaf, ac rydym yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd i gefnogi'r broses recriwtio pan fydd y rolau hyn yn dod i ben.

Ionawr 2022

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**
—
Welsh Parliament
**Finance Committee**

Cadeirydd, Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cadeirydd, Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cadeirydd, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Cadeirydd, Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Cadeirydd, Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Cadeirydd, Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol
Cadeirydd, Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai
Cadeirydd, Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

07 Rhagfyr 2021

Annwyl Gadeiryddion y Pwyllgorau

**Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2022-23**

Ar 16 Gorffennaf 2021, ysgrifennais atoch i rannu syniadau'r Pwyllgor Cyllid ynghylch ein rhaglen ymgysylltu ar gyfer Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru sydd ar y gweill a sut byddwn yn gwneud y gwaith craffu. Rwyf yn ysgrifennu nawr i roi'r diweddaraf am y gwaith hwn.

**Ymgysylltu**

Rhwng 17 Medi a 26 Tachwedd 2021, cynhaliodd y Pwyllgor Cyllid ymgynghoriad yn ceisio gwybodaeth am y Gyllideb Ddrafft ar ran yr holl Bwyllgorau. Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar gael ar dudalen y Pwyllgor Cyllid.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
0300 200 6565

Yn ogystal, cynhaliwyd cyfres o grwpiau ffocws i gasglu safbwyntiau a phrofiadau dinasyddion Cymru sy'n ddefnyddwyr gwasanaethau mewn meysydd penodol, neu mae penderfyniadau'r gyllideb ddrafft yn effeithio arnynt yn uniongyrchol.

Bydd adroddiad yn crynhoi'r materion a themâu allweddol o'r grwpiau ffocws hyn ar gael ganol mis Rhagfyr a bydd eich clercod yn anfon y linc i hwn atoch.

### Ffocws y Gyllideb

Mae'n debygol y bydd adferiad Covid-19 yn parhau i effeithio ar Gyllideb Ddrafft 2022-23. Hefyd, mae'r Pwyllgor Cyllid wedi nodi nifer o feysydd yr hoffem weld gwaith craffu yn canolbwyntio arnynt, sef:

- *Sut dylid targedu adnoddau i gefnogi adferiad economaidd a pha sectorau y mae angen eu blaenoriaethu'n arbennig;*
- *I ba raddau y dylid blaenoriaethu lleddfu newid hinsawdd wrth gefnogi adferiad economaidd;*
- *Sut mae dyraniadau'r gyllideb yn cefnogi dyheadau cynllun Sero Net Cymru;*
- *Polisïau Llywodraeth Cymru i leihau tlodi ac anghydraddoldeb rhwng dynion a menywod;*
- *Sut i wario i atal problemau a sut caiff hyn ei gynrychioli yn nyraniadau'r gyllideb (gwariant sy'n canolbwyntio ar atal problemau ac yn lleddfu galw ar wasanaethau yn y dyfodol drwy ymyrryd yn gynnar);*
- *Cynaliadwyedd gwasanaethau cyhoeddus, arloesi a thrawsnewid gwasanaethau;*
- *Sut mae tystiolaeth yn llywio proses Llywodraeth Cymru o bennu blaenoriaethau a dyrannu'r gyllideb;*
- *Sut dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio pwerau trethiant a benthyca;*
- *Cymorth ar gyfer busnesau, twf economaidd ac amaethyddiaeth ar ôl cyfnod pontio yr UE;*
- *Beth yw'r cyfleoedd allweddol ar gyfer buddsoddiad gan y Llywodraeth i gefnogi 'ailadeiladu'n well' (e.e. cefnogi economi a gwasanaethau cyhoeddus sy'n gwneud yn well o ran cyflawni nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol).*

Rydym yn gobeithio y bydd y gwaith ymgynghori ac ymgysylltu yn ategu ac yn llywio gwaith y Pwyllgorau polisi, a hoffwn eich annog i ddefnyddio rhai o'r meysydd a amlinellir uchod fel ffocws eich gwaith o graffu ar y gyllideb.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am unrhyw agwedd ar broses y Gyllideb Ddrafft, mae croeso i chi gysylltu â mi neu Owain Roberts, Clerc y Pwyllgor Cyllid, ar 0300 200 6388 neu seneddcyllid@senedd.cymru.

Yn gywir



Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**
—
**Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddHinsawdd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddClimate@senedd.wales
senedd.wales/SeneddClimate
0300 200 6565

Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd

14 Rhagfyr 2021

Annwyl Julie,

Trefniadau cyllido Cyfoeth Naturiol Cymru yn y dyfodol

Disgwylir i Lywodraeth Cymru gyhoeddi ei chyllideb ddrafft ar gyfer 2022-23 yr wythnos nesaf. Cyn ei chyhoeddi, hoffem nodi ein disgwyliad y bydd cynnydd yng nghyllideb Cyfoeth Naturiol Cymru ('CNC') o 2021-22.

Rhwng ei sefydlu yn 2013 a 2020, mae cyllid CNC wedi gostwng 35% mewn termau real. Roedd effaith hyn ar allu CNC i gyflawni ei rôl a'i gyfrifoldebau yn effeithiol yn destun pryder parhaus i'r Pwyllgor a'n rhagflaenodd. Mae ein gwaith diweddar ar flaenoriaethau'r Chweched Senedd yn rhoi arwydd clir bod rhanddeiliaid o bob sector yn rhannu'r pryder hwn.

Nodwn fod Natural England wedi derbyn cynnydd sylweddol gwerth £63 miliwn yn ei chyllideb ar gyfer 2021-22 yn dilyn Adolygiad Gwariant Llywodraeth y DU. Mae'r Chweched Senedd yn cyd-daro â chyfnod tyngedfennol yn y frwydr yn erbyn newid hinsawdd a cholli bioamrywiaeth. Disgwylir i Gyfoeth Naturiol Cymru fod ar flaen y gad o ran gweithredu i ymateb i'r heriau hyn. Rhaid bod ganddo adnoddau digonol i wneud hyn.

Credwn fod dechrau'r Chweched Senedd yn gyfle delfrydol i Lywodraeth Cymru wyrdroi'r duedd o dorri cyllid CNC. Gobeithiwn weld hyn yn cael ei wneud yn y gyllideb ddrafft sydd ar ddod.

Yn gywir,

Llyr Gruffydd AS,
Cadeirydd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg./ We welcome correspondence in Welsh or English.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

13 Ionawr 2022

Annwyl Llyr Gruffydd AS

Diolch am eich llythyr dyddiedig 14 Rhagfyr 2021 ynglŷn ag ariannu Cyfoeth Naturiol Cymru yn y dyfodol. Byddwch wedi gweld bod y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2022 i 2023 bellach wedi cael chyhoeddi.

Mae mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a'r argyfwng natur yn flaenoriaeth i'r llywodraeth hon, ac yn rhywbeth rydym yn ei gymryd o ddifri. Er mwyn mynd i'r afael â'r problemau sy'n deillio o'r ddau argyfwng hyn bydd angen inni ailasesu'r hyn rydym yn ei wneud ac ymgorffori'r arferion gorau ym mhob un o'n gweithgareddau. Mae ein cytundeb ar gyfer Rhaglen Lywodraethu a Chydweithredu gyda Phlaid Cymru yn nodi rhaglen waith uchelgeisiol, ac mae ein cyllideb ddrafft yn sicrhau buddsoddiadau wedi'u targedu gwerth £1.8 biliwn i ymateb i'r argyfwng hinsawdd a'r argyfwng natur yn y Chweched Senedd hon.

Mae hyn yn cynnwys £12 miliwn ychwanegol o refeniw a buddsoddiadau cyfalaf gwerth cyfanswm o £57 miliwn yn y Goedwig Genedlaethol a Strategaeth Coed Cymru hyd at 2024–25. Bydd hyn yn cefnogi'r gwaith o greu Coedwig Genedlaethol sy'n estyn o ogledd Cymru i'r de a hefyd yn cefnogi cymunedau i greu 30 o goetiroedd newydd, cysylltu cynefinoedd a diogelu coetiroedd hynafol. At hynny, rydym yn gwneud buddsoddiadau refeniw ychwanegol gwerth £9 miliwn a chyfalaf gwerth bron £90 miliwn hyd at 2024–25 i wella mannau gwyrdd ar bob graddfa. Mae hyn yn cynnwys Parc Cenedlaethol newydd, y rhaglen Rhwydweithiau Natur, Mannau Lleol ar gyfer Natur, y Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd, Natur am Byth a'n rhaglen gyfalaf Tirweddau Cynaliadwy, Mannau Cynaliadwy i sicrhau bod ein cynefinoedd a'n rhywogaethau mwyaf gwerthfawr yn gallu ffynnu.

Byddwch wedi gweld bod cyllideb Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ar gyfer 2022–23 yn debyg yn fras i gyllideb 2021–22. Fel y mae, mae swyddogion CNC a Llywodraeth Cymru wrthi'n cynnal ymarfer sy'n archwilio'r broses o ddyrannu adnoddau CNC yn erbyn ei swyddogaethau statudol ac ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu. Bydd yr ymarfer hwn yn llywio sut mae CNC yn dyrannu ei gyllid i gyflawni ei rwymedigaethau statudol, wrth ar yr un pryd gyflawni blaenoriaethau Gweinidogion ar gyfer y flwyddyn i ddod (2022–23) a gweddill tymor presennol y Llywodraeth. Byddwn yn gweithio'n agos gydag CNC dros y misoedd nesaf i sicrhau bod ei gyllid yn ddigonol i gyflawni ei gyfrifoldebau a chefnogi'r gwaith o fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a'i effaith yng Nghymru.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn gywir

**Julie James AS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd

yn rhoi cartref i fyd natur giving nature a home

# RSPB paper for the Climate Change, Environment and Infrastructure Committee session on 20 January:

## Scrutiny of Welsh Government draft budget with the Minister and Deputy Minister for Climate Change

## Annual scrutiny of Natural Resources Wales

This short paper is provided as a supplement to RSPB Cymru's response to the Finance Committee's pre-budget consultation (also provided). Having now had the opportunity to consider the Welsh Government's draft budget, we suggest a number of areas the Committee might wish to explore with the Minister, as well as with the Chair and CEO of NRW.

### 1. NRW's capacity to respond to the nature and climate emergency

During its recent inquiry into Biodiversity and Ecosystems, the Environmental Audit Committee requested evidence from Natural England in relation to its funding and particularly, details of the work that Natural England had curtailed or reduced investment in due to budget constraints. The evidence provided by the Chair of Natural England provided these details and stated that the current funding at the time was below the level required to deliver all of its statutory duties to a good standard. It also stated the risks resulting from this situation.

**In light of NRW's funding falling in real terms by 35% from 2013-2020, the Committee may wish to ask whether NRW has made a similar assessment of the impact of budget constraints on its ability to deliver across the full range its statutory duties and responsibilities.**

NRW's baseline evaluation of terrestrial protected sites (published in 2021) prompted concerns due to the clear paucity it showed in terms of available data and staff resource to assess the condition of the site features (species and habitats), as well as the overall results of the evaluation showing only 20% of features at these most important places for nature are in favourable condition. During the Committee's evidence session on 9th December 2021 on marine environmental management, NRW gave evidence on funding needs for an adequate programme of marine monitoring. This stated that NRW's funding for marine monitoring had decreased over the past nine years, and that the favoured option from working with JNCC and Welsh Government identified a need for a five-fold increase in funding to enable an adequate programme.

**The Committee may wish to ask NRW what assessment it has made of the budget needed for an adequate programme of monitoring covering all protected sites – for terrestrial as well as marine sites, including SSSIs – and how this compares to the budget currently available for site monitoring.**

During the Committee's 9th December session NRW referred to the need to revise conservation advice packages for marine SPAs and SACs, making them more detailed and prescriptive; SoNaRR 2020 reported that only 5.47% of SSSIs are covered by management agreements between NRW and their owner/occupiers.

**The Committee may wish to ask NRW, and the Minister, to what extent they consider funding allocated in the draft budget will plug the gap in terms of securing appropriate management for terrestrial and marine protected sites.**

## 2. Nature conservation

The Committee may wish to explore more detail about how nature conservation funds may be spent on different programmes and priorities. For example:

**What is the level of funding anticipated for protected sites and wider habitats under the Nature Networks Fund, and what funding will be available for species recovery projects?**

While allocations in the draft budget are extremely welcome, a significant gap in finance for nature's recovery remains.

**The Committee may wish to explore what steps the Welsh Government is taking to develop innovative funding approaches, enabling well-regulated private investment to play its part.**

## 3. Nature based solutions

The Committee may wish to explore to what extent nature recovery may benefit from other budget lines within the Climate Change portfolio. For example:

**Will the budget allocation on flood risk management be used to deliver nature-based solutions to flood risk, and in what proportion?**

**To what extent will the forestry allocation in the budget contribute to the management and creation of wildlife-rich habitats to contribute to resilient ecological networks?**

**Given the importance of peatlands in contributing to both mitigation of and adaptation to climate change, what level of investment does Welsh Government anticipate making in restoring degraded peat?**

## 4. Marine renewable energy

The recent deep dive on renewable energy identified the need to invest in NRW's regulatory and advisory capacity as well as in addressing evidence gaps and improving spatial planning.

**The Committee may wish to explore with the Ministers whether the budget line for marine renewables is to incorporate these wider costs of delivering marine energy ambitions.**

## 5. National Nature Service

In our submission to the Finance Committee, we flagged the opportunity of a National Nature Service (NNS), in linking environmental needs with Welsh Government priorities around jobs and skills.

**The Committee may wish to ask for an update from the Minister on whether the Welsh Government plans to take forward the development of an NNS in line with proposals submitted by the Food, Farming and Countryside Commission and the Future Generations Commissioner's Office.**

For further information please contact Annie Smith – annie.smith@rspb.org.uk

y cerddwyr
ramblers cymru

Y Cerddwyr
3 Iard y Cowper
Heol Curran
Caerdydd CF10 5NB
Ffôn 029 2064 4308
Ffacs 029 2064 5187
Ebost cerddwyr@ramblers.org.uk
www.ramblers.org.uk/wales

Ramblers Cymru
3 Cooper's Yard
Curran Road
Cardiff CF10 5NB
Phone 029 2064 4308
Fax 029 2064 5187
Email cerddwyr@ramblers.org.uk
www.ramblers.org.uk/wales

# Ramblers Cymru: Reflections on the Welsh Government Draft Budget 2022-23

## About Ramblers Cymru

Ramblers Cymru are Wales' leading walking charity, dedicated to creating a Wales where everyone can enjoy walking in the outdoors and the mental and physical benefits it brings. We are the guardians of the path network and help protect access to the places we all love to walk.

## Why paths and access to green spaces matter

As a result of the COVID pandemic, many people are discovering a new appreciation of the paths and green spaces on their doorsteps, of the benefits walking brings to their health and wellbeing, and of the enjoyment to be had by being close to nature.

Our route to recovery as a nation must build healthier and happier communities. We must secure help people connect with the environment, be active on foot, and cherish our green spaces.

The Welsh Government has acknowledged the important environmental and recreational role of the public rights of way network and access to the green space, in strategies and policies such as the National development Framework, Future Wales: the National Plan 2040; Natural Resources Policy; Planning Policy Wales; and Healthy Weight: Healthy Wales.

Ramblers Cymru are calling on Welsh Government to back this recognition with fair funding.

## Fair Funding for rights of way and access

The recently reinstated Access Improvement Grant from Welsh Government to Local Authorities and National Park Authorities, has provided £2m this year (£1.35m in 2019/20). While welcome, this equates to just 64p per person in Wales, and is not aligned with the benefits investment in quality access can bring. For example, in 2014 the economic value of coastal walking trips in Wales was estimated at £547m.

Local authority Rights of Way and Countryside teams have seen falling resource for many years, due to austerity and the wide-ranging pressure on local government budgets. This has been compounded by the absence of any dedicated Welsh Government improvement funding between 2017-2020, and further exacerbated by significantly increased footfall pressures brought by the pandemic.

One local authority in Wales have 1,800 unresolved issues on their path network – almost 10% of which have been outstanding for over 15 years. Another has just 38% of its paths in a satisfactory condition. Across Wales, Authorities are failing to fulfil their statutory duties to secure and maintain public access.

wrth galon cerdded
at the heart of walking

Mae Cymdeithas y Cerddwyr yn elusen cofrestredig, (rhif Cymru a Lloegr: 1093577, rhif yr Alban SC039799) ac yn gwmni cyfyngedig trwy warant, wedi ei gofrestru yng Nghymru a Lloegr (rhif cofrestru'r cwmni 4458492). Swyddfa Cofrestredig Cymdeithas y Cerddwyr: 2il lawr, Tŷ Camelford, 87-90 Glannau Albert, Llundain, SE1 7TW. **Croesawn ohebiaeth trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg.**

The Ramblers' Association is a registered charity (England & Wales no 1093577, Scotland no SC039799) and a company limited by guarantee, registered in England & Wales (no 4458492). Registered office: 2nd floor, Camelford House, 87-90 Albert Embankment, London SE1 7TW. **We welcome correspondence in Welsh or English.**

y cerddwyr
ramblers cymru

Y Cerddwyr
3 Iard y Cowper
Heol Curran
Caerdydd CF10 5NB
Ffôn 029 2064 4308
Ffacs 029 2064 5187
Ebost cerddwyr@ramblers.org.uk
www.ramblers.org.uk/wales

Ramblers Cymru
3 Cooper's Yard
Curran Road
Cardiff CF10 5NB
Phone 029 2064 4308
Fax 029 2064 5187
Email cerddwyr@ramblers.org.uk
www.ramblers.org.uk/wales

## Paths, access and green space in the draft budget

### The Climate Change Main Expenditure Group

Access to the countryside, coast, rights of way, Areas of Outstanding Natural Beauty and National Parks all sit in the portfolio of the Minister for Climate Change.

Given the expressed recognition by Welsh Government of the role of outdoor access to a wide range of societal and economic impacts, and the declaration of nature and climate emergencies, it is of concern that the Climate Change MEG is projected to be the hardest hit both in real terms, and percentage terms at the end of this 3-year budget. In fact, it is the only MEG in a negative situation at the end of the period on percentage terms.

### Budget Expenditure Lines

Because of the potential impact on paths, access, and the opportunities for people to enjoy the outdoors on foot, Ramblers Cymru would welcome the Committee examining the following budget decisions through the scrutiny process:

#### 'Promote and support protected landscapes, wider access to green space'

Within this Budget Expenditure line, *Landscape and Outdoor Recreation* will receive £17.4m. This is a reduction of 15% in real terms on the current budget.

The proposed capital budget element under this BEL is set at £5m per year over the 3-year period. This is a reduction from £8.9m in 2021/22.

It is not clear from the information provided if the Access Improvement Grant is part of this expenditure area, or if it is being maintained at its current level.

#### 'Green Infrastructure'

There is no capital budget for green infrastructure (was £1.4m in 21/22)

#### 'Sponsor and manage delivery bodies'

Natural Resources Wales' budget is rising by 1%.

NRW have a vital role to play in providing and promoting responsible access to the outdoors, and have faced significant budgetary challenges over recent years. It is a concern that rising demand from increased visitors, without a meaningful increase in budget, will adversely affect the management of NRW estate, and some of our key recreational assets, like the Wales Coast Path.

y cerdddwyr
ramblers cymru

Y Cerddwyr
3 Iard y Cowper
Heol Curran
Caerdydd CF10 5NB
Ffôn 029 2064 4308
Ffacs 029 2064 5187
Ebost cerddwyr@ramblers.org.uk
www.ramblers.org.uk/wales

Ramblers Cymru
3 Cooper's Yard
Curran Road
Cardiff CF10 5NB
Phone 029 2064 4308
Fax 029 2064 5187
Email cerddwyr@ramblers.org.uk
www.ramblers.org.uk/wales

**'Sports & Physical Activity' (Economy MEG)**

Sport Wales is allocated a reduced budget (-2%).

As Wales recovers from the pandemic, we need more opportunities for people to increase physical activity through organised sports and recreational activities. This is key to improving mental and physical health, and reducing health inequalities. The reduction of support under this budget line could inhibit those opportunities.

**Conclusion**

Ramblers Cymru encourage the committee to consider the implications of the issues raised above, and to explore recommendations for how this draft budget could be strengthened to help Wales realise the benefits of paths and outdoor access for current and future generations.

**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**

**–**

**Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddHinsawdd
0300 200 6565

–

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddClimate@senedd.wales
senedd.wales/SeneddClimate
0300 200 6565

Julie James AS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd

09 Rhagfyr 2021

Annwyl Weinidog,

Cynigion i wahardd eitemau plastig untro

Yn dilyn ymlaen o'n *Hadroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil yr Amgylchedd* (Medi 2021), byddem yn croesawu diweddariad gennych ar y cynnydd a wnaed gan Lywodraeth Cymru o ran datblygu cynigion i wahardd eitemau plastig untro.

Yn eich ymateb i'n hadroddiad, dywedwyd wrthym fod trafodaethau rhynglywodraethol yn parhau mewn perthynas ag effaith Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020 ar gwmpas y gwaharddiad arfaethedig yng Nghymru. Gwnaethoch nodi'ch bwriad i gyhoeddi manylion y camau nesaf tuag at waharddiad erbyn diwedd mis Hydref 2021. Nid yw'r rhain ar gael eto.

Nodwn fod Llywodraeth yr Alban wedi gwneud *Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Yr Alban) 2021* yn ddiweddar, a byddant yn dod i rym ym mis Mehefin 2022. Yn ogystal, mae Llywodraeth y DU ar hyn o bryd yn ymgynghori ar gynigion i wahardd ystod o blastigau untro a ffynonellau llygredd plastig eraill yn Lloegr, ar ôl cyflwyno gwaharddiad eisoes ar wellt, troellwyr a ffyn cotwm plastig.

O ystyried bod cynnydd yn cael ei wneud o ran gwaharddiad yng ngwledydd eraill y DU, nid yw'n glir pam yr ymddengys nad oes cynnydd pellach yn cael ei wneud yng Nghymru. Byddai'n ddefnyddiol pe gallech fynd i'r afael â'r mater hwn yn eich ymateb.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ddarparu ymateb cyn gynted â phosibl, ac erbyn dydd Mawrth 4 Ionawr 2022, fan bellaf.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Yn gywir,



**Llyr Gruffydd AS,**
Cadeirydd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

We welcome correspondence in Welsh or English

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

4 Ionawr 2021

Annwyl Llyr Gruffydd AS

Diolch am eich llythyr dyddiedig 9 Rhagfyr yn gofyn am yr wybodaeth ddiweddaraf am ein cynlluniau i wahardd eitemau plastig untro.

Yr wyf yn falch o gadarnhau y bydd adroddiad cryno'r ymgynghoriad, sy'n cynnwys y camau nesaf, yn cael ei gyhoeddi ym mis Ionawr. Mae'r trafodaethau rhynglywodraethol mewn perthynas â Phlastig Untro yn parhau i'r Flwyddyn Newydd.

Yr wyf yn parhau'n ymrwymedig i gyflawni ein huchelgais o ddiddymu'r defnydd o'r plastigau untro mwyaf cyffredin yng Nghymru. Yr wyf yn awyddus i fwrw ymlaen, yn y lle cyntaf, â'r cynigion a nodir fel cam un yn ein hymgynghoriad, i ddeddfu i ddileu'r plastigau untro hyn o'r gadwyn defnyddwyr yng Nghymru. Rydym yn bwriadu cyflwyno deddfwriaeth ar gyfer y gwaharddiadau cyn gynted â phosibl o fewn tymor y Senedd hon.

Yn ogystal â hyn, mae fy swyddogion eisoes yn paratoi ar gyfer cyfnodau'r gwaith yn y dyfodol, gan gynnwys adolygu tystiolaeth ar gyfer dros 60 o eitemau ychwanegol a nodwyd yn yr ymgynghoriad fel elfennau ar gyfer gweithredu posibl yn y dyfodol. Yn ystod yr ail gam hwn, byddwn yn ystyried eitemau fel clytiau gwlyb a thyweli gwlyb tebyg. Mae'n hysbys bod llawer o'r cynhyrchion hyn yn mynd i mewn i'r system garthffosiaeth, yn aml yn creu problemau gyda rhwystrau ac o bosibl hyd yn oed yn achosi peryglon llifogydd.

Yn gywir

**Julie James AS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

# Gwybodaeth ddilynol i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith yn dilyn trafodaeth Rheoli Amgylcheddol Morol ar 9 Rhagfyr 21

**Datganiad cryno gan CNC**

Rydym ni’n gwerthfawrogi'r cyfle i drafod rheolaeth amgylcheddol forol gyda'r Pwyllgor ac rydym ni’n cydnabod y bu nifer o feysydd o newid ers i bwyllgorau blaenorol ymchwilio i'r maes hwn.

Efallai y bydd yn helpu i ddechrau trwy ailadrodd rôl CNC yn y maes hwn yn gyflym. Pwrpas cyffredinol CNC yw ceisio rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae'r rôl hon yn ymestyn i'r amgylchedd morol sy'n ffurfio bron i hanner tiriogaeth Cymru. Mae rôl CNC mewn perthynas â rheolaeth amgylcheddol forol yn eang gan gynnwys, er enghraifft: cyngor, tystiolaeth, rheoleiddio gan gynnwys trwyddedu morol, monitro, rheoli perygl llifogydd arfordirol/erydiad, ymateb i ddigwyddiadau, rheoli safleoedd gwarchodedig, rheoli pysgodfeydd cocos (cilfach Dyfrdwy a Burry) ac awdurdod llywio Dyfrdwy.

Rydym ni bellach yn gweithio mewn dau argyfwng a ddatganwyd gan y llywodraeth, mewn argyfwng hinsawdd a natur. Er bod rhai o'r effeithiau a'r cyfleoedd sy’n ymwneud â thir wedi'u dogfennu'n dda ac yn cael cyhoeddusrwydd da, efallai nad ydyn nhw'n cael cymaint o gyhoeddusrwydd mewn perthynas â'r môr, sydd â llawer i'w golli a llawer i'w gynnig. Rydym ni’n cydnabod bod effaith newid hinsawdd yn sylweddol ar y môr, ond bod y môr hefyd yn cynnig cyfleoedd i liniaru rhai o'r effeithiau trwy, er enghraifft, amsugno carbon, lliniaru'r hinsawdd a darparu ynni adnewyddadwy. Mae'r argyfwng natur yn ychwanegu rheidrwydd i reoli'r rhwydwaith helaeth o ardaloedd morol gwarchodedig sy'n adnodd allweddol i gefnogi ecosystem forol wydn. Yn CNC rydym ni’n ceisio dod â'r pryderon hyn ynghyd a mynd i'r afael â materion a chyfleoedd argyfwng hinsawdd a natur mewn ffordd integredig.

Ymhlith y rhaglenni gwaith allweddol i ni yn hyn o beth mae: ein Rhaglen Ynni Adnewyddadwy ar y Môr; cyngor a thystiolaeth i gefnogi datblygiad dull gofodol o gynllunio morol; adnewyddu ein hasesiadau cyflwr MPA a'n cyngor cadwraeth; datblygu a darparu ein rhaglenni adfer a charbon glas; a hefyd darparu monitro a thystiolaeth i wella ein dealltwriaeth a llywio cynllunio a rheoli. Gobeithiwn allu trafod rhai o'r meysydd hyn gyda chi heddiw.

Er gwaethaf yr heriau, rydym ni wedi ymrwymo'n llwyr yn CNC i flaenoriaethu ein hymdrechion trwy ein rhaglen forol - boed yn gynghorol, rheoliadol, rheolaeth uniongyrchol ac ati - i ganolbwyntio ar y meysydd lle gallwn gael yr effaith fwyaf ar reolaeth gynaliadwy'r amgylchedd morol.

**Maint y bwlch mewn cronfeydd ar gyfer tystiolaeth a lle mae eraill yn goresgyn y cyfyngiadau i gael gafael ar gyllid aml-flwyddyn**

Mae CNC yn cynhyrchu rhestr flynyddol o anghenion tystiolaeth forol ac arfordirol â blaenoriaeth uchel. Mae'r rhestr hon yn cael ei blaenoriaethu o 'restr hir' o anghenion tystiolaeth gydnabyddedig, ar draws gwaith morol ac arfordirol CNC. Mae tystiolaeth i lywio achosion adnewyddadwy ar y môr yn un o'r ysgogwyr â blaenoriaeth. Ar hyn o bryd, mae 20 prosiect ar y rhestr â blaenoriaeth. Mae hyn yn adlewyrchu gallu CNC i ddatblygu'r prosiectau hyn. Gellir mynd i'r afael â rhai o'r bylchau hyn mewn tystiolaeth yn ystod y flwyddyn ariannol; mae eraill fodd bynnag yn broblemau cymhleth sy'n gofyn am ymchwil arbrofol aml-flwyddyn i alluogi dilyniant ystyrlon. Ni all CNC gyflawni hyn ar ein pennau ein hunain, felly rydym ni'n edrych ar sefydliadau eraill a ffrydiau cyllido. Ar hyn o bryd mae ein cyllideb ar gyfer gwaith tystiolaeth forol ac arfordirol (heb gynnwys monitro) oddeutu £160,000 y flwyddyn. Rydym ni'n amcangyfrif y byddai datblygu'r 20 prosiect sy'n flaenoriaeth yn sylweddol yn costio oddeutu £3.5 miliwn y flwyddyn.

Mae CNC yn ceisio gweithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â'r anghenion tystiolaeth hyn. Er enghraifft, rydym ni'n gweithio gyda'r rhaglen Tystiolaeth Gwynt ar y Môr (OWEC) a arweinir gan Ystad y Goron. Rhaglen aml-flwyddyn gwerth £25 miliwn yw hon sy'n cynnwys cymysgedd o astudiaethau, prosiectau ymchwil a chasglu tystiolaeth i helpu i ddeall a goresgyn effeithiau amgylcheddol cronnus gwynt ar y môr, a'i effeithiau ar ddefnyddwyr y môr a'r cymunedau ar y tir. Rydym ni hefyd yn ymgysylltu â'r Rhaglen Camau Gweithredu Galluogi Gwynt ar y Môr (OWEAP), sef menter gwerth £4.3 miliwn a redir ar y cyd gan Defra a BEIS, a ariennir gan Drysorlys EM. Gall y rhaglenni hyn fod yn werthfawr i lenwi bylchau mewn tystiolaeth ar y cyd, lle mae angen i dystiolaeth Cymru gyd-fynd â'r rheini ledled y DU. Fodd bynnag, mae ffocws y rhaglenni hyn yn tueddu i fod ar ddatblygiadau gwynt ar y môr presennol ym Môr y Gogledd sy'n golygu nad yw rhai llwybrau effaith a derbynyddion (cynefinoedd a rhywogaethau) bob amser yn flaenoriaeth yng Nghymru.

Mae ffocws y rhaglenni OWEC ac OWEAP ar wynt ar y môr. Yng Nghymru, mae'r gymysgedd ynni'n fwy amrywiol gyda datblygiad gwynt ar y môr arnofiol, amrediad llanw, llif llanw ac ynni tonnau yn dibynnu ar fynd i'r afael â bylchau mewn tystiolaeth allweddol sy'n benodol i'r sectorau hynny. Mae Llywodraeth Cymru a CNC yn noddi ORJIP Ocean Energy, rhaglen gydweithredol o ymchwil amgylcheddol ledled y DU gyda chyllideb flynyddol o £55,900 a'r nod yw lleihau risgiau cydsynio ar gyfer prosiectau tonnau, llif llanw ac amrediad llanw.

Mae casglu data arolwg yn yr amgylchedd morol yn ddrud iawn a byddai arolygu cynhwysfawr o ddyfroedd Cymru yn costio miliynau, neu o bosibl biliynau o bunnoedd. Byddai CNC yn croesawu newid i'r mecanwaith cyllido i ganiatáu dyrannu cyllid dros sawl blwyddyn, er mwyn galluogi cyflwyno prosiectau tystiolaeth aml-flwyddyn.

**Tystiolaeth sy'n ymwneud â llymrïaid**

Nid yw dosbarthiad a digonedd llymrïaid yn nyfroedd Cymru wedi'i astudio yn dda er bod RSPB ar hyn o bryd yn cynnal prosiect, wedi'i gefnogi gan grant CNC, i asesu dosbarthiad rhywogaethau pysgod porthiant yn nyfroedd Cymru, gan gynnwys llymrïaid. Bydd yr adroddiad yn ymdrin ag:

• Ardaloedd silio a meithrinfa pysgod brae yn nyfroedd ac amgylchoedd Cymru. Dosbarthiad rhywogaethau pysgod brae ifanc ac aeddfed yn ystod yr hydref a'r gaeaf
• Pwysau ar bysgod brae yn Nyfroedd Cymru - Adolygiad llenyddol o'r pwysau hysbys a phosibl ar bysgod brae

Pan gaiff ei gyhoeddi yn gynnar yn 2022 bydd yr adroddiad hwn yn darparu tystiolaeth ddefnyddiol ar gyfer rhywogaethau llymrïaid.

Mae gan CNC brosiectau tystiolaeth llymrïaid yn y rhestr hir o fylchau mewn tystiolaeth a nodwyd yn ein rhaglen tystiolaeth forol ac arfordirol, ond ar hyn o bryd nid oes yr un ar y rhestr flaenoriaeth uchaf ar gyfer bwrw ymlaen â'r adnoddau sydd ar gael.

Mae gan lymrïaid hoff gynefinoedd penodol, maen nhw’n claddu yng ngwely'r môr gyda'r nos ac yn ystod y gaeaf, ac yn dodwy wyau dyfnforol, sy’n eu gwneud yn agored i effeithiau o weithgareddau dynol yn rhyngweithio â gwely'r môr. Mae llymrïaid yn ffurfio poblogaethau arwahanol sydd hefyd yn eu gwneud yn agored i golledion o weithgareddau dynol. Mae pysgodfeydd masnachol a hamdden Cymru ar gyfer llymrïaid a swtanod Norwy yn gyfyngedig, er bod cynefin a phoblogaethau llymrïaid yn destun pwysau eraill yn nyfroedd Cymru fel carthu agregau.

Ar hyn o bryd mae'r llymrïen yn rhywogaeth a restrir o dan Adran 7 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Rhaid i Weinidogion Cymru gymryd pob cam rhesymol i gynnal a gwella'r rhywogaethau sydd wedi'u cynnwys yn y rhestr a gyhoeddir o dan Adran 7 ac annog eraill i gymryd camau o'r fath.

Mae llymrïaid yn ffynhonnell bwyd ar gyfer gwylanod coesddu. Ar hyn o bryd mae CNC yn cwblhau adroddiad ar statws cyfredol yr wylan goesddu yn nyfroedd Cymru. Byddwn yn sicrhau bod hwn ar gael i'r pwyllgor cyn gynted ag y bydd wedi'i gyhoeddi.

**Rôl CNC wrth gynghori ar ynni adnewyddadwy morol a'i gydsynio**

*Nodyn o eglurhad*: Mewn sesiynau diweddarach ar y 9fed, clywodd y Pwyllgor fod Marine Scotland yn defnyddio polisi “Defnyddio a Monitro” i hwyluso'r defnydd o dechnolegau ynni adnewyddadwy morol. Er mwyn egluro, roedd y polisi “Arolygu, Defnyddio a Monitro” yn hwyluso datblygiad trwy leihau ymdrech yr arolwg amgylcheddol sy'n ofynnol i gefnogi ceisiadau i leiafswm o flwyddyn o arolwg amgylcheddol, mewn ardaloedd yr ystyrir eu bod yn risg isel. Roedd y polisi hwn yn seiliedig ar sensitifrwydd amgylcheddol y lleoliad arfaethedig, graddfa'r datblygiad, a'r math o dechnoleg a gynigiwyd. Mae maint yr Ardaloedd Morol Gwarchodedig yng Nghymru yn golygu mai cymharol ychydig o leoliadau yn rhanbarth y glannau a fyddai’n cael eu nodi fel sensitifrwydd amgylcheddol isel, yn absenoldeb asesiad sylfaenol strategol ar raddfa fawr. Sylwch fod y polisi hwn wedi'i dynnu'n ôl yn yr Alban, ac nid yw bellach ar gael ar dudalennau gwe Marine Scotland.

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Ein cyf/Our ref: CH21-071
Eich cyf/Your ref: No ref

Ty Cambria / Cambria House
29 Heol Casnewydd / 29 Newport Road
Caerdydd / Cardiff
CF24 0TP / CF24 0TP

Ebost/Email:
Chair.Office@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Ffôn/Phone:
03000 654453
Date: 20/12/2021

By Email - Llyr Gruffydd MS
Elizabeth.Wilkinson@senedd.wales

20 December 2021

Dear Llŷr,

Thank you for your letter of 22 November regarding unpermitted sewage discharges.

The recent announcement from Environment Agency and Ofwat to analyse and investigate relation to breaches of permit compliance from wastewater treatment works in England relates to information submitted by Water Companies to Environment Agency highlighting permit breaches.

NRW does not propose to undertake a similar investigation as already have a compliance response in place. Information has been shared by the companies since 2014 and we are working with both companies to identify causes, rectify those where possible, and set out plans to bring those sites back into compliance at the earliest opportunity. Currently 32 sites have been rectified and 37 more will be worked on in the current period of water company investment (2020-25). Where NRW feels action is not progressing as required, and as further data is collected by the company and shared with NRW, we will take the necessary action to ensure non-compliance with permit is dealt with appropriately.

NRW recognises the high public interest in relation to water and water quality over the last few years and has taken several steps across the sector to tackle concerns. With regard to Water Companies, we have been proactive in Wales since 2012 in tackling the impact of storm overflows, water company performance and impacts on our SAC rivers in recent times.

In 2012 NRW instructed Water Companies in Wales to install event duration monitors on all its storm overflows to gain a greater level of understanding of their impact and the status of the sewerage network, work in England has progressed at a slower rate due to a later start date. This work has led to greater scrutiny and public interest which NRW has responded to, on top of its current work programme.

I have instigated joint working with Welsh Government, Ofwat, and both Water Companies, with oversight from the Chairs of each organisation to agree an ambitious water company improvement programme for their storm overflows. An overflow taskforce is now in operation in Wales, firstly to develop recommendations aimed at tackling the impacts of Storm Discharges on Welsh rivers, then to instigate an action plan to drive the required work forward. We will maintain our effort on this alongside other priority work to tackle and maintain water company performance.

I will continue to oversee this Overflow 'Roadmap' alongside Ofwat with active management groups in place to drive the work forward. NRW would be happy to share this work with you as it approaches its final stages of agreement.

NRW has also invested in driving the overall performance of Water Companies environmental performance forward. 2020 saw Dwr Cymru achieve 4-star compliance (highest standard) across a range of permitted activities monitored by NRW. We annually hold Companies and their board to account via our Performance management meetings.

We are also ensuring that Dwr Cymru and Hafren are investigating and providing solutions relating to both overflows and sewage treatment works where discharges are impacting on the SAC phosphate issues on Welsh rivers.

May I assure you that we are monitoring closely the recently announced commitment by Environment Agency and Ofwat in England to analyse and investigate breaches of permit compliance from wastewater treatment works, and are working with the Environment Agency and Ofwat Wales to determine what action is proposed in light of their findings. Should this require a review to our approach as the investigations in England progress, we will take the required action.

I understand that NRW has been invited to give evidence on this issue to the Committee in February. In the meantime, should you require any further information please do not hesitate to contact me.

Best wishes,

Sir David Henshaw
**Cadeirydd, Cyfoeth Naturiol Cymru**
**Chair, Natural Resources Wales**

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref

17 Rhagfyr 2021

Annwyl Llyr,

Hoffwn rannu gyda'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith (CCEI) gysylltiadau â'r Cytundeb Amlinellol Fframwaith a'r Concordat a gyhoeddwyd ar gyfer y fframwaith cyffredin canlynol sy'n dod o fewn fy mhortffolio:

- Sylweddau Ymbelydrol

Bydd y dogfennau cyhoeddedig yn helpu eich Pwyllgor i graffu ar fframweithiau dros dro. Os hoffech graffu arnynt, mae fy swyddogion yn barod i'w cynorthwyo.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Huw Irranca-Davies, Cadeirydd Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad y Senedd.

Yn gywir

Julie James

**Julie James AS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Cadeirydd y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

21 Rhagfyr 2021

Annwyl Gadeirydd

**Cytundeb cysylltiadau rhyng-sefydliadol**

Yr wythnos diwethaf cafodd ein hadroddiad ar y Cytundeb Cysylltiadau Rhyng-sefydliadol rhwng Senedd Cymru a Llywodraeth Cymru ei nodi gan y Senedd.

Hoffwn dynnu eich sylw at yr adroddiad hwn, sy'n cynnwys y Cytundeb.

Mae'r Cytundeb yn cynrychioli'r sefyllfa a gytunwyd rhwng y Senedd a Llywodraeth Cymru ar y wybodaeth y bydd Llywodraeth Cymru, lle y bo'n briodol, yn ei darparu i'r Senedd am ei chyfranogiad mewn cyfarfodydd rhynglywodraethol ffurfiol ar lefel Gweinidogion, concordatiau, cytundebau a memoranda cyd-ddealltwriaeth.

Bwriad y Cytundeb yw cefnogi gallu'r Senedd i graffu ar weithgarwch Llywodraeth Cymru ac i ddwyn Gweinidogion Cymru i gyfrif yn yr arena rynglywodraethol. Felly, mae'n bosibl y bydd y Cytundeb o ddiddordeb i chi yng nghyd-destun unrhyw waith craffu y byddwch yn ei wneud yn y dyfodol.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS

Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

31 Rhagfyr 2021

Annwyl Huw,

Rydym yn ysgrifennu atoch yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyng-sefydliadol i roi gwybod i chi y disgwylir i'r Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig gael ei gynnal ar y dyddiadau canlynol yn ystod 2022:

- 31 Ionawr
- 21 Mawrth
- 16 Mai
- 27 Mehefin
- 12 Medi
- 24 Hydref
- 5 Rhagfyr

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Byddwn yn cynrychioli Llywodraeth Cymru. Yn gyffredinol, dim ond wythnos cyn pob cyfarfod y cyhoeddir yr Agenda. Fodd bynnag, mae'r ffocws fel arfer ar feysydd lle mae'n fuddiol i'r pedair gwlad gydweithio (yn enwedig mewn meysydd sy'n ymwneud â newid hinsawdd a chadernid ein sectorau), ac ar feysydd sy'n ymwneud ag osgoi anghydfod (yn enwedig mewn perthynas â'r Fframweithiau Cyffredin), yn ogystal ag ar gyllid sectoraidd. Disgwyliwn y bydd materion sy'n ymwneud â'n ffiniau a Phrotocol Gogledd Iwerddon yn parhau i gael eu trafod drwy gydol y flwyddyn.

Bydd datganiad yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth y DU ar ôl pob cyfarfod.

Bydd y llythyr hwn yn cael ei anfon hefyd at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, ac at Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Cofion,

| | |
|---|---|
| **Lesley Griffiths AS/MS**<br>**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**<br>**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd** | **Julie James AS/MS**<br>**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**<br>**Minister for Climate Change** |

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Eitem 5.10

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd
Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

14 Ionawr 2022

Annwyl Gadeiryddion,

Rwy'n ysgrifennu yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyng-sefydliadol i'ch hysbysu y bydd cyfarfod rhithwir o'r Grŵp Rhyngweinidogol ar Sero Net, Ynni a Newid Hinsawdd yn cael ei gynnal ar 17 Ionawr. Rwy'n ymddiheuro am gysylltu ar fyr rybudd. Mae'r cyfarfod wedi cael ei gadarnhau'r wythnos hon.

Byddaf i'n cynrychioli Llywodraeth Cymru. Bydd y cyfarfod yn trafod cynnwys ac amseru'r ymgynghoriad sy'n dod ar y Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU. Byddwn yn trafod y Mecanwaith Cyfyngu ar Gostau hefyd.

Bydd y Grŵp yn cyhoeddi cyd-hysbysiad ar ôl y cyfarfod. Mi fyddaf yn cyhoeddi Datganiad Ysgrifenedig hefyd.

Yn gywir,

Julie James

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**
—
**Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddHinsawdd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddClimate@senedd.wales
senedd.wales/SeneddClimate
0300 200 6565

Julie James AS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd

16 Rhagfyr 2021

Annwyl Julie

Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040.

Yn ei gyfarfod ar 9 Rhagfyr, trafododd y Pwyllgor sawl darn o ohebiaeth mewn perthynas â Chymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040.

Mae'r ohebiaeth yn codi nifer o faterion a chytunodd y Pwyllgor y dylwn ysgrifennu atoch yn eu cylch. Byddwn yn ddiolchgar felly pe baech yn ymateb i'r cwestiynau a ganlyn:

•A allwch egluro pam y bu oedi wrth gyhoeddi canllawiau i gefnogi polisïau 17 a 18 yng Nghymru'r Dyfodol ac a allwch cadarnhau pryd y caiff y canllawiau eu cyhoeddi?

•Pa fecanweithiau sydd ar waith i ganfod a yw gwerthoedd eiddo wedi newid o ganlyniad i ddatblygiadau sy'n deillio o Gymru'r Dyfodol? Os bydd gwerthoedd eiddo'n gostwng, a oes ffyrdd o ddigolledu perchnogion?

•Pa fecanweithiau sydd ar waith i asesu effaith y broses ddatblygu ar berchnogion cartrefi sy'n byw'n agos at ddatblygiadau sylweddol arfaethedig a allai effeithio ar eu bywoliaeth neu eu hansawdd bywyd?

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ddarparu ymateb **erbyn 13 Ionawr** fel y gellir ei drafod yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor.

Yn gywir,



Llyr Gruffydd AS,
Cadeirydd, Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.


Senedd Cymru
Welsh Parliament

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ionawr 10 2022

Annwyl Llyr Gruffydd AS

Diolch am eich llythyr dyddiedig 16 Rhagfyr 2021 ynghylch Cymru'r Dyfodol. Wrth ateb eich cwestiynau:-

1. Ni fu unrhyw oedi wrth baratoi canllawiau i gefnogi polisïau 17 a 18 Cymru'r Dyfodol. Dywed Cymru'r Dyfodol:-

   *'Bydd canllawiau pellach ar ddatblygu gwynt ar y tir yn cael eu cynhyrchu i helpu gyda'r broses ddatblygu'*

   ac mae'n fwriad gennyf o hyd y bydd y canllawiau hyn yn cael eu paratoi. Bydd fy swyddogion yn cyflwyno cyngor i mi ar baratoi'r canllawiau hyn yn y Flwyddyn Newydd ac ar ôl imi ystyried hyn, rwy'n hyderus y bydd y gwaith paratoi'n dechrau yn 2022. Rwy'n ymwybodol y cafwyd trafodaethau rhagarweiniol gyda CNC a Chomisiwn Dylunio Cymru i roi'r cyngor i mi. Bydd y cyngor hefyd yn ystyried y Cytundeb Cydweithredu a'r Ymchwil Manwl ar Ynni Adnewyddadwy ac a oes gan y canllawiau sydd i'w paratoi rôl bosibl o ran cefnogi'r rhain.

2. Mae profi yr effaith ar werthoedd eiddo yn anodd iawn gan eu bod yn cael eu dylanwadu gan amrywiaeth eang o ffactorau megis gwrth-drefoli sy'n deillio o'r pandemig, materion sy'n benodol yn lleol gan gynnwys darparu eiddo newydd a mynediad at gyllid ar gyfer morgais. Mae Cymru'r Dyfodol yn Gynllun Datblygu ac fel gyda Cynlluniau Datblygu Lleol, nid oes unrhyw fecanweithiau ar waith i fonitro newidiadau mewn gwerth eiddo ac nid oes unrhyw fecanweithiau i ddigolledu perchnogion.

3. Ystyrir effeithiau manwl datblygiadau newydd pan benderfynir ar geisiadau cynllunio. Mae'r system gynllunio yn sefydlu polisïau a chynlluniau datblygu; mae ceisiadau cynllunio yn cael eu hystyried yn erbyn y rhain; mae'r ystyriaeth hon yn cynnwys ymgynghori â'r cyhoedd ac ymgysylltu â rhanddeiliaid; mae cyngor yn cael ei baratoi ar gyfer y rhai sy'n gwneud penderfyniadau (h.y. awdurdodau cynllunio lleol a Gweinidogion Cymru); a byddant yn penderfynu ar y cais cynllunio yn unol â'r cynllun datblygu mabwysiedig oni bai bod amgylchiadau perthnasol yn nodi fel arall.

   Yn achos polisïau 17 a 18 Cymru'r Dyfodol, mae'r polisïau hyn yn berthnasol i Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (DAC). Gweinidogion Cymru sy'n penderfynu ar DAC ar ôl derbyn adroddiad gan Benderfyniadau Cynllunio ac

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Amgylchedd Cymru (PCAC). Mae’r broses ar gyfer penderfynu ar geisiadau DAC yn drylwyr ac wedi'i ddiffinio'n glir. Mae canllawiau ar y broses ar gael ar wefan PCAC. Mae'r dystiolaeth sydd ei hangen i gefnogi ceisiadau DAC yn cynnwys amrywiaeth o asesiadau effaith.

Mewn perthynas â chynigion Cymru'r Dyfodol a DAC, mae'n bwysig bod Cymru'r Dyfodol yn rhoi rhagdybiaeth o blaid datblygu ynni gwynt ar raddfa fawr yn yr Ardaloedd a Aseswyd Ymlaen Llaw ac yn nodi'r meini prawf ar gyfer asesu cynigion yn eu herbyn. Nid yw'r Ardaloedd a Aseswyd Ymlaen Llaw yn darparu caniatâd awtomatig ac mae angen asesu cynigion yn fanwl drwy'r broses DAC.

Yn gywir

Julie James

**Julie James AS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS Cadeirydd,
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
SeneddLJC@senedd.wales

09 Rhagfyr 2021

Annwyl Huw,

Rwy'n ysgrifennu atoch i hysbysu'r Pwyllgor am y bwriad i roi ein cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud a chyflwyno Rheoliadau Plaladdwyr (Dirymu) (Ymadael â'r UE) 2022 erbyn 18 Ionawr.

Mae llythyr wedi cyrraedd oddi wrth Victoria Prentis AS, y Gweinidog Gwladol dros Ffermio, Pysgodfeydd a Bwyd yn gofyn am ein cydsyniad ar gyfer y ddeddfwriaeth hon. Mae'r Rheoliad yn ymdrin â pholisi datganoledig ac yn effeithio ar Gymru. Gallai'r Rheoliad gael ei wneud gan Weinidogion Cymru wrth arfer eu pwerau. Bydd y Rheoliad yn effeithio ar Gymru, Lloegr a'r Alban ac mae cais tebyg wedi'i anfon i Weinidogion yr Alban am eu cydsyniad.

Caiff y Rheoliadau eu gwneud gan arfer y pwerau a roddir gan adran 8(1) Deddf Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (c.16) i unioni diffygion yng nghyfraith yr UE a gedwir i weithredu'n effeithiol a diffygion eraill (yn arbennig o dan adran 8(2)(a) yn sgil ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu deddfwriaeth uniongyrchol ddiangen yr UE sydd wedi'i dargadw sy'n rhan o'r drefn ar gyfer rheoleiddio cynnyrch amddiffyn planhigion ("PPP") a'r lefel gweddillion uchaf ("MRL"), fel y gall y trefniadau hyn barhau i weithredu'n effeithiol ar ôl diwedd y cyfnod gweithredu. Mae'r dirymiadau hyn yn ymdrin â deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddaeth i rym tuag at ddiwedd y cyfnod gweithredu (nad oedd OSau Ymadael cynharach yr UE yn ymdrin â nhw). Dônt i rym ym Mhrydain Fawr trwy ddarpariaethau pontio yn OSau Ymadael cynharach yr UE a'r cofrestrau statudol cenedlaethol. O'r herwydd, nid oes angen mwyach y ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a gedwir a gaiff ei dirymu.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Er mai egwyddor cyffredinol Llywodraeth Cymru yw y dylai cyfraith sy’n ymwneud â materion datganoledig gael eu gwneud a’u diwygio yng Nghymru, y tro hwn oherwydd aliniad polisïau y tair llywodraeth a manteision amlwg, o gofio’r pwnc, gwneud y gyfraith sy’n ymwneud â Chymru, Lloegr a’r Alban o fewn un offeryn, rwyf o’r farn nad deddfu ar wahân ar gyfer Cymru fyddai’r ffordd fwyaf priodol o sicrhau’r newidiadau angenrheidiol na chwaith y defnydd doethaf o adnoddau Llywodraeth Cymru o gofio’i blaenoriaethau eraill pwysig.

Rwy’n anfon copi o’r llythyr hwn at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith SeneddClimate@senedd.wales a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig SeneddEconomy@senedd.wales er eu gwybodaeth.

Yn gywir



**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llyr Griffiths AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Llyr.Gruffydd@senedd.wales

17 Rhagfyr 2021

Annwyl Llyr,

**Rheoliadau Rhestrau Gwledig Cymeradwy (Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid) (Diwygio) (Rhif 2) 2021 - DEFRA/AH/062**

Mae'r Offeryn Statudol uchod yn ofynnol i ganiatáu mewnforio cynhyrchion dofednod a dofednod i Brydain Fawr ailddechrau o rai rhanbarthau o Wcrain a'r cyfan o Awstralia yn dilyn rheolaeth lwyddiannus ar achosion o ffliw adar yn y gwledydd hynny.

Gwneir y Rheoliadau hyn gan yr Ysgrifennydd Gwladol drwy arfer pwerau a roddwyd gan Reoliadau Masnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Swyddogaethau Deddfwriaethol) a Milfeddygon (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/1225), yn benodol, rheoliad 7.

Maent yn diwygio Atodiad 1 i Reoliad y Comisiwn a gedwir (EC) Rhif 798/2008 sy'n gosod rhestr o drydydd gwledydd, tiriogaethau, parthau neu compartmentau y gellir mewnforio dofednod a chynhyrchion dofednod ohonynt a'u cludo drwy Brydain Fawr a'r gofynion ardystio milfeddygol sy'n gymwys i allforio'r nwyddau hynny. Mae'r Rheoliadau hefyd yn diwygio rhai dyddiadau 'cau' ac 'agor' sy'n nodi'r cyfnodau pan fydd allforion o ranbarthau yr effeithir arnynt naill ai'n cael eu gwahardd neu eu caniatáu, gan adlewyrchu natur ddeinamig clefydau.

Ni chynhyrchwyd asesiad effaith ar gyfer yr offeryn hwn gan na ragwelir unrhyw effaith sylweddol ar y sector preifat, gwirfoddol na chyhoeddus, neu ddim effaith sylweddol. Mae'r offeryn hwn yn ei hanfod yn caniatáu i fasnach ailddechrau o ardaloedd yr effeithir arnynt dros dro gan ffliw adar, yn unol â'r polisi presennol y cytunwyd arno rhwng holl lywodraethau Prydain Fawr.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ysgrifennaf atoch i roi gwybod ichi fy mod yn rhoi fy nghydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud yr offeryn statudol hwn mewn perthynas â Chymru. Rwyf wedi gosod Datganiad Ysgrifenedig, sydd i'w weld yn:Rheoliadau Rhestrau Gwledig Cymeradwy (Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid) (Diwygio) (Rhif 2) 2021. Ni fu'n bosibl yn yr achos hwn roi rhybudd ymlaen llaw o'm bwriad i gydsynio, yn unol â'r ymrwymiad diweddar a roddwyd gan y Prif Weinidog, oherwydd yr amserlenni sy'n gysylltiedig â chyflwyno'r OS brys hwn.

Gan fod Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cyffredin y DU y cytunwyd y polisi drwyddo ac oherwydd bod nwyddau o'r math hwn yn symud yn rhwydd o fewn Prydain Fawr, nid oes rheswm dros bolisi gwahanol rhwng gwledydd Prydain Fawr. At hynny, nid yw'r Rheoliadau hyn yn diwygio unrhyw Offeryn Cymreig a wneir gan Weinidogion Cymru.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog dros y Cyfansoddiad, a'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Yn gywir,



**Lesley Griffiths AS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**

Eitem 5.14

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref MA-LG-3951-21

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

20 Rhagfyr 2021

Annwyl Huw

**Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Estyn Cyfnodau Trosiannol) (Diwygio) (Rhif 2) 2021**

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn bwriadu gwneud yr Offeryn Statudol (OS) a enwir uchod ("yr Offeryn") o dan bwerau a roddir gan:

- erthygl 144(6) o Reoliad (UE) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor, a pharagraff 2 o Atodiad 6 i'r Rheoliad hwnnw, ar reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gyflawnir er mwyn sicrhau bod cyfraith ar fwyd a bwyd anifeiliaid, rheolau ar iechyd a lles anifeiliaid, iechyd planhigion a chynhyrchion diogelu planhigion yn cael eu cymhwyso; a
- pharagraff 11A(1) o Atodlen 2 i Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol 2011.

Mewn deddfwriaeth ar weithredadwyedd a wnaed ddiwedd 2020 o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, nodwyd y byddai 'cyfnod pontio trosiannol', er mwyn caniatáu i reolaethau ar fewnforion SPS (iechydol a ffytoiechydol) o'r UE gael eu cyflwyno dros nifer o fisoedd. Bwriedir i'r cyfnod pontio helpu sectorau masnach a'r seilwaith rheolaethau cysylltiedig i fod yn barod ar gyfer gwiriadau bioddiogelwch ychwanegol, sy'n un o ganlyniadau'r penderfyniad i adael yr Undeb Ewropeaidd.

Mae'r Offeryn yn diwygio, mewn perthynas â Chymru a Lloegr, ddyddiad dod i ben penodedig y cyfnod pontio trosiannol i'r graddau y mae'n ymwneud â gwiriadau ar ddogfennau, gwiriadau adnabod a gwiriadau ffisegol ar gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid a sgil-gynhyrchion penodol anifeiliaid. Mae'r offeryn hwn hefyd yn hepgor y gofyniad rhag-hysbysu mewn perthynas â nwyddau a fewnforir o ynys Iwerddon.

Bydd y ddeddfwriaeth a ganlyn yn cael ei diwygio:

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- Rheoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gyflawnir er mwyn sicrhau bod cyfraith ar fwyd a bwyd anifeiliaid, rheolau ar iechyd a lles anifeiliaid, iechyd planhigion a chynhyrchion diogelu planhigion yn cael eu cymhwyso;
- Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol 2011 (yn gymwys i Loegr yn unig);
- Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Lloegr) 2018 (yn gymwys i Loegr yn unig);
- Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) Rheoliadau 2020;
- Rheoliadau Paratoadau Cig (Diwygio ac Addasiadau Darfodol) (Lloegr) (Ymadael â'r UE) 2020 (yn gymwys i Loegr yn unig); a
- Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Estyn Cyfnodau Trosiannol) 2021.

Caiff diwygiadau eu gwneud i ddeddfwriaeth Cymru er mwyn adlewyrchu diwygiadau i'r ddeddfwriaeth ar gyfer Lloegr yn unig a restrir uchod.

Nid yw penderfyniad munud olaf Llywodraeth y DU i hepgor y gofynion rhag-hysbysu ar gyfer nwyddau o Ogledd Iwerddon *ac* Iwerddon yn ddelfrydol oherwydd na fydd swyddogion yn cael data am y llif masnach a ragwelir rhwng mis Ionawr a mis Gorffennaf i'w cynorthwyo gyda gwaith cynllunio a pharatoi. Mae'n bosibl y bydd hefyd yn codi cwestiynau mewn perthynas â Sefydliad Masnach y Byd (WTO) a'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu. Fodd bynnag, rwy'n fodlon nad Gweinidogion Cymru sy'n atebol am y risgiau hyn.

At hynny, heb y diwygiadau hyn, bydd yn ofynnol i fusnesau mewnforio ac allforio ym Mhrydain Fawr a'r UE, o 1 Ionawr 2022 ymlaen, gydymffurfio â'r gofynion rheoli iechyd a ffytoiechydol (SPS) fel y'u nodir ar hyn o bryd mewn deddfwriaeth – gan gynnwys yr angen i ddod i mewn i Brydain Fawr drwy Safle Rheoli Ffiniau.

Bydd yr estyniad yn caniatáu i fusnesau yng Nghymru yr effeithir arnynt gan y pandemig ymgyfarwyddo â'r gofynion cydymffurfio newydd mewn perthynas â chynhyrchion iechydol a ffytoiechydol (SPS) a systemau TG. Bydd hefyd yn fodd i sicrhau bod y seilwaith a'r prosesau angenrheidiol ar waith mewn Safleoedd Rheoli Ffiniau, gan leihau'r risg o darfu ar fasnach.

Rwy'n ysgrifennu atoch felly i roi gwybod ichi fy mod yn rhoi fy nghydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud yr Offeryn mewn perthynas â Chymru. Rwy'n deall y bydd yr OS yn cael ei osod gerbron Dau Dŷ'r Senedd ar 15 Rhagfyr o dan y weithdrefn negyddol. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau nad yw'r gofynion yn dod i rym o 1 Ionawr 2022 ymlaen, bydd yr Offeryn yn torri'r confensiwn 21 diwrnod.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Weinidog yr Economi, y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, y Gweinidog Newid Hinsawdd, y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Lles a Chadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith.

Yn gywir



**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

[redacted] [redacted]

# Brîff ar gyfer caniatáu prosiect arddangos ffrwd lanwol Morlais

## Cynnwys


Prif negeseuon cyfathrebu
Cefndir
Penderfyniad rheoliadol CNC
Risgiau a mesurau lliniaru
- Pryderon rhanddeiliaid
- Ansicrwydd gwyddonol a dull o weithredu fesul cam a rheolaeth addasol


**Prif negeseuon cyfathrebu:**

- Yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn ac yn dilyn cwblhau sawl proses ymgynghori, mae CNC wedi rhoi trwydded forol ar gyfer Morlais.

- Mae CNC wedi rhoi ystyriaeth ofalus i ystod eang o safbwyntiau a heriau penodol o godwyd yn ystod y broses hon. Bydd ein penderfyniad yn galluogi'r datblygiad hwn i gael ei gyflawni mewn modd cynaliadwy sy'n diogelu pobl, bywyd gwyllt ac eraill sy'n defnyddio'r môr. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r datblygwr i sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r mesurau diogelwch hynny.

- Mae pob penderfyniad ynghylch trwydded forol yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn a chyngor arbenigol ynghyd â phroses ymgynghori helaeth.

- Mae'r prosiect yn gorgyffwrdd rhwng dwy drefn gydsynio. Cyflwynwyd Gorchymyn Deddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd i Weinidogion Cymru. Cyhoeddodd Julie James, AS lythyr 'o fwriad' ar 22 Hydref 2021; disgwylir i lythyr yn cadarnhau'r penderfyniad ynghyd â'r Gorchymyn ddilyn yn fuan.

## Cefndir

Bydd y prosiect yn darparu parth arddangos technoleg lanwol, yn benodol ar gyfer rhoi prawf ar y broses o osod sawl arae o ddyfeisiau ynni llanwol a'u harddangos yn fasnachol hyd at gapasiti gosodedig o 240 megawat (hyd at 620 o ddyfeisiau).

Mae'r ardal ddatblygu yn y môr lle gall y gosodiadau arfaethedig gael eu gosod yn cwmpasu arwynebedd o 35km$^2$ i'r gorllewin o Ynys Gybi, Ynys Môn. Ceir hefyd coridor cebl allforio 4.75km$^2$ o faint a fydd yn cyrraedd y tir ger Penrhos Feliw, ynghyd â seilwaith cysylltiedig wedi'i gynnwys o fewn ardal ddatblygu o 1km$^2$ ar y tir.

Mae’r ardal hon yn cynnwys seilwaith cymunedol i ddatblygwyr technoleg lanwol sy'n darparu llwybr a rennir i gysylltiad grid lleol drwy naw cynffon cebl allforio, is-orsaf glanfa ar y tir, a llwybr cebl trydanol ar y tir i gysylltiad grid drwy is-orsaf cysylltiad grid. Mae’r elfennau prosiect morol yn cynnwys adeiladu'r canlynol:

- Hyd at naw cebl allforio
- Hyd at naw cynffon cebl allforio (a rennir gyda chydrannau ar y tir)
- Offer mordwyaeth a monitro’r amgylchedd
- Adeileddau sylfeini ac angori
- Seilwaith trydanol ar y môr, gan gynnwys hybiau dan ddŵr, arnofiol neu uwchben yr arwyneb
- Hyd at 620 o ddyfeisiau llanwol, pob un yn cynnwys:
    - Sylfaen neu angorau ar neu o fewn gwely'r môr
    - Is-adeiledd cefnogol neu angorfa
    - Un neu fwy trawsnewidydd ynni’r llanw
    - Cysylltiadau cebl

Cafodd y prosiect ei asesu o dan Amlen Dylunio Prosiect (ADP) a elwir hefyd yn ‘Amlen Rochdale’. Mae'r dull hwn yn ceisio darparu hyblygrwydd, yn cydnabod y ffaith fod technolegau ffrwd lanwol yn datblygu’n gyflym, ac yn caniatáu ar gyfer arloesiadau ffrwd lanwol y dyfodol i gael eu gweithredu ar draws y safle. Mae'r asesiad o'r effeithiau amgylcheddol felly wedi cael ei gynnal ar sail paramedrau’r ‘senario waethaf’ yn Amlen Dylunio’r Prosiect. Mae'r drwydded forol yn sicrhau bod rhaid i unrhyw ddyfeisiau sy'n cael eu defnyddio fod o fewn y paramedrau a ddiffinnir o fewn Amlen Dylunio’r Prosiect.

### Penderfyniad rheoliadol CNC

Ar 14 Rhagfyr 2021, mae Gwasanaeth Trwyddedu CNC wedi penderfynu o blaid cais trwydded forol ORML1938. Mae pwyntiau a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad wedi cael eu hystyried gan yr ymgeisydd, a chafodd nifer ohonynt eu datrys trwy drefniadau lliniaru a monitro y gellir eu cyflawni trwy ddarparu amodau priodol o fewn y drwydded.

Mae’r prosiect hwn yn defnyddio Canllawiau Rheoli a Chyflwyno Addasol. Mae hyn er mwyn ceisio ymdrin ag ansicrwydd ynghylch effeithiau amgylcheddol y prosiect, yn enwedig mewn perthynas â diffyg tystiolaeth o ran y modd y mae mamaliaid morol ac adar sy’n plymio yn rhyngweithio gyda dyfeisiau llanwol. Cynigir cyflwyno sicrwydd ar ffurf lliniaru a monitro effeithiol er mwyn sicrhau nad oes unrhyw effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd.

Er bod hyn yn cael ei ystyried yn briodol er mwyn rheoli’r risgiau i’r amgylchedd morol o ganlyniad i ddefnyddio ynni morol arloesol, mae’n bwysig cydnabod bod risgiau’n

[redacted]ylltiedig â'r prosiect, yn enwedig yn ymwneud â m[redacted] mamaliaid morol ac adar plymio a fyddai'n cael eu goddef o fewn cwmpas y drwydded.

## Risgiau a mesurau lliniaru

### Pryderon Rhanddeiliaid

Ymgynghorwyd ar y cais ag ymgyngoreion technegol a'r cyhoedd, ar dri achlysur gwahanol yn ystod ein penderfyniad. Lleisiwyd nifer o bryderon sylweddol yn ystod y broses ymgynghori gan amryw o ymgyngoreion gan gynnwys CNC yn ei rôl fel corff cadwraeth natur statudol (SNCB) ar gyfer ardal glannau Cymru.

Er bod yr ymgeisydd wedi ceisio datrys a mynd i'r afael â'r pryderon allweddol hyn, mae gwrthwynebiadau'n parhau gan RSPB ac Ymddiriedolaeth Natur Cymru mewn perthynas â risgiau gwrthdrawiadau i adar a mamaliaid morol, a chan y Gymdeithas Hwylio Frenhinol sy'n ymwneud â risgiau mordwyo i ddefnyddwyr y môr.

### Ansicrwydd gwyddonol a dull o weithredu fesul cam a rheolaeth addasol

Cyhoeddodd CNC ei Ganllawiau Rheoli a Chyflwyno Addasol ym mis Mawrth 2021, ar ôl cael ei sbarduno gan yr heriau rheoleiddio a ddaeth yn sgil cynnig yr ymgeisydd i ddefnyddio dull gweithredu fesul cam a'r disgwyliad o gynigion tebyg gan ddatblygwyr eraill. Cafodd hyn ei gymeradwyo gan Fwrdd CNC ar 15 Medi 2020.

Mae rheolaeth addasol yn ddull systematig ac ailadroddus sy'n caniatáu i'r gwaith o reoli prosiect gael ei addasu yn seiliedig ar ddysgu, unwaith y bydd y datblygiad wedi cael ei osod neu ei adeiladu. Mewn egwyddor, gall dull gweithredu o'r fath ganiatáu i ddatblygiad fynd rhagddo, fesul cam neu fel arall, drwy leihau'r risgiau sy'n gysylltiedig ag ansicrwydd gwyddonol.

Mae ansicrwydd gwyddonol yn bodoli mewn perthynas â thechnoleg ffrwd lanw a'i heffeithiau posibl ar dderbynyddion ecolegol penodol (e.e. risgiau gwrthdrawiadau i adar plymio, mamaliaid morol a physgod).

Cynigiwyd rheolaeth addasol gan yr ymgeisydd ar gyfer y prosiect hwn, gyda nifer a maint pob cam gweithredu yn gysylltiedig â chanlyniadau monitro a nodwyd yn eu **Cynllun Monitro a Lliniaru Amgylcheddol (EMMP)**. Cyflwynwyd EMMP amlinellol gan yr ymgeisydd, i gefnogi ei gais, er mwyn dangos sut y gellir lliniaru a monitro effeithiau posibl y prosiect ar dderbynyddion ecolegol penodol. Mae elfennau allweddol yr EMMP arfaethedig yn cynnwys:

- Y bydd yn rhaid cytuno ar Gam 1 ac unrhyw gam dilynol gyda Gwasanaeth Trwyddedu CNC cyn ei weithredu ac y gall fynd rhagddo dim ond ar raddfa sy'n sicrhau na ragwelir unrhyw effaith sylweddol, yn seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael.

- [redacted] dulliau monitro priodol ac effeithiol yn cael eu cyt[redacted] Trwyddedu CNC cyn gweithredu dyfeisiau llanw. Bydd monitro'n darparu gwybodaeth hanfodol er mwyn cyfarwyddo'r posibilrwydd o ehangu'r prosiect i'r cam nesaf, ond hefyd i benderfynu a oes angen mesur lliniaru ychwanegol yn ystod y cam gweithredu cyfredol, ac ar ba lefel.
- Bydd camau lliniaru priodol ac effeithiol yn cael eu cytuno â Gwasanaeth Trwyddedu CNC ar ôl cael caniatâd, er mwyn atal effaith sylweddol rhag digwydd. Bydd y mesurau lliniaru'n cynnwys atal neu dynnu dyfeisiau llanw pan nad oes unrhyw opsiwn lliniaru effeithiol arall yn bosibl.
- Bydd gweithredu unrhyw gamau yn y dyfodol yn ddibynnol ar ganlyniad y gwaith monitro a wneir.

Noder: Bydd Gwasanaeth Trwyddedu CNC yn ymgynghori ag adran Gynghori CNC a chynghorwyr technegol eraill wrth asesu a phenderfynu ar y cyflwyniadau ôl-ganiatâd hyn.

Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus
—
Public Accounts and Public Administration Committee

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCCGG@Senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCCGG
0300 200 6565
—
Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddPAPA@senedd.wales
senedd.wales/SeneddPAPA
0300 200 6565

Manon Antoniazzi
Y Prif Weithredwr a'r Clerc
Comisiwn y Senedd

10 Rhagfyr 2021

Annwyl Manon

Defnyddio'r term BAME (Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol)

Wrth i'r Pwyllgor drafod ei adroddiad drafft, Craffu ar Gyfrifon: Comisiwn y Senedd 2020-21, roedd nifer o gyfeiriadau at yr acronym BAME. Gofynnodd un Aelod i ni beidio â defnyddio'r term hwn am fod dinasyddion sy'n cynrychioli'r gymuned hon yn teimlo ei fod yn sarhaus. Roedd Aelodau'r Pwyllgor yn cytuno'n llwyr, ac oni bai am ddyfyniadau uniongyrchol o gyhoeddiadau neu Gofnod y Trafodion, newidiwyd pob cyfeiriad i ddweud 'cymunedau lleiafrifoedd ethnig' yn lle hynny. Rwy'n siŵr y byddwch wedi gweld yr ymadrodd hwn yn ein hadroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar.

Gofynnodd y Pwyllgor i mi ysgrifennu atoch yn gofyn i Gomisiwn y Senedd roi'r gorau i ddefnyddio'r term BAME. Cyhoeddodd y Comisiwn ar Wahaniaethau Hil ac Ethnig Adroddiad ym mis Ebrill 2021 ar gyfer Llywodraeth y DU a oedd yn ymchwilio i wahaniaethau hil ac ethnig yn y DU. Un o'r meysydd a ystyriwyd oedd defnyddio'r termau BAME a BME, ac ym mis Mawrth 2021, argymhellodd y Comisiwn ar Wahaniaethau Hil ac Ethnig y dylai Llywodraeth y DU roi'r gorau i ddefnyddio'r term BAME. Mae Llywodraeth y DU yn trafod ei hymateb i Adroddiad y Comisiwn ar hyn o bryd.

Byddai'r Pwyllgor yn croesawu barn Comisiwn y Senedd ar y cais hwn unwaith y bydd wedi'i drafod yn llawn.


Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.

Senedd Cymru
Welsh Parliament

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at gadeiryddion pob Pwyllgor yn gofyn iddynt ystyried peidio â defnyddio'r term BAME yng ngohebiaeth a chyhoeddiadau eu pwyllgorau.

Diolch.

Yn gywir,



Mark Isherwood AS
Cadeirydd y Pwyllgor

**Y Pwyllgor Busnes**
—
**Business Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddBusnes@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddBusnes
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddBusiness@senedd.wales
senedd.wales/SeneddBusiness
0300 200 6565

At: Cadeiryddion pwyllgorau'r Senedd, dros ebost

7 Ionawr 2022

Adolygiad o amserlen y pwyllgorau a chylchoedd gwaith y pwyllgorau

Byddwch yn cofio bod Fforwm y Cadeiryddion, ar 16 Rhagfyr 2021, wedi ystyried, a chymeradwyo, y dull a awgrymwyd gan y Pwyllgor Busnes ar gyfer cynnal adolygiad o amserlen y pwyllgorau a chylchoedd gwaith y pwyllgorau.

Mynegodd y Cadeiryddion amrywiaeth o safbwyntiau gwahanol yn y cyfarfod ar 21 Rhagfyr, gyda rhai Cadeiryddion yn gweld yr amserlen bresennol yn heriol, tra mynegodd eraill bryderon ynghylch newid y dull presennol. Ni leisiwyd unrhyw bryderon ynghylch cylchoedd gwaith pwyllgorau, er y cynigir y bydd cylchoedd gwaith yn parhau i ddod o fewn cwmpas yr adolygiad hwn.

I adeiladu ar hyn, rwy'n eich gwahodd i drafod yr adolygiad gyda'ch pwyllgorau ac i roi ymateb ysgrifenedig i'r adolygiad. Ffocws yr elfen hon o'r adolygiad yw casglu barn gytûn pob pwyllgor.

Wrth wneud hynny, byddwn yn ddiolchgar pe gallech ystyried y cylch gorchwyl ar gyfer yr adolygiad, a nifer o gwestiynau penodol. Er y bydd mynd i'r afael â'r cwestiynau yn ddefnyddiol, ni fwriedir iddynt fod yn rhagnodol.

Mae'r cylch gorchwyl, a'r cwestiynau, wedi'u hamgáu gyda'r llythyr hwn.

Rwyf hefyd yn amgáu copi o'r papur a ystyriwyd gan y Pwyllgor Busnes a Fforwm y Cadeiryddion.

Er yr hoffech efallai gyfeirio at adborth a gawsoch gan randdeiliaid allanol yn eich ymateb, nid yw'r Pwyllgor Busnes yn disgwyl i bwyllgorau ymgynghori â rhanddeiliaid yn yr amser sydd ar gael ar gyfer yr adolygiad hwn.

Mae'r amserlen ar gyfer yr adolygiad hwn yn dynn, gan fod y Pwyllgor Busnes yn anelu at weithredu unrhyw newidiadau sy'n deillio o'r adolygiad ar ddechrau tymor yr haf 2022.

O ganlyniad, fel y cytunwyd yng nghyfarfod Fforwm y Cadeiryddion ar 16 Rhagfyr 2021, bydd angen i'r adolygiad gael ei gwblhau erbyn dechrau mis Mawrth er mwyn rhoi digon o amser i bwyllgorau gynllunio ar gyfer unrhyw newidiadau a wneir.

I alluogi hyn, cyflwynwch eich ymateb ysgrifenedig erbyn 12pm ddydd Gwener 4 Chwefror 2022. Mae hyn wythnos yn hwyrach na'r dyddiad cau gwreiddiol a gynigiwyd yn y dull a awgrymwyd.

Ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn â phwyllgorau, bydd Rheolwyr Busnes yn trafod yr adolygiad gyda'u Grwpiau, a bydd aelodau unigol pwyllgorau’n cael eu harolygu hefyd.

Bydd cynigion drafft, yn seiliedig ar y dystiolaeth a gasglwyd, yn cael eu trafod yng nghyfarfod Fforwm y Cadeiryddion ar 17 Chwefror 2022. Bydd y Pwyllgor Busnes wedyn yn gwneud penderfyniadau am amserlen a chylchoedd gwaith y pwyllgorau yn y dyfodol yng ngoleuni'r drafodaeth honno.

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, cysylltwch â Chlerc Fforwm y Cadeiryddion, Alun Davidson, sy'n cynorthwyo'r Pwyllgor Busnes gyda'r adolygiad hwn.



Elin Jones AS

Llywydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**[Atodedig 1]**

# Y Pwyllgor Busnes: Adolygiad o amserlen y pwyllgorau a chylchoedd gwaith y pwyllgorau

## Cylch gorchwyl a chwestiynau'r ymgynghoriad

### Cylch gorchwyl

- Adolygu'r dull presennol o ymdrin ag amserlen y pwyllgorau, a chylchoedd gwaith pwyllgorau, gyda'r bwriad o ganfod unrhyw newidiadau i'r dull a allai wella effeithiolrwydd pwyllgorau, wrth gynnal cydbwysedd priodol rhwng yr amser y mae aelodau'r pwyllgorau yn ei dreulio ar waith pwyllgorau (mewn cyfarfodydd pwyllgorau a'r tu allan iddynt) a'u cyfrifoldebau ehangach.

### Cwestiynau'r ymgynghoriad

#### Amserlen – y sefyllfa bresennol

I ba raddau y mae'r dull presennol o ymdrin ag amserlen y pwyllgorau yn sicrhau:

- digon o amser i bwyllgorau ymgymryd â'u gwaith yn effeithiol?
- digon o hyblygrwydd i fynd i'r afael â llwyth gwaith sy'n cyrraedd ei anterth yn y pwyllgorau a/neu ofynion busnes yn y dyfodol o ran capasiti pwyllgorau ychwanegol?
- cydbwysedd priodol rhwng yr amser y mae Aelodau'n ei dreulio ar waith pwyllgorau (mewn cyfarfodydd pwyllgorau a thu allan iddynt) a'u cyfrifoldebau ehangach?

#### Amserlen - dewisiadau amgen i'r sefyllfa bresennol

- Pa newidiadau y gellid eu gwneud i amserlen y pwyllgorau i wella effeithiolrwydd pwyllgorau,  a chadw hyblygrwydd i ddarparu ar gyfer busnes ychwanegol y pwyllgorau, a chydbwysedd priodol rhwng yr amser y mae Aelodau'n ei dreulio ar waith pwyllgorau (mewn cyfarfodydd pwyllgorau a thu allan iddynt) a'u cyfrifoldebau ehangach?
- Os ydym am wneud newidiadau i'r amserlen, pryd y dylid gweithredu'r newidiadau hyn?

#### Cylchoedd gwaith

- Ydych chi'n credu bod angen addasu cylch gwaith eich pwyllgor? Er enghraifft, cydbwyso gwaith ar draws pwyllgorau, a/neu wella llinellau atebolrwydd.

#### Mesur effeithiolrwydd eich pwyllgor

- A yw eich pwyllgor wedi sefydlu ffordd o asesu effeithiolrwydd ei waith?

*Gofynnir y cwestiwn hwn er mwyn penderfynu a ellir monitro unrhyw newidiadau a wneir o ganlyniad i'r adolygiad hwn yn y cyd-destun hwn.*

**[Atodedig 2 - Papur Pwyllgor Busnes]**

# Adolygiad o amserlen y pwyllgorau, a chylchoedd gwaith y pwyllgorau: Ymdriniaeth ddrafft

## Diben

1. Darparu ymdriniaeth ddrafft o amserlen ddiwygiedig y pwyllgorau, a chylchoedd gwaith y pwyllgorau i'w hystyried gan y Pwyllgor Busnes..

## Cefndir

2. Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar amserlen o gyfarfodydd bob pythefnos ar gyfer y pwyllgorau ar ddechrau'r Chweched Senedd, ar y sail y byddai'n sicrhau:

   - digon o amser cyfarfod i bwyllgorau gyflawni eu rolau;
   - cydbwysedd teg rhwng yr amser y disgwylir i aelodau ei dreulio ar waith pwyllgorau a'u cyfrifoldebau ehangach;
   - hyblygrwydd i bwyllgorau gynnal cyfarfodydd ychwanegol pan fo angen cwblhau gwaith â chyfyngiad amser iddo, a/neu fynd i'r afael â llwyth gwaith sy'n cyrraedd ei anterth; a
   - digon o hyblygrwydd i ddarparu ar gyfer pwyllgor ychwanegol yn y system, pe bai angen (y Pwyllgor Diben Arbennig ar hyn o bryd).

3. Yn ogystal ag amserlen bythefnosol, cynyddodd y Pwyllgor Busnes faint o amser sydd ar gael yn ystod yr wythnos y gallai pwyllgorau gyfarfod – mae hyn yn cynnwys boreau Llun a'r defnydd achlysurol o ddydd Gwener ar gyfer ystyriaeth Cyfnod 2 o Filiau.

4. Cadwyd wythnosau gwarchodedig, i ddarparu amser penodedig i Fforwm y Cadeiryddion, y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog, ac amser cyfarfod ychwanegol pellach i bwyllgorau ofyn amdanynt pe bai angen.

5. Un amcan eilaidd, a fynegwyd ar yr adeg y cytunwyd ar yr amserlen, oedd annog pwyllgorau i wneud defnydd effeithlon o'u hamser cyfarfod. Er enghraifft, cynnal trafodaethau bord gron untro ar gyfer rhanddeiliaid i gasglu ystod o dystiolaeth yr un pryd, yn hytrach na defnyddio'r dull "panel ar ôl panel" mwy traddodiadol o gasglu tystiolaeth dros nifer o wythnosau.

6. Cytunodd y Pwyllgor Busnes eisoes i adolygu amserlen y pwyllgorau, a chylchoedd gwaith y pwyllgorau, adeg y Pasg 2022 h.y. ar ôl dau dymor o weithredu.

7. Fodd bynnag, mae nifer y ceisiadau gan bwyllgorau am gyfarfodydd ychwanegol, a'r pryderon a fynegwyd gan rai pwyllgorau gyda'r amserlen bresennol, wedi arwain at gyflwyno'r adolygiad hwn.

8. Mae'r Llywydd hefyd wedi nodi yr ymgynghorir â Fforwm y Cadeiryddion ar yr adolygiad yn ei gyfarfod ar 17 Chwefror.

9. Mae'r rhan fwyaf o'r pryderon a godwyd hyd yma wedi bod yn ymwneud ag amserlennu, yn hytrach na chylchoedd gwaith, er bod pryderon wedi'u codi ynghylch ehangder y cylch gwaith a bennwyd ar gyfer y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

10. Mae'r cynigion yn y papur hwn yn awgrymu adolygu'r amserlen a chylchoedd gwaith ar yr un pryd, oherwydd y rhyngddibyniaeth bosibl rhwng y ddau h.y. pe bai adolygiad o gylchoedd gwaith yn arwain at greu pwyllgor newydd, byddai angen i'r amserlen ystyried hyn.

11. Byddai'n bosibl gwahanu'r adolygiadau hyn, pe bai hynny'n well gan y Pwyllgor Busnes, er y gallai adolygiad o gylchoedd gwaith a gynhaliwyd yn ddiweddarach olygu bod angen newidiadau pellach i'r amserlen.

## Cylchoedd gorchwyl drafft

12. Argymhellir cylchoedd gorchwyl drafft yn y blwch isod::

### Cylchoedd gorchwyl drafft

*Adolygu'r dull presennol o ymdrin ag amserlen y pwyllgorau, a chylchoedd gwaith pwyllgorau, gyda'r bwriad o ganfod unrhyw newidiadau i'r dull a allai wella effeithiolrwydd pwyllgorau, wrth gynnal cydbwysedd priodol rhwng yr amser y mae aelodau'r pwyllgorau yn ei dreulio ar waith pwyllgorau (mewn cyfarfodydd pwyllgorau a'r tu allan iddynt) a'u cyfrifoldebau ehangach.*

13. Bydd yr adolygiad yn ystyried y sefyllfa bresennol a'r opsiynau ar gyfer gweithredu'r amserlen yn y dyfodol.

14. O dan y penawdau isod, ceir cwestiynau sy'n ehangu ar y cylch gorchwyl, a gellid mynd i'r afael â hwy yn ystod yr adolygiad:

### Amserlen – y sefyllfa bresennol

A yw'r dull presennol o ymdrin ag amserlen y pwyllgorau yn sicrhau:

- digon o amser i bwyllgorau ymgymryd â'u gwaith yn effeithiol?
- digon o hyblygrwydd i fynd i'r afael â llwyth gwaith sy'n cyrraedd ei anterth yn y pwyllgorau a/neu ofynion busnes yn y dyfodol o ran capasiti pwyllgorau ychwanegol?

- cydbwysedd priodol rhwng yr amser y mae Aelodau'n ei dreulio ar waith pwyllgorau (mewn cyfarfodydd pwyllgorau a thu allan iddynt) a'u cyfrifoldebau ehangach?

### Amserlen – dewisiadau amgen i'r sefyllfa bresennol

- Pa newidiadau y gellid eu gwneud i amserlen y pwyllgorau i wella effeithiolrwydd pwyllgorau, a chadw hyblygrwydd i ddarparu ar gyfer busnes ychwanegol y pwyllgorau, a chydbwysedd priodol rhwng yr amser y mae Aelodau'n ei dreulio ar waith pwyllgorau (mewn cyfarfodydd pwyllgorau a thu allan iddynt) a'u cyfrifoldebau ehangach?

- Os ydym am wneud newidiadau i'r amserlen, pryd y dylid gweithredu'r newidiadau hyn?

### Cylchoedd gwaith

- Ystyried a ddylid addasu cylchoedd gwaith y pwyllgorau. Er enghraifft, cydbwyso gwaith ar draws pwyllgorau, a/neu wella llinellau atebolrwydd.

## Cyd-ddibyniaethau

**15.** Bydd angen i'r adolygiad ystyried:

- yr adnoddau a/neu'r cyfyngiadau technolegol o ran amserlennu, a sut y dylid rheoli hyn yn y dyfodol e.e. nifer y cyfarfodydd pwyllgor (a'r math o gyfarfodydd) y gellir eu cynnal ar yr un pryd; a'r

- effaith ar adnoddau Comisiwn y Senedd, gan gynnwys staffio, unrhyw newidiadau a gynigir o ganlyniad i'r adolygiad hwn (neu gynnal y sefyllfa bresennol, os mai hynny fyddai'r opsiwn a ffefrir).

## Effeithiolrwydd pwyllgorau

**16.** Gallai'r adolygiad ystyried i ba raddau y mae Pwyllgorau wedi sefydlu dulliau o asesu effeithiolrwydd eu gwaith, fel y gellir monitro unrhyw newidiadau a wneir o ganlyniad i'r adolygiad hwn yn y cyd-destun hwn.

**17.** Gellid ymestyn hyn i gasglu unrhyw arloesedd o ran pwyllgorau sydd wedi codi mewn ymateb i amserlen bythefnosol (a mwy hyblyg) e.e. dulliau amgen o gasglu tystiolaeth, gwaith a wneir y tu allan i gyfarfodydd ac ati.

## Casglu tystiolaeth

**18.** Cynigir y dull canlynol o gasglu tystiolaeth:

- Pwyllgorau – mae'r Pwyllgor Busnes yn gwahodd pob pwyllgor i ddarparu ymateb ysgrifenedig i'r cwestiynau a ofynnir gan yr adolygiad.

- Aelodau'r Pwyllgorau – gwahoddir aelodau'r pwyllgorau i gwblhau arolwg i gael eu barn ar yr amser a ddyrennir ar hyn o bryd ar gyfer gwaith pwyllgorau, eu barn ar beth ddylai'r cydbwysedd cywir fod rhwng yr amser a gaiff ei dreulio ar waith

pwyllgorau a'u cyfrifoldebau ehangach, a lefel y flaenoriaeth y gallant ei neilltuo i waith pwyllgorau.

- **Cadeiryddion** – ymgynghorir â Fforwm y Cadeiryddion ar unrhyw gynigion ar gyfer newid sy'n deillio o'r adolygiad, cyn i'r cynigion gael eu cwblhau.
- **Grwpiau Pleidiau** - Mae Rheolwyr Busnes yn gwahodd barn gan eu grwpiau pleidiau.
- **Data** – gellir darparu data ar y defnydd o amser neilltueg, amser cyfarfod ychwanegol, a mathau o weithgarwch y pwyllgorau.

## Amserlen

### Rhagfyr 2021

- Ymgynghori â Fforwm y Cadeiryddion ar gylch gorchwyl a dull o ymdrin â'r adolygiad (16 Rhagfyr).

### Ionawr 2022

- Cyfnod o dair wythnos o gasglu tystiolaeth (10 - 28 Ionawr).

### Chwefror 2022

- Y Pwyllgor Busnes yn ystyried cynigion drafft, yn seiliedig ar y dystiolaeth a gafwyd (8 Chwefror)
- Fforwm y Cadeiryddion yn ystyried y cynigion drafft ac amseriad o ran cyflwyno unrhyw newidiadau i'r amserlen (17 Chwefror).

### Mawrth 2022

- Y Pwyllgor Busnes yn cadarnhau cynigion (1 Mawrth).
- Y Pwyllgor Busnes yn cyhoeddi adroddiad ac yn cyflwyno unrhyw gynigion sydd eu hangen i weithredu newidiadau i gylchoedd gwaith (os bydd angen rhai) (i'w wneud yn y Cyfarfod Llawn ar 9 Mawrth).

### Ebrill 2022

- Newidiadau i'r amserlen i'w gweithredu ar ddechrau tymor yr haf.

## Ymgynghori â Fforwm y Cadeiryddion

**19.** Er bod awydd i ddatrys trafferthion canfyddedig gyda'r amserlen yn gyflym, mae tensiwn rhwng hyn a'r amser arweiniol sydd ei angen i bwyllgorau gynllunio eu gwaith.

**20.** Efallai yr hoffai'r Pwyllgor Busnes ymgynghori â Fforwm y Cadeiryddion, yn ei gyfarfod ar 16 Rhagfyr, ar gwmpas ac amserlen yr adolygiad cyn gwneud penderfyniad terfynol.

# Eitem 9

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon